Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# ADOLYGIAD O ADDASIADAU TAI GAN GYNNWYS GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL - CYMRU


***Adroddiad gan Chris Jones***
***ar ran y Gyfarwyddiaeth Dai, Llywodraeth Cynulliad Cymru***

***Mawrth 2005***

**Cydnabod**

Hoffwn ddiolch i'r bobl ganlynol o Gangen Tai'r Sector Preifat, Cyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod y gwaith o ymgymryd â'r adolygiad o DFG yng Nghymru:

Brendon Hilbourne
Jeff Childs
Huw McLean
Anne- Marie Petterson
Linda Jones
Gerry O'Brien

Hoffwn ddiolch hefyd i bawb arall o Gyfarwyddiaeth Dai'r Cynulliad a roes wybodaeth i mi i'm helpu i gynnal yr adolygiad a llunio'r adroddiad.

Diolch hefyd i swyddogion yr awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cyrff y sector gwirfoddol, ac unigolion o bob rhan o Gymru am gymryd yr amser i lenwi holiaduron, ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd hir i helpu i adeiladu rhaglen gywir o DFG a darpariaeth gwasanaethau addasiadau tai a gwelliannau posibl.

Chris Jones
Dinas a Sir Abertawe
Ar secondiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

**ADOLYGIAD O DFG AC ADDASIADAU - CYMRU**

**Crynodeb Gweithredol**

**Adran 1 Cyflwyniad**

**Adran 2 Cefndir a Hanes y Ddeddfwriaeth a'r System**

**Adran 3 Adolygiad o Ddeunydd Darllen**

**Adran 4 Canfyddiadau'r Adolygiad, Casgliadau ac Argymhellion**

Rhan A Deddfwriaeth

Rhan B Ariannu

Rhan C Amserau Aros ac Oedi

Rhan D DFGs plant dibynnol

Rhan E DFG/Addasiadau Tenantiaid Cyngor, a goblygiadau trosglwyddo stoc

Rhan F Addasiadau ar gyfer Tenantiaid Cymdeithasau Tai

Rhan G Cofrestru Tai a Addaswyd a dyrannu tai wedi'u haddasu

Rhan H Mân addasiadau

Rhan I Addasiadau Brys

**Atodiadau:**

1. Holiadur yr awdurdodau lleol
2. Holiadur R.S.L.
3. Holiadur cyrff gwirfoddol
4. Rhestr o gyrff gwirfoddol a ymatebodd, rhestr o gyrff gwirfoddol a gafodd ymweliad a chyfweliad
5. Sbardunau cyfweliadau RSL ac awdurdodau lleol
6. Adolygiad o ddeunydd darllen

## CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Comisiynwyd adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) ac addasiadau tai eraill gan Mrs Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn Rhagfyr 2003.

1.2 Ceisiodd y cylch gorchwyl archwilio a gwneud casgliadau ac argymhellion ar y canlynol:

a) Effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol
b) Digonolrwydd trefniadau ariannu
c) Amserau aros ar gyfer DFGs ac addasiadau
d) Y prawf modd DFG, fel y mae'n ymwneud â phlant dibynnol anabl
e) Darparu addasiadau ar gyfer tenantiaid tai cyngor, gan gynnwys i ba raddau y mae DFGs ac addasiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio busnes a gwerthuso'r dewisiadau ar gyfer bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys trosglwyddo stoc
f) Addasiadau at gyfer tenantiaid RSL
g) Ailgylchu ac ailddefnyddio eiddo RSL ac awdurdodau lleol sydd eisoes wedi'u haddasu yn effeithiol
h) Effeithiolrwydd y Rhaglen Addasiadau Brys

1.3 Fel rhan o'r adolygiad cafwyd adolygiad o ddeunydd darllen hefyd er mwyn sicrhau bod gwaith ymchwil perthnasol blaenorol yn cael ei ystyried, yng nghyd-destun y materion allweddol uchod.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad, ac yn rhoi cyfres o argymhellion.

Mae **Adran 2** yn darparu cyd-destun DFGs a gwasanaethau addasiadau tai, hanes a chefndir y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer DFGs ac addasiadau, a sut y mae hyn wedi datblygu dros y blynyddoedd o un fframwaith polisi i'r llall.

Mae **Adran 3** yn adolygu deunydd darllen ac ymchwil flaenorol, gan gwmpasu 16 o ddarnau blaenorol o waith, ac yn nodi rhai themâu cyffredin clir o hyn i gyd:

Mae **Adran 4** yn rhoi manylion canfyddiadau'r adolygiad hwn. Fe'i rhennir yn naw rhan, gan gwmpasu deddfwriaeth, ariannu, oedi, DFGs plant dibynnol, tenantiaid cyngor (gan gynnwys materion trsoglwyddo stoc), tenantiaid RSL, cofrestri eiddo addaswyd, mân addasiadau ac Addasiadau Brys. O dan bob un o'r rhain, ceir sylwadau manwl ar yr hyn a ddarganfuwyd yn yr adolygiad, ac ar ôl hynny casgliadau ac argymhellion manwl. Mae'r crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion allweddol yn dilyn.

**CRYNODEB O'R THEMÂU ALLWEDDOL RHEOLAIDD O YMCHWIL FLAENOROL**
**Cadarnhaol:**

1. Mae addasiadau yn cyflawni ystod o amcanion polisi allweddol, gan gynnwys gofal cymunedol, hybu cynhwysiant cymdeithasol, hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty, helpu i atal pobl rhag gorfod mynd i mewn i'r ysbyty a lleihau straen ar ofalwyr.
2. Mae addasiadau, ar ôl iddynt gael eu gwneud, yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar ddefnyddwyr ac yn gyffredinol yn gwella ansawdd bywyd yn sylweddol.
3. Mae addasiadau yn ffordd gost-effeithiol o ddefnyddio arian cyhoeddus ac yn rhoi manteision sylweddol i wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.
4. Mae rhai awdurdodau lleol (ond nid y cyfan) yn defnyddio llwybr "mân waith" llai biwrocrataidd fel ffordd gyflym a hyblyg o ddarparu addasiadau cost-isel. Mae mân addasiadau yn cynnig ystod o ganlyniadau cadarnhaol a pharhaol.

**CRYNODEB O THEMÂU ALLWEDDOL RHEOLAIDD O YMCHWIL FLAENOROL**
**Negyddol:**

1. Oedi hir iawn, gan gynnwys amser aros am asesiad therapi galwedigaethol ac amser i fynd trwy'r broses o wneud cais am DFG
2. Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd annigonol a mynediad dryslyd i wasanaethau
3. Gwaith gosod targedau a rheoli perfformiad gan yr awdurdodau lleol yn wael
4. Mae'r prawf modd ar gyfer DFGs plant anabl yn annheg
5. Gan mwyaf, darpariaeth wael ar gyfer nodi eiddo wedi'u haddasu a chyplysu personau y mae arnynt angen addasiadau, ag eiddo addas pan fyddant ar gael
6. Darlun dryslyd ar draws gwahanol ddeiliadaethau tai, a'r angen am gysondeb o ran sut yr ymdrinnir ag addasiadau mewn gwahanol ddeiliadaethau
7. Gwahaniaethau mewn amserau aros a lefelau gwasanaethau a ddarperir yn dibynnu ar ardal yr awdurdod lleol
8. Arferion anghyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol mewn perthynas â sut y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu cymorth "atodol" o dan ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol, lle nad yw DFG yn diwallu anghenion a nodwyd yn achos unigolion
9. Mae profiad o Drosglwyddo Gwirfoddol Graddfa Fawr (LSVT) yn Lloegr yn dangos bod RSLs newydd a sefydlir adeg trosgwyddo yn gyndyn i gynnal yr un lefel o wariant a ddarperid yn flaenorol gan gyllidebau tai'r Cyngor, gan roi'r cyllideb DFG o dan bwysau sylweddol
10. Gallai pobl sydd â nam ar eu golwg fod yn cael mynediad yn benodol i wasanaethau yn llai na phobl sydd â mathau eraill o anabledd

**CRYNODEB O'R CASGLIADAU ALLWEDDOL**

**Deddfwriaeth**

1. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn annigonol.
2. Mae'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn methu â darparu gwybodaeth foddhaol am DFG a gwasanaethau addasu.
3. Dylai DFG gorfodol aros.
4. Dylai darpariaeth addasiadau mân gost (y rhai hyd at £3000, a gyflwynir ar hyn o bryd trwy DFG) cael eu gwahanu oddi wrth y DFGs drutach.
5. Dylai fod modd gorfodi ad-dalu DFG o dan rai amgylchiadau.
6. Gall oedi yn achos gwaith addasu mawr ar ddiwedd y broses DFG ddigwydd oherwydd yr amser aros am gymeradwyaethau cynllunio.
7. Teimlai cleientiaid DFG/addasiadau a grwpiau eiriolaeth a oedd yn cynrychioli cleientiaid fod y ddeddfwriaeth, a'r prosesau gweinyddol a'r systemau sy'n deillio o hyn yn gymhleth iawn. Roedd y cleientiaid a'u heiriolwyr yn credu hefyd fod ansawdd y wybodaeth a ddarperid gan yr awdurdodau lleol yn wael iawn.

**Ariannu**

8. Mae cyllidebau tai yn diwallu costau DFGs ac addasiadau bron yn llwyr.
9. Cynyddodd maint yr ariannu a ddyrennir i DFGs ac addasiadau gan yr awdurdodau lleol 8% (ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth) rhwng 2000/01 a 2003/04. Er gwaethaf hynny, roedd oedi hir yn parhau, a cheir pryder y bydd y galw yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd sydd i ddod.
10. Mae cynnydd yn yr arian ar gyfer DFGs wedi awrain yn uniongyrchol at ostyngiad yn yr arian ar gyfer trwsio a gwella tai'r sector preifat.
11. Mae addasiadau ar gyfer tenantiaid RSL yn cael eu hariannu trwy gymysgedd o Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) o Raglen Grantiau Tai Cymdeithasol RSL a DFG o arian cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol.
12. Ni ellir defnyddio Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar hyn o bryd i ariannu DFGs tenantiaid cyngor, er nad yw'n hysbys beth yw'r rhesymeg dros hyn.

**Oedi**

13. Mae'r amser aros cyfartalog ar gyfer DFGs yn rhy hir.
14. Yr un yw'r amserau aros ar gyfartaledd ni waeth beth fo graddfa neu gymhlethdod y DFG.
15. Ceir amrywiadau eang o ran yr arferion a'r systemau a ddefnyddir ledled Cymru. Byddai rhannu arferion da ar draws yr holl awdurdodau yn arwain at welliannau i brosesau drwyddi draw.
16. Nid yw proffil DFGs a gwasanaethau addasiadau yn uchel o ran dangosyddion perfformiad corfforaethol yr awdurdodau lleol.
17. Nid oes unrhyw ddangosyddion perfformaid gan y Cynulliad ar hyn o bryd ar gyfer cyflawni DFG a gwasanaethau addasiadau.

**Plant anabl**

18. Nid yw'r prawf modd presennol yn gweithio yn dda ar gyfer achosion plant DFG.
19. Amcangyfrifir mai cost diddymu'r prawf modd yw £1-1.5m y flwyddyn (cost gylchol flynyddol) ynghyd â chost ychwanegol unwaith yn unig a amcangyfrifir yn £2-3m dros 2-3 blynedd cyntaf diddymu'r prawf modd.
20. Mae'r prawf modd yn gyffredinol, ac yn enwedig i bobl anabl iau, yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad o DFG gan ODPM yn Lloegr. Caiff canlyniad hyn ei ystyried gan yr adolygiad yng Nghymru yn ddiweddarach.

**CRYNODEB O'R CASGLIADAU ALLWEDDOL (PARHAD)**

**Tenantiaid cyngor, a materion trosglwyddo stoc**

21. Ceir amrwyiaeth eang o arferion ymhlith yr awdurdodau lleol ar sut y cyflwynir addasiadau cost fawr a mân i'w tenantiaid, gan arwain at wahanol lefelau o wasanaeth rhwng ardaloedd a deiliadaethau.
22. Mae rhai enghreifftiau o arferion da wrth gyflawni gwasanaethau addasiadau mewn llawer o ardaloedd, a allai gael eu rhannu trwy ddefnyddio llwybrau lledaenu priodol
23. Nid yw'r ffordd y dylai addasiadau mawr a mân addasiadau i denantiaid gael eu hariannu os bydd yr awdurdodau lleol yn trosglwyddo eu stoc yn glir, ac mae awdurdodau lleol yn arddel gwahanol safbwyntiau ac ymagweddau at hyn.
24. Efallai y bydd gan drosglwyddo stoc effaith sylweddol bosibl ar gyllidebau DFG yn y dyfodol.

**Tenantiaid RSL**

25. Amcangyfrifir mai £2.5 - £3m yw gwerth addasiadau mawr (PAG a DFG) a wneir yn flynyddol.
26. Mae bodolaeth dau lwybr ariannu ar gyfer addasiadau mawr yn arwain at anghysondeb a dryswch ynghylch sut y darperir addasiadau mawr i denantiaid RSL.
27. Mae arferion ymhlith RSLs wrth ariannu mân addasiadau yn amrywio, gan arwain at wasanaethau anghyson i denantiaid.
28. Nid yw'r cynllun PAG yn cael ei adnabod yn eang na'i gymhwyso gan RSLs ac awdurdodau lleol.
29. Lle defnyddir PAG, gellir cael gafael arno yn gyflymac os bydd RSLs yn darparu adroddiadau OT preifat. Mantais hyn hefyd yw lleihau atgyfeiriadau at wasanaethau OT y gwasanaethau cymdeithasol sydd o dan bwysau. Mewn rhai achosion, mae'r system PAG ei hun yn rhy araf, a gellid ei chyflymu drwy brosesau wedi'u hystwytho megis ôl-geisiadau, a gweithredu rhestr ganolog o gyfraddau.
30. Fel gyda deiliadaethau eraill, nid yw'r wybodaeth a'r cyhoeddusrwydd ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael yn foddhaol.

**Cofrestri Tai a Addaswyd ar gyfer Tai Cymdeithasol**

31. Gall cofrestri effeithiol eiddo a addaswyd a chynlluniau cyfatebol arwain at ailgartrefu niferoedd sylweddol o bersonau yn foddhaol, ac at arbedion cost sylweddol ar gyfer cyllidebau DFG ac Addasiadau Tai.
32. Datblygwyd rhai cynlluniau sy'n cofnodi ac yn nodi eiddo yn effeithiol sydd wedi'u haddasu ac wedyn yn eu hailddefnyddio pan fyddant ar gael ar gyfer personau y mae arnynt angen addasiadau.
33. Mae datblygu a defnyddio cofrestri a addaswyd a chynlluniau cyplysu yn isel. Ceir tystiolaeth mewn rhai ardaloedd na roddir llawer o ystyriaeth i gyplysu eiddo a addaswyd â'r personau y mae arnynt eu hangen.

**CRYNODEB O’R CASGLIADAU ALLWEDDOL (PARHAD)**

**Mân addasiadau**

34. Mae gwasanaethau mân addasiadau yn cael eu diffinio, eu hariannu a’u cyflwyno yn anghyson ar draws deiliadaethau tai a rhwng gwahanol rannau o Gymru.
35. Ceir enghreifftiau o arferion da o ran cyflwyno gwasanaethau addasiadau mewn llawer o ardaloed, gan gwmpasu pob deiliadaeth, a allai gael eu rhannu gan ddefnyddio llwybrau lledaenu priodol.

**Y Rhaglen Addasiadau Brys**

36. Mae RRAP wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gyflawni rhaglen gyflym ac effeithiol o fân addasiadau a gwaith trwsio bach sydd wedi gwneud gwahaniaeth o bwys wrth ganiatáu i bobl ddychwelyd adref o’r ysbyty a gofal, ac wrth atal derbyniadau ac aildderbyniadau i’r ysbyty.
37. Mae’r awdurdodau a darparwyr gwasanaethau iechyd yn rhoi gwerth mawr ar RRAP, ac mae wedi hwyluso gwaith partneriaeth agosach rhwng darparwyr gwasanaethau yn y gwahanol sectorau hyn.
38. Mae gormod o bobl yn gwneud cais am y cynllun, ac mae tystiolaeth glir bod yr arian a ddyrennir yn syrthio’n brin o’r hyn a allai gael ei wario.
39. Mae mwy na 50% o Dai a Gwasanaethau Chymdeithasol yr awdurdodau lleol wedi atodi cyllidebau RRAP, neu mewn rhai achosion datblygu cynlluniau ochr yn ochr â’r rhain gan ddefnyddio’r mecanweithiau a’r rhwydweithiau cyfeirio a sefydlwyd trwy RRAP.
40. Nid yw adnoddau i atodi RRAP gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd lleol, gydag un eithriad yn unig, wedi cael eu darparu, er gwaethaf ei lwyddiant a’i boblogrwydd gyda gweithwyr proffesiynol Iechyd.
41. Mae achos o blaid ymchwilio i’r posibilrwydd o ymestyn cynllun tebyg i RRAP i denantiaid cynghorau ac RSL, er mwyn i’r manteision a nodir uchod gael eu cyflwyno

**CRYNODEB O'R ARGYMHELLION ALLWEDDOL**

**Deddfwriaeth**

1. Dylai'r fframwaith deddfwriaethol presennol aros.
2. Dylai cynhyrchu cyhoeddusrwydd a gwybodaeth glir am wasanaethau DFG ac addasiadau fod yn ofyniad sefydlog craidd ar gyfer fframwaith perfformaid y Cynulliad i'r awdurdodau lleol.
3. Dylid cynhyrchu llyfryn gwybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol i gleientiaid a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n nodi'r math o wasanaethau sydd ar gael, rolau a chyfrifoldebau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, a safonau perfformiad dymunol.
4. Dylai'r dull o ddarparu addasiadau hyd at y gost o £3000, a ddarperir ar hyn o bryd trwy DFG, gael ei hwyluso a'i wneud yn llai biwrocrataidd. Mae angen ymchwilio i'r ffordd o gyflawni hyn. Mae'r dewisiadau y dylid ymchwilio iddynt yn cynnwys defnyddio is-ddeddfwriaeth, datblygu cynllun newydd a ffrwd ariannu yng Nghymru, yn gysylltiedig â darpariaeth well ar gyfer byw yn annibynnol ac argymhellion eraill adroddiad Wanless, a lobïo am newid i'r ddeddfwriaeth Sylfaenol ar DFGs er mwyn hwyluso hyn.
5. Dylid lobïo Llywodraeth y DU er mwyn ychwanegu at ddeddfwriaeth sylfaenol y gallu i ad-hawlio DFG adeg gwerthu, o fewn terfynau amser. Yn y cyfamser, dylid atgoffa'r awdurdodau lleol am eu gallu i gyflwyno amodau lleol trwy wneud cais i'r Cynulliad.
6. Dylid ymchwilio i'r gallu i drefnu trywydd carlam ar gyfer DFG ac addasiadau mawr i bobl anabl trwy'r system gynllunio yn fanwl.

**Ariannu**

7. Dylai natur orfodol DFG a'r angen i roi adnoddau priodol i'r rhaglen DFG gael ei hatgyfnerthu i bob awdurdod lleol.
8. Dylid adolygu'r cyfrifiad o'r fformiwla Tai ar gyfer dyraniadau cyfalaf cyffredinol heb eu clustnodi er mwyn sirchau ei fod yn adlewyrchu lefelau o anabledd yn lleol a'r galw gwirioneddol am DFGs.
9. Dylai'r dyraniad ariannu o ganlyniad i'r fformiwla dai symud ochr yn ochr â'r cynnydd a ragwelir yn y galw am DFGs yn y blynyddoedd i ddod.
10. I gydategu'r argymhelliad i gael llwybr carlam ar wahân ar gyfer gwaith DFG sy'n costio hyd at £3000, mae angen rhoi ystyriaeth i fynhonell ariannu gwaith o'r fath, a rhinweddau defnyddio'r un cyllid sydd ar gael o ganlyniad i adroddiad Wanless.
11. Dylai fod modd defnyddio'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer tenantiaid cyngor. Dylai'r awdurdodau gael gwybod am y newid hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2005/6).

**Oedi**

12. Dylai'r gwaith cymharu a meincnodi manwl a gynhaliwyd o dan yr adolygiad hwn gael ei baratoi fel adroddiad ar wahân a'i roi i'r awdurdodau lleol ac RSLs er mwyn hybu rhannu arferion gorau mewn DFGs a gwasanaethau addasu.
13. Dylid trefnu cyfres o seminarau yn cyflwyno canlyniadau:
    - adolygiad o DFG yng Nghymru
    - adroddiad meincnodi ac arferion da Cam 2 CLILC (pan fydd wedi'i gwblhau)
    - "Delivering Adaptations, a Good Practice Guide" Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog;

    mewn partneriaeth â chyrff megis CIH Cymru, WFHA a Gofal a Thrwsio Cymru.
14. Dylid cyflwyno trywydd carlam ar wahân ar gyfer gwaith DFG sy'n costio hyd at £3000 y ceir y manylion mewn mannau eraill.

**CRYNODEB O'R ARGYMHELLION ALLWEDDOL (PARHAD)**

15. Dylid cyflwyno PI statudol sy'n pennu targed ac sy'n mesur proses DFG ac addasiadau cost fawr a wnaed ym mhob deiliadaeth, bwynt cyntaf cysylltu â'r awdurdod lleol hyd at gwblhau'r gwaith.

**Plant anabl**

16. Dylid diddymu'r prawf modd ar gyfer DFGs plant dibynnol, gyda chostau ychwanegol yn cael eu hariannu gan y Cynulliad.
17. Dylai casgliadau'r adolygiad ehangach o brofion modd DFG sy'n cael ei wneud gan ODPM yn Lloegr gael eu hystyried yng Nghymru pan fydd wedi'i gwblhau.

**Tenantiaid cyngor**

18. Dylid sefydlu fframwaith sy'n gofyn am fwy o unffurfedd ar gyfer cyflawni addasiadau tenantiaid cyngor. Dylai hyn gynnwys:

- Diffiniad clir o'r hyn a ystyrir yn fân addasiadau (y rhai sy'n costio llai na £1000), a llwybr anfiwrocrataidd cyffredin ar gyfer cyflawni'r rhain, y tu allan i'r system DFG
- NAWPI yn cynnwys amserlen ar gyfer cyflawni addasiadau mawr tenantiaid cyngor.

19. Y dylid rhannu arferion da wrth gyflawni gwasanaethau addasiadau i denantiaid trwy'r llwybrau lledaenu a ddisgrifir yn yr argymhellion i Ran C.
20. Bod arweiniad polisi clir a chanllawiau yn cael eu rhoi i'r awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgorffori mewn cynlluniau busnes a chytundebau trosglwyddo, holl gostau gwaith addasu mawr a bach ar gyfer sicrhau bod eu stoc yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

**Tenantiaid RSL**

21. Dylai holl addasiadau cost fawr RSL gael eu cynnal gan ddefnyddio ariannu PAG, o SHG
22. Dylai mân addasiadau sy'n costio llai na £1000 fod yn gyfrifoldeb yr RSL, ac ni ddylent fod yn gymwys am PAG neu DFG.
23. Dylai'r cynllun PAG gael ei ailwampio a'i egluro o safbwynt cymhwyster, isafswm ac uchafswm costau, gwaith cymwys, a gwaith papur y mae angen ei gyflwyno. Cyn belled â phosibl dylai PAG gyfateb i'r ddarpariaeth o dan y system DFG.
24. Dylai cynllun PAG gael ei gyhoeddi yn glir ymhlith pob RSL.
25. Er mwyn cyflymu gwaith addasu, dylid caniatáu ôl-geisiadau am PAG, ar yr amod y cedwir cydbwysedd er mwyn sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn cydymffurfio yn llawn â gofynion PAG.
26. Dylid rhoi ystyriaeth i weithredu rhestr ganolog o gyfraddau ar gyfer PAG.
27. Dylid cyhoeddi gwybodaeth am lwybrau sydd ar gael i addasiadau am denantiaid RSL, fel rhan o'r wybodaeth gyffredinol/deunydd cyhoeddusrwydd a gynigir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

**CRYNODEB O'R ARGYMHELLION ALLWEDDOL (PARHAD)**

**Cofrestri Tai a Addaswyd ar gyfer Tai Cymdeithasol**

28. Dylai'r cynlluniau a'r systemau gorau gael eu dyblygu ledled Cymru. Gallai hyn gael ei hwyluso drwy rannu gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r adolygiad hwn a/neu gyfres o seminarau arferion gorau ar gyfer awdurdodau lleol ac RSLs, wedi'i hwyluso gan y Cynulliad a chyrff megis WFHA a CIH.
29. Dylid atgoffa'r awdurdodau lleol am fanteision cofrestri tai a addaswyd a chynlluniau cyplysu mewn perthynas â'u stoc dai eu hunain, ac fe ddylai fod yn ofynnol iddynt gynnwys eu cynlluniau am gynlluniau o'r fath o fewn eu strategaeth dai leol a'u strategaeth adnewyddu'r sector preifat.

**Mân addasiadau**

30. Dylai mân addasiadau gael eu diffinio yn glir. Awgrymir y dylai'r diffiniad ymwneud â'r gost, ac y dylid ystyried pob addasiad sy'n costio llai na £1000 fel mân addasiad .
31. Dylid hybu cyflwyno mân addasiadau (llai na £1000) trwy fecanweithiau llai biwrocrataidd.
32. Dylai ariannu mân addasiadau sy'n costio £1000 neu lai fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat, RSLs ar gyfer tenantiaid RSL, ac Adrannau Tai ar gyfer tenantiaid Tai Cyngor, a dylid ymchwilio i'r mecanwaith ar gyfer y ffordd orau o gyflawni hyn.
33. Dylid hybu a hyrwyddo defnyddio staff cymwysedig nad ydynt yn OT ar gyfer mân addasiadau.

**Rhaglen Addasiadau Brys**

34. Bod cadarnhad bod y rhaglen RRAP yn parhau y tu hwnt i'r cynnig peilot 3 blynedd cychwynnol.
35. Bod yr arian a ddyrennir i'r rhaglen yn cael ei gynyddu er mwyn adlewyrchu'r galw gwirioneddol am RRAP, o fewn ffiniau diffiniedig nodau a chymhwyster y rhaglen.
36. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffynhonnell arian am y rhaglen yn y dyfodol, fel bod hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae'r rhaglen yn ei gyflwyno o safbwynt amcanion iechyd a gofal cymdeithasol.
37. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i raglen debyg i RRAP sy'n cynnwys deiliadaethau tai cymdeithasol, gan roi sylw dyledus i gyflwyno trwy'r rhwydweithiau a'r partneriaethau sydd eisoes wedi datblygu.

## ADOLYGIAD O ADDASIADAU TAI YNG NGHYMRU

## ADRAN 1 CYFLWYNIAD

### Cefndir yr adolygiad

1.1 Comisiynwyd adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) ac addasiadau tai eraill gan Mrs Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn Rhagfyr 2003.

1.2 Cynhyrchwyd papur cwmpasu a dechreuodd yr adolygiad ym Mai 2004. Ar sail y papur cwmpasu, datblygwyd cylch gorchwyl. Ceisiodd y cylch gorchwyl archwilio a gwneud casgliadau ac argymhellion ar y canlynol:

a) Effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol
b) Digonolrwydd trefniadau ariannu
c) Amserau aros ar gyfer DFGs ac addasiadau
d) Y prawf modd DFG, fel y mae'n ymwneud â phlant dibynnol anabl
e) Darparu addasiadau ar gyfer tenantiaid tai cyngor, gan gynnwys i ba raddau y mae DFGs ac addasiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio busnes a gwerthuso'r dewisiadau ar gyfer bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys trosglwyddo stoc
f) Addasiadau at gyfer tenantiaid RSL
g) Ailgylchu ac ailddefnyddio eiddo RSL ac awdurdodau lleol sydd eisoes wedi'u haddasu yn effeithiol
h) Effeithiolrwydd y Rhaglen Addasiadau Brys

1.3 Fel rhan o'r adolygiad cafwyd adolygiad o ddeunydd darllen hefyd er mwyn sicrhau bod gwaith ymchwil perthnasol blaenorol yn cael ei ystyried, yng nghyd-destun y materion allweddol uchod.

### Y broses adolygu

1.4 Mae'r broses adolygu wedi anelu at fod mor gynhwysol â phosibl. Mae wedi gofyn am farn llawer o randdeiliaid ac wedi defnyddio nifer o ddulliau fel a ganlyn:

a) Anfonwyd holiaduron post at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac fe'u dychwelwyd (Atodiad 1)
b) Anfonwyd holiaduron post at 28 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, daeth 21 o atebion i law (Atodiad 2)
c) Cynhaliwyd ymweliadau a chyfweliadau â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru
d) Cynhaliwyd ymweliadau a chyfweliadau â 6 o RSLs
e) Anfonwyd holiadur at bartneriaid allweddol ac at asiantaethau gwirfoddol/eiriolaeth er mwyn gofyn am eu barn am y system DFG (Atodiad 3). Ceir rhestr o'r holl asiantaethau a ddychwelodd holiadur yn Atodiad 4
f) Cynhaliwyd ymweliadau a chyfweliadau â X o'r asiantaethau hyn (Atodiad 4)
g) Mae 11 o gleientiaid sydd wedi bod trwy'r system DFG wedi dychwelyd holiaduron, neu fe gawsant ymweliad a chyfweliad

h) Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) yn Lloegr hefyd wedi comisiynu adolygiad o DFGs yn 2004/2005, ac roedd grŵp llywio yr adolygiad hwn yn cynnwys yr adolygwr a chynrychiolydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru
i) Er mwyn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau y tu allan i Gymru hefyd yn cael eu hystyried, cynhaliwyd cyfarfodydd ag awdurdod yn Lloegr (Bryste), Gweithrediaeth yr Alban, Cyngor Dinas Caeredin, a Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon.
j) Ymgynghori mewnol yn y Cynulliad
k) Mae cyflwyniadau wedi'u gwneud ac mae adborth wedi dod i law oddi wrth nifer o seminarau, sef Adran Arbenigol Coleg y Therapyddion Galwedigaethol yn y gynhadledd Dai flynyddol, Cynhadledd Flynyddol Gofal a Thrwsio Cymru, cyfarfod grŵp Swyddogion Grantiau Gogledd Cymru, a Phenaethiaid seminarau Iechyd Amgylcheddol Cymru yn y Gogledd a'r De.

1.5 Cynhaliwyd y cyfweliadau â'r Awdurdodau Lleol gyda grwpiau o swyddogion yn cynrychioli'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Tai'r Sector Preifat a Thimau Cynnal a Chadw/Addasu Tai Cyngor. Roedd y swyddogion a oedd yn bresennol ar lefel rheolwyr gwasanaeth/prif swyddog ac yn uwch fel bod y safbwyntiau a oedd yn cael eu casglu yn safbwyntiau gwneuthurwyr penderfyniadau. Dangosir copïau o'r aide memoires i gynorthwyo ymweliadau/cyfweliadau â'r awdurdodau lleol ac RSLs yn Atodiad 5.

1.6 Mae'r wybodaeth sydd wedi deillio o'r ymgynghoriadau a grynhoir uchod wedi bod yn sylfaenol o ran ffurfio'r "canfyddiadau", casgliadau ac argymhellion yr adolygiad hwn.

## ADRAN 2 CEFNDIR A HANES DEDDFWRIAETH A'R SYSTEM

### Cyd-destun Gwasanaethau DFG/Adddasiadau

2.1 Diben darparu addasiad yw addasu amgylcheddau sy'n peri anabledd er mwyn adfer byw yn annibynnol. Ei hanfod yw darparu ateb unigol i broblemau pobl sy'n byw mewn amgylchedd sy'n peri anabledd yn hytrach nag ymwneud yn unig â gwaith adeiladu neu ddarparu cyfarpar. Yn aml iawn cyfeirir at yr ymagwedd hon, a gefnogir yn llawn gan y Cynulliad Cenedlaethol, fel model cymdeithasol anabledd, o'i gymharu â'r model meddygol sy'n canolbwyntio ar ddiffygion gweithredol unigolion.

*2.2* Mae'r nifer o bobl y mae arnynt angen addasiadau ar gynnydd. Mae pobl yn byw yn hwy oherwydd gwelliannau parhaus mewn arferion meddfygol, ac yn byw yn fwy iach. Y darlun yng Nghymru, dros y ganrif ddiwethaf, yw bod y gyfran o bobl 60 oed a throsodd wedi mwy na threblu. Mae amcanestyniadau demograffig am yr 20 mlynedd nesaf yn awgrymu twf bach yn unig yn y boblogaeth yn gyffredinol (3%) ond o fewn hyn bydd cynnydd gyfrannol llawer mwy mewn pobl hŷn. Mae'r amcanestyniadau yn rhag-weld cynnydd o 11% o bobl o oedran ymddeol (rhyw 65,000 yn fwy o bobl), a chynnydd o 33% mewn pobl dros 85 oed (rhyw 21,000 yn fwy o bobl 85 oed a throsodd). Mae cyd-destun gwasanaethau DFG/addasiadau felly yn gyd-destun o alw cynyddol, ac o'r angen i feithrin capasiti er mwyn darparu am anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac yn arbennig eu helpu i barhau i fyw yn annibynnol gartref, yn hytrach nag mewn cyfleusterau gofal cymdeithasol neu feddygol.

### Cyd-destun polisi cenedlaethol

2.3 Mae'r strategaeth dai genedlaethol **Cartrefi Gwell i Bobl Cymru, 2001,** yn rhoi ymrwymiad clir i sicrhau cyfle cyfartal, cefnogi grwpiau hawdd eu niweidio a difreintiedig, a datblygu polisi tai sy'n diwallu anghenion grwpiau penodol. Mae'r strategaeth yn datgan "byddwn yn sicrhau bod pob aelwyd sy'n agored i niwed yn cael mynediad at gyngor arbenigol am dai ac unrhyw gymorth ac ac addasiadau y mae arnynt eu hangen er mwyn aros yn eu cartrefi eu hunain". Ceir ymrwymiad penodol i archwilio'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer darparu addasiadau ffisegol ar draws pobl deiliadaeth tai ac i ddefnyddio tai wedi'u haddasu yn well trwy hybu cyplysu tai wedi'u haddasu â phobl y mae arnynt eu hangen.

2.4 Un o'r 5 nod allweddol a nodwyd yn **Strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, 2003** yw *"hyrwyddo'r ddarpariaeth o wasanaethau a chymorth o safon uchel sy'n galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl mewn amgylchedd addas a diogel a sicrhau y caiff gwasanaethau eu trefnu o amgylch eu hanghenion ac mewn dull sy'n ymateb i'w hangehnenion".*

2.5 Mae adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad Cenedlaethol sef **Tai ar gyfer Pobl Hŷn, 2004** yn gwneud cyfres o argymhellion sy'n cynnwys y canlynol mewn perthynas â DFGs ac addasiadau tai:

- **Argymhelliad 7**
  Chwilio am ffyrdd o ddatrys y prinder parhaus o ran therapyddion galwedigaethol, pennu arfer gorau a rhoi canllawiau ar ffyrdd o ddefnyddio gweithwyr proffesiynol yn y ffordd orau.
- **Argymhelliad 8**
  Cynnwys yn yr adolygiad DFG:
  - Digonolrwydd yr adnoddau a ddarperir
  - Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar gael gwared ar brofion modd a phennu'r gyfradd TAW ar gyfer pob gwaith sy'n ateb anghenion pobl anabl, ar y lefel isaf bosib
  - Rhoi arian cyhoeddus i dalu am addasiadau mewn pob math o ddeiliadaeth a phob math o lety a sicrhau'r un canlyniadau i bawb beth bynnag fo'u deiliadaeth
  - Pa mor effeithiol yw'r grant o ran hybu annibyniaeth yn hytrach na phwysleisio diffyg gweithredol
  - Cynnwys y rhai sy'n derbyn grant a'u gofalwyr wrth gynllunio a gwerthuso gwasanaethau
- **Argymhelliad 10**
  Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru feddwl am gyflwyno ffrwd ariannu i gefnogi prosiectau arleosol sy'n ymwneud ag iechyd a thai.

**2.6 Amcanion y Fframwaith NSF Pobl Hŷn**

2.7 Mae **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y Cynulliad ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth yng Nghymru** (dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2004) yn cynnwys 7 nod craidd i blant yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae sirchau bod gan blant *" gartref a chymuned diogel sy'n hybu eu lles corfforol ac emosiynol*" ac nad yw plant *"o dan anfantais oherwydd tlodi*". Yn fwy penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc anabl, mae Pennod 5 o'r NSF Plant yn nodi *".. plant anabl a'u teuluoedd yn wynebu llawer o rwystrau cymdeithasol a chorfforol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas. Nid nam corfforol plant anabl yn unig sy'n pennu eu hansawdd bywyd, ond hefyd agweddau negyddol ac amgylcheddau cyfyngedig, er enghraifft…tai…".* Un o nodau arbennig yr adolygiad hwn felly yw nodi a yw'r system DFG bresennol yn peri anfantais i blant anabl trwy ddarpariaethau profion modd, a phenderfynu a yw mynediad i wasanaethau addasu yn helpu i gyflawni nodau Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant y Cynulliad.

2.8 Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Uned Strategaeth y Prif Weinidog ym mis Ionawr 2005 ***"Improving the Life Chances of Disabled People",*** yn nodi agenda bolisi hirdymor ar gyfer camau gweithredu angenrheidiol i wella ansawdd bywyd pobl anabl.

Mae'r adroddiad yn nodi angen am gamau ymarferol ym mhedwar maes allweddol:

- sicrhau byw yn annibynnol
- gwella cefnogaeth i deuluoedd sydd â phlant anabl ifanc
- symud at fywyd oedolyn
- cymorth a chymhellion ar gyfer sicrhau cyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth

Cydnabyddir bod rôl Tai yn gydran allweddol o fyw yn annibynnol, a nodir tri phrif faes:

- addasiadau i eiddo presennol
- defnydd mwy effeithiol o eiddo hygyrch/wedi'u haddasu
- cymhwyso yn ehangach Safonau Cartrefi Am Oes mewn adeiladau newydd a'r stoc bresennol

Yn yr adroddiad nodir rhai problemau penodol â'r system DFG bresennol, gan gynnwys:

- prawf modd nad yw'n cymryd i ystyriaeth ad-daliadau morgais neu wariant ar blant ifanc, ac nad yw'n diystyru incwm a enillir er mwyn osgoi creu dadgymhellion i weithio
- terfyn cost uchaf DFG
- gweinyddu hir ac oedi wrth brosesu DFGs

Er mai yn y DU y seilir yr adroddiad, heb unrhyw elfennau sy'n benodol i Gymru, mae'n bwysig bod yr adolygiad DFG/addasiadau yng Nghymru yn nodi ac yn ystyried y cyfeiriad polisi cyffredinol a rhai o'r materion DFG/addasiadau tai penodol a nodwyd fel rhai y mae angen eu gwella.

2.9 Mae'r adolygiad hwn yn ymchwilio i'r holl themâu a'r materion a ddisgrifir yn y dogfennau uchod, ac yn cynnig cyfres o gasgliadau ac argymhellion ynghylch y rhain a materion eraill.

**Crynodeb o'r System DFG/Addasiadau presennol**

2.10 Grantiau gorfodol yw DFGs sydd ar gael i helpu pobl anabl i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae ar yr awdurdodau lleol felly ddyletswydd i ddarparu DFGs. Mae'r grantiau yn destun prawf modd ac maent ar gael i bersonau sy'n byw ym mhob deiliadaeth dai, gan gynnwys perchnogion, tenantiaid cyngor a thenantiaid RSL. Yn ymarferol, mae'r awdurdodau lleol wedi datblygu gwahanol ffyrdd o ddarparu addasiadau yn y gwahanol deiliadaethau. Mae DFGs ar gael ym mhob achos i berchen-feddianwyr ac i denantiaid preifat, ond yn achos tenantiaid cyngor, a thenantiaid RSL, mae'r dulliau gweithredu yn amrywio e.e. mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau o'u cyfrifon refeniw tai i ariannu addasiadau i'w tenantiaid eu hunain, a gall RSLs gael gafael ar Grantiau Tai Cymdeithasol (Grantiau Addasiadau Ffisegol) yn uniongyrchol gan y Cynulliad i'w tenantiaid.

2.11 Seilir y prawf modd ar gyfer DFGs ar y prawf am fudd-dâl tai, ac mae'n gweithio ar yr egwyddor o benderfynu ar faint benthyciad y gallai'r ceisydd fforddio ei godi. Mae ymgeiswyr sydd ar y trothwy neu yn is na'r trothwy ar gyfer budd-daliadau sy'n destun prawf modd yn gorfod cyfrannu. Mae'r rhai ar incwm isel yn cyfrannu symiau bach, tra mae'r rhai ar incwm uwch yn aml yn gorfod talu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o gost y gwaith. Gwendid cydnabyddedig yn y prawf modd yw'r lwfans am gostau tai, nad yw'n adlewyrchu realiti taliadau morgeisi na rhenti.

2.12 Nodweddir y system DFG/Addasiadau gan ymagwedd dau gam at benderfynu ar waith cymwys am addasiadau. Mae'r Awdurdod Lles (yn ymarferol timau Therapi Galwedigaethol Gwasanaethau Cymdeithasol) yn penderfynu pa waith sy'n **"anghenrheidiol ac yn briodol"** i ddiwallu anghenion y person anabl, ac mae'r Awdurdod Tai yn penderfynu pa waith sy'n **"rhesymol ac ymarferol"**, sy'n golygu bod rhestr o waith yn cael ei hanfon at y ceisydd sy'n sail i'r gwaith sy'n cael cymorth grant. Mae cyfranogiad dwy ran/swyddogaeth yr awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion mwy na hyn os oes timau wedi'u datganoli a/neu dimau ar wahân yn ymdrin ag addasiadau tenantiaid cyngor, yn arwain at broses gymhleth a dryslyd i geiswyr.

**Hanes a chrynodeb o'r ddeddfwriaeth berthnasol**

2.13 pennodd **Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990**, y fframwaith am y polisi newydd o "Gofal yn y Gymuned" ar y pryd. Yr amcan polisi clir oedd helpu pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac yn eu cymunedau eu hunain yn hytrach na byw mewn gofal preswyl na sefydliadol. Erbyn 1992, pwysleisiodd cylchlythyrau a chanllawiau ar y cyd a gyhoeddwyd gan Adrannau'r Llywodraeth bwysigrwydd tai wrth wneud i waith gofal cymunedol weithio. Pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym ym 1993, rhoddwyd rôl arweiniol i'r awdurdodau lleol o ran darparu "Gofal yn y Gymuned". Troslgwyddwyd adnoddau a ddelid gynt gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol i dalu am gostau cartrefu pobl mewn gofal, i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Er hynny ni nodwyd unrhyw ddarpariaeth ariannol benodol ac ni threfnwyd bod darpariaeth ar gael o fewn fframwaith polisi Gofal yn y Gymuned am waith i alluogi pobl i fyw yn annibynnol gartref. Hefyd nid oedd darlun clir o sut y byddai'r polisi yn cael ei ariannu dros amser, gan roi sylw i newidiadau demograffig yn y niferoedd o bobl hŷn ac anabl o fewn y boblogaeth.

2.14 **Ym 1989, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol a Thai** grant gorfodol newydd o dan yr enw Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Dilynodd mecanwaith cyflwyno a ffrwd ariannu'r grant hwn batrwm traddodiadol grantiau tai. Daeth yn rhan o raglenni adnewyddu tai'r sector preifat a gyflwynir gan Dimau o Swyddogion/Syrfëwyr Iechyd yr Amgylchedd a staff cymorth mewn Adrannau Tai ac Iechyd yr Amgylchedd h.y. rhan o'r raglenni ehangach o grantiau tai ar gyfer trwsio, adnewyddu a gwella amodau tai'r sector preifat. Disodlwyd Deddf 1989 gan **Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.** Gwnaeth Deddf 1996 bob grant tai yn ddewisol, ac eithrio DFG lle cadwyd hawl orfodol. Cafwyd newidiadau ysgubol a gwell hyblygrwydd ar gyfer pob math arall o

grantiau tai o dan **Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.** Er hynny, mae'r hawl orfodol i gael DFG yn parhau heb ei newid ac mae'n gymwys ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth 1996. Y DFG uchaf presennol yng Nghymru yw £30,000 (llai unrhyw gyfraniad sy'n destun prawf modd).

2.15 Mae darpariaethau **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002** yn rhoi pwerau eang i'r awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ac yn galluogi'r awdurdodau lleol i atodi DFG gorfodol mewn unrhyw ffordd y gwelant yn dda. Gallai hyn gynnwys grant atodol dros y terfyn uchaf, cyflwyno prawf modd lleol ar gyfer grwpiau penodol, darparu addasiadau mân gost y tu allan i'r system DFG, a darparu benthyciadau neu gynhyrchion rhyddhau ecwiti i helpu i ddarparu addasiadau. Mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer defnyddio'r pwerau dewisol hyn, a faint o gyllid y maent yn ei ddefnyddio i gefnogi hyn. Yn ymarferol, mae gwahanol fathau o gymorth, a phwyslais pob un yn wahanol wedi datblygu mewn gwahanol awdurdodau ers 2002. Mae Canllawiau Cylchlythyr 20/02 y Cynulliad yn rhoi cyngor manwl am y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer DFG gorfodol a dewisol a mathau dewisol eraill o gymorth trwy ddarpariaethau RRO.

2.16 Yn wahanol i grantiau trwsio ac adnewyddu, mae DFGs ar gael yn statudol hefyd i denantiaid cyngor a thenantiaid RSL. Er hynny, mae'r ffordd y cyflwynwyd yr addasiadau i denantiaid yn amrywio o un ardal awdurdod lleol i'r llall. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu DFGs i'w tenantiaid, tra mae eraill yn darparu ”addasiadau tai” y telir amdanynt trwy eu cyfrifon refeniw tai fel rhan o'u rhaglenni ehangach o wella ar gyfer tai cyngor. Mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud y ddau.

2.17 Ym achos tenantiaid RSL, mae DFGs hefyd yn hawl orfodol. Yn ymarferol, mae'r ffordd y darperir ar gyfer addasiadau ar gyfer tenantiaid RSL yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd, y tenantiaid sy'n cael mynediad i DFG, mewn ardaloedd eraill mae'r RSL yn trefnu gwaith eu hunain ac yn ariannu hwn trwy Grant Tai Cymdeithasol (Grant Addasiadau Ffisegol). Mewn rhai ardaloedd, defnyddir y ddwy ffordd.

2.18 Mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn arbennig Timau Therapi Galwedigaethol, yn bartner pwysig wrth gyflawni addasiadau o dan Ddeddf 1996. Mae gan therapyddion galwedigaethol rôl bwysig wrth ragnodi addasiadau y mae ar y person anabl eu hangen, a gwneud argymhellion yn unol â hynny i Adrannau Tai/Iechyd yr Amgylchedd.

2.19 Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol hefyd gyfrifoldebau **penodol** o dan lawer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth. Mae'r canlynol yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag addasiadau tai:

a) Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a
b) Deddf Plant 1989.

Mae **Adran 2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970** yn datgan (ymhlith pethau eraill) bod ar yr awdurdodau lleol ddyletswydd i drefnu:

- Asesiad o anghenion pobl anabl am addasiadau yn eu cartref
- Unrhyw waith addasu yn eu cartref

Yn ymarferol, yn y mwyafrif helaeth o achosion, yr Awdurdod Tai sy'n darparu DFG sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon. Er hynny, nid yw hyn bob amser yn wir. Mewn llawer o awdurdodau, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu mân addasiadau yn uniongyrchol heb orfod defnyddio DFG. Hefyd, ni all DFG bob amser ddiwallu'r angen a nodwyd naill ai am fod ceiswyr am grant yn cael eu hasesu fel rhai sydd â chyfraniad prawf modd (y mae ceiswyr yn dweud weithiau na allant ei fforddio) neu am fod cost y gwaith addasu yn fwy na swm y grant gorfodol uchaf. Mewn achosion o'r fath, mae'n glir bod ar yr awdurdodau lleol, ac yn arbennig y Gwasanaethau Cymdeithasol, ddyletswydd o hyd i helpu i ddarparu am yr angen a nodwyd gan therapyddion galwedigaethol, a dylai fod ganddynt bolisïau ac arferion clir y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau trwyddynt o dan y Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl.

Mae **Deddf Plant 1989** yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu ystod o wasanaethau cymorth teuluol i blant mewn angen. Mae'r diffiniad o blant mewn angen yn cynnwys plant anabl. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i leihau effaith anableddau plant anabl ar y plant hynny, ac yn rhoi cyfle i'r plant hynny fyw bywyd sydd mor normal â phosibl. Mae Adran 17 o'r Ddeddf hon yn nodi o dan amgylchiadau eithriadol, y gall y gwasanaethau a ddarperir gynnwys rhoi cymorth arian parod, a allai fod yn ddiamod neu'n destun amodau adeg ei ad-dalu (ond nad yw'n gorfod cael eu had-dalu os ydynt yn cael cymhorthdal incwm neu gredyd teulu). Gallai'r ddyletswydd hon i ddiwallu angen plentyn godi os na all DFG ddiwallu'r angen hwnnw oherwydd darpariaethau profion modd y DFG.

## ADRAN 3 ADOLYGIAD O DDEUNYDD DARLLEN

3.1 Mae astudiaethau ac adolygiadau niferus o grantiau cyfleusterau i'r anabl ac addasiadau tai wedi'u cynnal dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r adolygiad hwn, sy'n benodol i effeithiolrwydd y trefniadau presennol yng Nghymru, wedi anelu at beidio â dyblygu'r astudiaethau eraill a'r adolygiadau hyn (er ei bod yn anochel bod rhywfaint o ddyblygu a gorgyffwrdd).

3.2 Er hynny, er mwyn helpu i osod y cyd-destun, ac i danlinellu rhai o brif bryderon ymchwilwyr a sylwebwyr blaenorol cynhaliwyd adolygiad o ddeunydd darllen a gellir gweld manylion yr adolygiad hwn yn Atodiad 6. Isod ceir crynodeb o'r astudiaethau/cyhoeddiadau yr edrychwyd arnynt a chrynodeb o'r themâu a'r darganfyddiadau mwyaf cyffredin.

Mae llawer o'r ymchwil yn ymwneud â Chymru a Lloegr ar y cyd. Yn gyffredinol, yr un yw'r fframwaith deddfwriaethol yn y ddwy wlad a gellir gweld yr un mathau o broblemau gyda'r system. Mae'n bwysig, er hynny, gydnabod bod y trefniadau ariannu ar gyfer y ddwy wlad yn wahanol, ac yn gyffredinol bu'r ariannu pro rata o DFG ac addasiadau yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr.

| **Enw'r cyhoeddiad/astudiaeth** | **Awdur** | **Blwyddyn** | **Ardal yr astudiaeth** |
|---|---|---|---|
| 1. Adaptations, finding ways to say yes | Heywood | 1994 | Cymru a Lloegr |
| 2. Funding Adaptations, the Need to Co-operate | Heywood and Smart | 1996 | Cymru a Lloegr |
| 3. Disabled Facilities Grants, is the system working? | Age Concern, RADAR | 1999 | Heb ei bennu |
| 4. Changing Rooms, a survey of the adaptations service in six Welsh authorities and the outcomes for service users with physical disabilities | Higham | 1999 | Cymru |
| 5. Money well spent: The effectiveness and value of housing adaptations | Heywood | 2001 | Cymru a Lloegr |
| 6. Older people and Participation within Disabled Facilities Grant Processes, British Journal of Occupational Therapy | Awang | 2002 | Lloegr |
| 7. Housing for Disabled People, Equal Adaptations | Appleton, Wilson | 2003 | Cymru |
| 8. The Impossible Took a Little Longer | McKeever | 2004 | Gogledd Iwerddon |
| 9. Building in Evidence: Reviewing Housing and Occupational Therapy | Awang | 2004 | Y Deyrnas Unedig |
| 10. In Sight of Home, Meeting the Needs of People with Sight Problems | Rees | 2004 | Cymru |

**CASGLIAD – CRYNODEB O'R THEMÂU ALLWEDDOL RHEOLAIDD O YMCHWIL FLAENOROL**

Diben yr adolygiad o ddeunydd darllen yw sicrhau bod darlun clir o broblemau a phryderon â'r system DFG ac Addasiadau yng Nghymru yn cael ei greu o'r ymchwil flaenorol helaeth sydd eisoes wedi'i gwneud yn y maes hwn. Mae hyn yn cydategu'r ymchwil a'r ymgynghori a gynhaliwyd yn uniongyrchol trwy'r adolygiad hwn. Ceir crynodeb o'r prif themâu sy'n digwydd yn rheolaidd:

**Cadarnhaol:**
1. Mae addasiadau yn cyflawni ystod o amcanion polisi allweddol, gan gynnwys gofal cymunedol, hybu cynhwysiant cymdeithasol, hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty, helpu i atal pobl rhag gorfod mynd i mewn i'r ysbyty a lleihau straen ar ofalwyr.
2. Mae addasiadau, ar ôl iddynt gael eu gwneud, yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar ddefnyddwyr ac yn gyffredinol yn gwella ansawdd bywyd yn sylweddol.
3. Mae addasiadau yn ffordd gost-effeithiol o ddefnyddio arian cyhoeddus ac yn rhoi manteision sylweddol i wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.
4. Mae rhai awdurdodau lleol (ond nid y cyfan) yn defnyddio llwybr "mân waith" llai biwrocrataidd fel ffordd gyflym a hyblyg o ddarparu addasiadau cost-isel. Mae mân addasiadau yn cynnig ystod o ganlyniadau cadarnhaol a pharhaol.

**Negyddol:**
1. Oedi hir iawn, gan gynnwys amser aros am asesiad therapi galwedigaethol ac amser i fynd trwy'r broses o wneud cais am DFG
2. Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd annigonol a mynediad dryslyd i wasanaethau
3. Gwaith gosod targedau a rheoli perfformiad gan yr awdurdodau lleol yn wael
4. Mae'r prawf modd ar gyfer DFGs plant anabl yn annheg
5. Gan mwyaf, darpariaeth wael ar gyfer nodi eiddo wedi'u haddasu a chyplysu personau y mae arnynt angen addasiadau, ag eiddo addas pan fyddant ar gael
6. Darlun dryslyd ar draws gwahanol ddeiliadaethau tai, a'r angen am gysondeb o ran sut yr ymdrinnir ag addasiadau mewn gwahanol ddeiliadaethau
7. Gwahaniaethau mewn amserau aros a lefelau gwasanaethau a ddarperir yn dibynnu ar ardal yr awdurdod lleol
8. Arferion anghyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol mewn perthynas â sut y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu cymorth "atodol" o dan ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol, lle nad yw DFG yn diwallu anghenion a nodwyd yn achos unigolion
9. Mae profiad o LSVT yn Lloegr yn dangos bod RSLs newydd a sefydlir adeg trosgwyddo yn gyndyn i gynnal yr un lefel o wariant a ddarperid yn flaneorol gan gyllidebau tai Cyngor, gan roi'r cyllideb DFG o dan bwysau sylweddol
10. Gallai pobl sydd â nam ar eu golwg fod yn cael mynediad yn benodol i wasanaethau yn llai na phobl sydd â mathau eraill o anabledd.

## RHAN A DEDDFWRIAETH

A1.1 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar DFGs ac addasiadau yn gymhleth ac yn amrywiol, fel y'i disgrifir yn Adran 2. Ar y naill llaw mae'n cynnwys yr holl bwerau a darpariaethau angenrheidiol i awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth DFG ac addasiadau effeithiol. Ar y llaw arall, mae'r fframwaith deddfwriaethol mor eang fel na fydd yr awdurdodau lleol yn y pen draw, o bosibl, yn ymgymryd â rhai swyddogaethau oherwydd rhagdybiaeth y caiff hyn ei gyflawni yn rhywle arall. Er enghraifft, mae pob awdurdod yn dibynnu ar y system DFG orfodol er mwyn diwallu anghenion a aseswyd am waith addasu o bwys. Er hynny, lle na ellir cael mynediad i DFG, (oherwydd y prawf modd neu derfyn DFG uchaf), nid yw rhai awdurdodau yn ystyried yn llawn ei cyfrifoldeb ehangach fel awdurdod Lles o dan Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (CSDPA).

A1.2 Ar y cyfan (67%), nid oedd gan yr awdurdodau lleol bolisïau ysgrifenedig penodol mewn perthynas ag ariannu a dyletswyddau o dan CSDPA a'r Ddeddf Plant. Er hynny, cydnabuwyd yn eang fod y ddyletswydd hon yn bodoli lle na ellid darparu DFG. Cydnabu'r mwyafrif o awdurdodau fod angen iddynt drafod y mater hwn yn lleol.

A1.3 Cytunodd yr awdurdodau fod dryswch yn digwydd weithiau am fod cyfrifoldeb dros wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth yn nwylo gwahanol adrannau. Er hynny, temlai pob awdurdod fod y fframwaith deddfwriaethol yn gweithio, ac mai eu strwythurau mewnol a'u trefniadau cydweithio, yn hytrach na'r ddeddfwriaeth, oedd y ffactor allweddol wrth gyflawni gwasanaethau addasiadau o safon dda. Credwyd bod trefniadau cydweithio rhwng Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwella yn gyson oherwydd:

- Cyflwyno awdurdodau unedol ledled Cymru ym 1996
- Argaeledd Canllawiau yng Nghylchlythyrau'r Cynulliad yn ymwneud â darparu DFGs ac addasiadau. Y diweddaraf o'r rhain yw Cylchlythyr 20/02
- Meincnodi a gwaith arferion da ym maes DFG / addasiadau yn cael ei hwyluso gan SYNIAD gyda chyfranogiad yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf, ynghyd â chyhoeddiadau megis yr Arweiniad Pen Bwrdd i Addasiadau a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan ODPM.

A1.4 Dyrennir cyllidebau cyfalaf i'r awdurdodau lleol heb gael ei neilltuo. Mae'r rhaglen DFG felly yn cystadlu â rhaglenni eraill megis trafnidiaeth, hamdden, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Teimlai pob awdurdod lleol yn gryf y dylai'r hawl orfodol i gael DFG o dan ddeddfwriaeth aros yr un fath oherwydd y bu hyn yn ysgogwr cryf a byddai'n dal i fd yn ysgogwr cryf dros gyflwyno'r achos yn lleol am ariannu'r rhaglen DFG yn unol â'r galw.

A1.5 Mae problemau yn bodoli mewn rhai ardaloedd mewn perthynas â cheisiadau DFG lluosog h.y. pobl sy'n symud yn aml sy'n cael grantiau

lluosog dros gyfnod byr, ac weithiau yn elwa ar gynnydd yng ngwerth eiddo lle mae'r eiddo wedi cael ei estyn. Roedd rhywfaint o bryder hefyd nad oedd estyniadau yn arbennig yn cael eu defnyddio yn achlysurol ar gyfer y ceisydd anabl. Er nad oedd hon yn broblem gyffredinol nac eang iawn, roedd yr awdurdodau lleol yn awyddus i gael y disgresiwn i adfachu DFGs lle y gellid dangos bod y system yn cael ei chamddefnyddio neu ei cham-drin.

A1.6 Teimlai grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr a'r defnyddwyr eu hunain fod y system yn ddryslyd iawn. Roedd hyn yn deillio o'r ffaith bod gwahanol gyfrifoldebau dros wahanol rhannau o'r broses mewn gwahanol fannau. Roedd hyn yn dderbyniol os oedd gan yr awdurdodau lleol bwyntiau mynediad glir i'r gwasanaeth a deunydd cyhoeddusrwydd clir a gwybodaeth yn nodi gwahanol gamau'r broses. Yn ymarferol, roedd ansawdd ac argaeledd y wybodaeth yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd ac yn gyffredinol y farn oedd bod cyhoeddusrwydd a gwybodaeth yn wael.

A1.7 Dywedodd rhai awdurdodau lleol, RSLs a grwpiau o ddefnyddwyr mai ffactor o bwys a oedd yn peri oedi mewn perthynas â gwaith mawr oedd yr amser a gymerwyd i gael caniatâd cynllunio, gan yr adrannau perthnasol yn yr awdurdodau lleol. Roedd hon yn broblem gyffredin a nodwyd gan lawer o awdurdodau. Er hynny, nid oedd sicrwydd a oedd diffyg hyblygrwydd mewn deddfwriaeth gynllunio i drefnu trywydd carlam yn achos gwaith addasu ar gyfer pobl anabl, neu a oedd yna hyblygrwydd ond bod swyddogion cynllunio yn lleol yn dewis peidio â'i ddefnyddio.

A1.8 Dywedodd llawer o awdurdodau lleol a grwpiau eiriolaeth cleientiaid mai'r un yw'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â DFG gorfodol (ac o ganlyniad y broses a'r amserlen), ni waeth a oes angen addasiad bach megis lifft risiau neu addasiad mawr lle y mae angen gwaith adeiladu hir a drud e.e estyniadau. Mater yw hwn yr oedd grwpiau o gleientiaid ac awdurdodau lleol yn teimlo y gellid ymdrin ag ef drwy ddiwygio rhannau o'r system DFG orfodol bresennol. Fel y nodwyd gynt, mae gan yr awdurdodau lleol bwerau o dan RRO 2002 i ddarparu cymorth dewisol, ac mae rhai awdurdodau yn defnyddio hwn er mwyn ceisio darparu addasiadau mân gost yn gyflymach. Er hynny, oherwydd natur ddewisol pwerau RRO, a'r anawsterau lleol sydd ynghlwm wrth ariannu gwaith dewisol, byddai'n ddymunol cael ffordd fwy cyson, ledled Cymru, o ariannu addasiadau mân gost y tu allan i'r system DFG.

**DEDDFWRIAETH – CASGLIADAU**

1. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn gweithio lle mae polisïau cydweithio, arferion a threfniadau sefydliadol rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adrannau Tai yn ddigonol.
2. Gydag ychydig o eithriadau yn unig, mae'r awdurdodau lleol yn methu â darparu gwybodaeth ddigonol am y gwasanaethu DFG ac addasiadau sydd ar gael yn eu hardaloedd.
3. Mae natur orfodol DFG o dan ddeddfwriaeth yn darparu canolbwynt clir a blaenoriaeth ar gyfer rhaglenni DFG.
4. Mae ymgymryd â phob math o waith addasu, ni waeth beth fo ei raddfa neu ei gost o fewn yr un broses ddeddfwriaethol orfodol yn wendid. Mae gan yr awdurdodau lleol bwerau dewisol i ddarparu mân addasiadau ond yn ymarferol, mae'r ddarpariaeth honno yn dameidiog ledled Cymru.
5. Ceir darpariaethau i awdurdodau lleol unigol ofyn am ganiatâd gan y Cynulliad i fabwysiadu amodau lleol, a allai gynnwys adfachu DFGs mewn achosion lle'r oedd y system wedi'i chamddefnyddio neu ei cham-drin. Er hynny, nid oes unrhyw ddarpariaeth gyffredinol yn y ddeddfwriaeth am hynny.
6. Mae angen ymchwilio i hyblygrwydd o fewn y system gynllunio i drefnu trywydd carlam ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith addasu i bobl anabl.

**DEDDFWRIAETH - ARGYMHELLION**

1. Dylai'r fframwaith deddfwriaethol presennol aros, ond dylai'r awdurdodau lleol sicrhau bod eu gwasanaethau addasu, a ddarperir o fewn y fframwaith hwn, yn glir, yn dryloyw a bod modd i ddefnyddwyr gael gafael arnynt yn hawdd.
2. Dylai cynhyrchu cyhoeddusrwydd a gwybodaeth glir am wasanaethau DFG ac addasiadau fod yn ofyniad sefydlog craidd ar gyfer ffrawmaith perfformiad y Cynulliad i'r awdurdodau lleol.
3. Dylai llyfryn gwybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gynhyrchu ar gyfer cleientiaid a defnyddwyr gwasanaethau, yn nodi'r mathau o wasanaethau sydd ar gael, rolau a chyfrifoldebau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, a pherfformiad dymunol. Dylai hyn gynnwys rôl y Gwasanaethau Cymdeithasol lle na all pobl gael myneiad i DFG, neu lle nad DFG yw'r ateb llawn. Gellir lledaenu'r rhain mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r awdurdodau lleol, TPAS, Gofal a Thrwsio Cymru a'r rhwydwaith o Asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru.
4. Dylai'r addasiadau sy'n costio llai na £3000 a ddarperir yn y dyfodol fod y tu allan i'r ffrawmaith DFG presennol. Dylai'r ffordd o gyflawni hyn gael ei ystyried yn ofalus. Dylid ymchwilio i'r llwybrau canlynol:
   i) A fyddai modd cyflwyno grant "mân DFG" trwy bwerau'r Cynulliad/is-ddeddfwriaeth
   ii) A oes modd datblygu cynllun o'r fath yng Nghymru, yn gysylltiedig ag amcanion y Cynulliad a Wanless megis hybu byw yn annibynnol ac oedi wrth drosglwyddo gofal
   iii) Lobïo Llywodraeth y DU i ddiwigio deddfwriaeth sylfaenol i alluogi mân addasiadau gorfodol i gael eu darparu mewn ffordd fwy hyblyg

   Dylai'r llwybr a ddewisir sicrhau bod yr hawl orfodol yn cael ei chadw, bod biwrocratiaeth yn cael ei chadw i'r lleiaf, a bod cydweithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a thai mewn perthynas ag asesu angen, cymeradwyo a threfnu gwaith yn cael ei ystwytho yn fwy sylweddol. Ee dim prawf modd, hyblygrwydd i beidio â'i gwneud yn ofynnol darparu asesiad therapi galwedigaethol (OT) mewn achosion unigol (ond yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch manyleb safonol yn achos eitemau a ddarperir yn aml megis cawodydd mynediad lefel neu lifftiau grisiau trywydd syth)
5. Dylid ychwanegu'r hyblygrwydd i adhawlio DFG adeg gwerthu, o fewn terfynau amser, at y ddeddfwriaeth DFG sylfaenol bresennol. Ni ddylai hyn cwmpasu ond gwaith sy'n cynyddu gwerth cyfalaf eiddo a lle mae derbynwyr grant yn symud o fewn amserlen benodol, neu lle ceir tystiolaeth nad yw estyniadau/ystafelloedd ychwanegol yn cael eu defnyddio ar gyfer y person anabl y darparwyd yr ystafell/yr addasiad ar ei gyfer. Mae gan yr awdurdodau eisoes y pŵer i ofyn bod y Cynulliad yn cymeradwyo defnyddio amodau lleol, a allai gynnwys adhawlio adeg gwerthu, a dylid cysylltu â'r awdurdodau lleol i'w hatgoffa am eu gallu i wneud hyn.
6. Ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu trywydd cyflym yn achos gwaith addasu ar gyfer personau anabl at y system Gynllunio

## RHAN B ARIANNU

B1.1 Datgelodd yr holiaduron a anfonwyd at yr awdurdodau lleol ac at RSLs, y wybodaeth ganlynol am lefelau ariannu, ffynonellau a thueddiadau dros y blynyddoedd diweddar:


- Mae gwariant ar DFG wedi cynyddu o £29 miliwn yn 2000/2001 i £34 miliwn yn 2003/2004, sef cynnydd o 17%. Pan fo chwyddiant o 2.5% y flwyddyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth, y cynnydd yw 8%.
- Mae'r gwariant cyffredinol ar addasiadau tai, gan gynnwys DFG, y cyfrif refeniw tai ac arian Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu o £39 miliwn yn 2000/2001 i £51 miliwn yn 2003/2004, sef cynnydd o 31%. Yn net o chwyddiant, mae hwn yn gynnydd o 20%. *(Gweler graff 1 isod)*
- Mae gwariant ar Dai yn gyfrifol am 97% o arian addasiadau, mae gwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am 3% ac Iechyd am 0%
- Mae DFG yn ariannu 68% o wariant tai; mae'r cyfrif refeniw tai yn ariannu 26% o wariant tai ar addasiadau
- Mae 28% o DFGs yn costio llai na £3,000, 58% o DFGs yn costio llai na £5000 *(gweler graff 2 isod)*
- Nid oes gan 67% o Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol bolisïau na gweithdrefnau ar gyfer darparu addasiadau, lle nad oedd modd cael gafael ar DFG neu lle nad DFG oedd yr ateb llawn
- Cyfanswm y galw am arian am denantiaid RSL yw tua £3m y flwyddyn. Ar hyn o bryd, telir hyn trwy arian o tua £1m mewn "Grantiau Addasiadau Ffisegol" (PAG) yn uniongyrchol oddi wrth y Cynulliad i RSLs, a thua £2m y flwyddyn fel DFG i denantiaid RSL oddi wrth yr awdurdodau lleol.

**Tabl 1 Ariannu addasiadau yng Nghymru, 2000 i 2004**

| | DFG | Y cyfrif refeniw Tai | Cymorth Trwsio Cartrefi* | Grant Addasiadau Ffisegol | Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2000/1** | £28,770,328 | £8,571,946 | £846,415 | £0 | £815,337 | £39,030,885 |
| **2001/2** | £27,512,300 | £10,982,580 | £2,063,099 | £271,637 | £1,208,790 | £42,045,321 |
| **2002/3** | £29,892,413 | £12,604,316 | £1,806,192 | £564,430 | £1,411,690 | £46,332,612 |
| **2003/4** | £33,498,000 | £12,832,212 | £2,020,671 | £806,789 | £1,394,200 | £50,616,783 |

*DS o fis Gorffennaf 2002, roedd yr awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno eu cynlluniau grant/cymorth eu hunain o dan ddarpariaeth Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. Yn y golofn hon ceir cymysgedd o wariant gweddilliol Cymorth Trwsio Cartrefi, a gwariant ar grantiau trwsio/addasu bach a gyflwynwyd yn lleol ers Gorffennaf 2002.

***Graff 1 Ariannu addasiadau yng Nghymru - 2000-2004***




B1.2 Mae'r ariannu cyfalaf cyffredinol a ddarperir i'r awdurdodau lleol heb ei neilltuo a mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun am wario ei ddyraniadau cyfalaf. Am fod DFGs yn grantiau gorfodol, ceir tystiolaeth glir bod eu hariannu o ddyraniadau cyfalaf unigol yr awdurdodau lleol yn cael blaenoriaeth weddol uchel. Serch hynny, dywedodd rhai rheolwyr a gyfwelwyd (hy y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau DFG, nad oedd y dyraniadau arian DFG a oedd yn cael eu gwneud yn lleol yn ddigonol i ddiwallu'r angen.

B1.3 Roedd llawer o awdurdodau yn pryderu hefyd na fydd arian yn y dyfodol yn symud gam wrth gam â'r cynnydd a ragwelir yn y galw am DFG (o ganlyniad i boblogaeth lle mae'r boblogaeth sy'n heneiddio ar gynnydd) o gofio blaenoriaethau cystadleuol rhaglenni lleol eraill. Gwelwyd hyn eisoes yn yr awdurdodau hynny a oedd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am DFG yn y blynyddoedd diwethaf, neu a oedd wedi delio ag amserau aros ar gyfer asesiadau therapi galwedigaethol, ond roedd y dagfa wedi'i throsglwyddo i bob bwrpas o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Dai am nad oedd digon o arian DFG ar gael i roi adnoddau i'r niferoedd cynyddol o asesiadau trwy OTS.

B1.4 Roedd datganiad clir hefyd gan yr awdurdodau lleol fod cyllidebau DFG yn cael mesur gweddol uchel o flaenoriaeth o ddyraniadau cyfalaf unigol, ond bod hyn yn ymarferol ar draul cyllidebau adnewyddu tai y sector preifat ar gyfer gweithredu cynlluniau trwsio, adnewyddu a strategol. Yn ymarferol, roedd cyllidebau ar gyfer adnewyddu'r sector preifat wedi gostwng yn lleol, a dywedodd rheolwyr gwasanaeth DFG a gyfwelwyd fod eu gallu i ariannu cynlluniau o dan ddarpariaethau Diwygio Rheoleiddio Tai etc 2002 (yn aml diben y rhain oedd cyflawni addasiadau graddfa fach yn gynt, diogelwch yn y cartref a chynlluniau rhyddhau o'r ysbyty), felly yn cael ei gyfaddawdu.


B1.5 Mae'n dal yn wir mai mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y mae'n dyrannu ei gyllideb gyfalaf gyffredinol yn lleol i ddiwallu blaenoriaethau lleol. Er hynny, mae achos dros gynyddu dyraniadau o arian cyfalaf cyffredinol yn y dyfodol o'r Cynulliad yn unol â chynnydd yn y galw am DFGs. Mecanwaith posibl ar gyfer hyn fyddai trwy adolygu'r fformiwla am ariannu elfen dai y dyraniad cyfalaf cyffredinol, er mwyn iddo adlewyrchu'r darlun o alw cynyddol am DFG.

B1.6 O safbwynt y cleient a grwpiau defnyddwyr cleientiaid, dywedwyd bod arian cyfalaf DFG annigonol yn broblem, a dywedwyd bod diffyg arian weithiau yn rheswm dros oedi. Rhoddwyd ychydig o enghreifftiau o achosion a oedd yn gorfod aros nes bod cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf wedi'i dyrannu cyn cael eu symud ymlaen.

B1.7 Cyflwynwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) yn 2003/4 fel y mecanwaith ariannu oddi wrth y Cynulliad i'r awdurdodau lleol ar gyfer cynnal a chadw, trwsio a gwella stoc tai cyngor. Mae'r canllawiau presennol ar y defnydd o MRA yn eithrio'r awdurdodau lleol rhag ariannu DFGs o MRA ar gyfer eiddo cyngor. Roedd pryder ac ansicrwydd eang ynghylch paham yr oedd hyn yn wir, yn enwedig o gofio'r pwysau eraill ar gyllidebau adnewyddu'r sector preifat a nodir yn B1.3 uchod. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n gorfod cael ei fodloni gan bob awdurdod lleoll am eu tai cyngor erbyn 2012, yn cynnwys sicrhau bod cartrefi, cyn belled â phosibl, yn gweddu i ofynion penodol yr aelwyd. Mae'n glir y byddai hynny yn cynnwys pobl ag anableddau. Mae canllawiau ar WHQS yn nodi y dylai'r cartref ddarparu'r holl gymhorthion ac addasiadau angenrheidiol i ddiwallu anghenion penodol unrhyw aelodau o'r aelwyd, gan gynnwys y rhai ag anableddau. Mae'r rheol bresennol o beidio â chaniatáu i MRA gael ei ddefnyddio am DFG i bob pwrpas yn cyfarwyddo'r awdurdodau i ddefnyddio adnoddau eraill ar gyfer DFGs tenantiaid cyngor, gan gynnwys arian cyfalaf cyffredinol lle mae DFGs ac arian adnewyddu'r sector preifat yn cystadlu am adnoddau â gwasanaethau eraill y cyngor. Hefyd, lle mae'r awdurdodau am strwythuro eu gwasanaethau yn dimau unigol ac ymgymryd ag addasiadau tenantiaid cyngor fel DFGs gyda'r un prosesau a safonau gwasanaeth ar gyfer pob deiliadaeth), ond yn talu eu costau trwy'r cyfrif refeniw tai/MRA, maent i bob pwrpas yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny. Mae'r awdurdodau felly wedi datgan dymuniad i gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio MRA i ariannu DFGs ar gyfer eu tenantiaid eu hunain.

B1.8 O ddadansoddi amrediadau cost DFG dangosir bod cyfradd fawr o DFGs (28%) yn costio llai na £3000 a bod 58% yn costio llai na £5000. Dangosir yr amrediadau cost yng “graff 2” isod. Fel y nodir uchod o dan “Canfyddiadau deddfwriaeth” (A1.8), gellir cwestiynu a oes angen i’r addasiadau cost is hyn (ee liftiau grisiau syth, cawod mynediad lefel) ddilyn yr un llwybr biwrocrataidd o asesiad OT, y broses o wneud cais am grant a phrawf modd fel gwaith mawr, a mwy cymhleth sy’n costio hyd at £30,000 neu a oes llwybr cynt, llai biwrocrataidd ar gyfer y “Mân DFGs” hyn.

***Graff 2 Cost gyfartalog DFG***




**TAW ac addasiadau**

B1.9 Mae Canllawiau Cylchlythyr Adnewyddu Tai y Cynulliad 20/02 yn nodi rhai mathau o waith addasu sydd â chyfradd sero at ddibenion TAW. Yn gryno y rhain yw:

- Esgynfeydd, lledu drysau a chynteddau, a gwaith cysylltiedig, sy’n galluogi’r person anabl i gael mynediad i unrhyw rannau o’u heiddo
- Gosod lifft, a gwaith cysylltiedig, er mwyn caniatáu mynediad rhwng lloriau
- Darparu, ymestyn neu addasu ystafelloedd ymolchi a thoiledau, ac unrhwy weithiau sy’n hanfodol i ddarparu’r cyfleusterau hyn.

B1.10 Ni chododd yr awdurdodau lleol hyn fel problem drwy'r broses ymgynghori. Er hynny, yn adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad, sef **Tai i Bobl Hŷn, 2004**, argymhellwyd bod sylwadau yn cael eu cyflwyno i lywodraeth y DU ar bennu cyfradd TAW pob gwaith i ddiwallu anghenion pobl anabl ar y lefel isaf bosibl. Yng ngoleuni'r rheolau TAW presennol, gellid cyfyngu ar yr argymhelliad hwn i lobïo llywodraeth y DU i ehangu'r eithriadau TAW presennol fel y gellid cynnwys gwaith y gellid dehongli ar hyn o bryd nad yw'n gymwys am gyfradd sero. Er enghraifft, nid yw'r ddarpariaeth trwy estyn neu newidiadau mewnol llety cysgu, byw neu weithio hygyrch a ddarperir ar gyfer person anabl neu newidiadau mewnol i'r llety hwnwedi'i eithrio yn benodol rhag TAW ar hyn o bryd, a dylid ceisio eglurhad bod gwaith o'r fath wedi'i eithrio rhag TAW.

**ARIANNU - CASGLIADAU**

1) Mae cyllidebau DFG yn cael eu dyrannu o ddyraniadau cronfeydd cyffredinol heb eu neilltuo i'r awdurdodau lleol. Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut y maent yn defnyddio'r gyllideb heb ei neilltuo yn unol â blaenoriaethau lleol. Mae ariannu ar gyfer DFGs gorfodol yn flaenoriaeth yn gyffredin ac yn cael arian digonol oddi wrth gronfeydd cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol. Er hynny, yn ymarferol mae hyn yn aml ar draul cyllidebau tai eraill y sector preifat am gynlluniau trwsio, adnewyddu a strategol sydd yn aml yn helpu i drefnu trywydd carlam yn achos gwaith trwsio ac addasu cost isel ac a fyddai fel arall yn helpu gyda phroblem amserau aros ar gyfer DFGs ac addasiadau yng Nghymru.
2) Mae'r arian am DFG ac addasiadau yng Nghymru yn cael ei dalu bron yn llwyr trwy gyllidebau Tai. Cynyddodd yr arian a ddyranwyd gan yr awdurdodau lleol i DFG ac addasiadau 8% dros y 4 blynedd 2001-2004 (ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth). Serch hynny, roedd oedi hir yn parhau, ac yn ôl canfyddiadau'r cleientiaid mae hyn yn digwydd yn aml am fod arian yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol.
3) Mae yna bryder na fydd cyllidebau a ddyrennir gan yr awdurdodau lleol ar gyfer DFG o'u dyraniadau cyffredinol yn diwallu'r galw cynyddol a amcangyfrifir ar gyfer DFG/addasiadau, o ganlyniad i'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. Mae yna achos dros gynyddu'r rhan o'r dyraniad cyfalaf cyffredinol a yrrir gan fformiwla er mwyn adlewyrchu'r cynnydd gwirioneddol yn y galw am DFGs yn y dyfodol.
4) Ariennir addasiadau am denantiaid RSL trwy gymysgedd o PAG o Raglen Grant Tai Cymdeithasol RSL a DFG o arian cyfalaf cyffredinol yr awdurdodau lleol.
5) Ni ellir defnyddio MRA ar hyn o bryd i ariannu DFGs tenantiaid cyngor, er nad yw'r rhesymeg dros hyn yn glir o gofio bod addasiadau addas i denantiaid yn rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r rheol hon yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau cronfeydd cyffredinol DFG.
6) Yr un yw'r llwybr ariannu (a deddfwriaethol) ar gyfer DFGs llai ag ar gyfer DFGs cost uchel, cymhleth. Mae DFGs o lai na £5000 yn gyfrifol am 58% o'r rhaglen DFG. Mae DFGs sy'n costio llai na £3000 yn gyfrifol am 28% o gyfanswm y rhaglen.
7) Mae'r rheolau ar waith addasu sydd wedi'i eithrio rhag TAW ar hyn o bryd yn rhy gul ac yn hepgor rhai mathau allweddol o addasiadau.

**ARIANNU - ARGYMHELLION**

1) Dylai natur orfodol DFG a'r angen i roi adnoddau priodol i'r rhaglen DFG gael ei hatgyfnerthu i bob awdurdod lleol.

2) Dylid adolygu'r cyfrifiad o'r fformiwla Dai ar gyfer dyraniadau cyfalaf cyffredinol heb eu neilltuo er mwyn sirchau ei fod yn adlewyrchu lefelau o anabledd yn lleol a'r galw gwirioneddol am DFGs.

3) Dylai'r dyraniad ariannu o ganlyniad i'r fformiwla dai symud ochr yn ochr â'r cynnydd a ragwelir yn y galw am DFGs yn y blynyddoedd i ddod.

4) I gydategu'r argymhelliad (Yn Rhan A- Deddfwriaeth uchod) i gael llwybr carlam ar wahân ar gyfer addasiadau trywydd cyflym sy'n costio llai na £3000 y tu allan i'r system DFG, dylid ymchwilio i ffynhonnell ariannu hyn. Dylai hyn gynnwys cymwysoldeb a phriodoldeb defnyddio arian sy'n deillio o adroddiad Wanless, o gofio'r cyswllt clir rhwng addasiadau mân gost trywydd cyflym, hybu annibyniaeth a chaniatáu i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

5) Dylai fod modd defnyddio'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer tenantiaid cyngor. Dylai'r awdurdodau gael gwybod am y newid hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2005/6).

6) Bod Llywodraeth y DU yn cael ei lobïo am eithriadau ehangach am gyfradd sero TAW ar gyfer gwaith addasu.

## RHAN C AMSERAU AROS AC OEDI

C1.1 Un o nodau allweddol yr adolygiad oedd ystyried pa mor hir yr oedd yn cymryd i gleient gael DFG, o'r amser yr oedd yn cysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf nes i'r gwaith gael ei gwblhau mewn gwirionedd.

C1.2 Mae'r broses DFG yn gymhleth. Ceir 4 prif gam:

- Amser a gymerir i asesu angen gan yr Awdurdod Lles (yn ymarferol gan Dîm Therapi Galwedigaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol) ("Amser Gwasanaethau Cymdeithasol")
- Yr amser a gymerir ar ôl cael asesiad, i gael ymweliad gan syrfëwr tai a chael gwahoddiad ffurfiol i wneud cais am DFG, ac ar ôl cyflwyno'r cais, yr amser a gymerir i'r grant gael ei gymeradwyo ("Amser Tai")
- Yr amser a gymerir i gyflwyno cais dilys am DFG ("Amser y Cleient")
- Amser y gymerir i gwblhau gwaith adeiladu ar ôl cael cymeradwyaeth ("Amser y Adeiladwr")


C1.3 Er y disgrifir rhan o'r broses fel amser y cleient ac amser yr adeiladwr, mewn gwirionedd gall y math o wasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth y mae'r awdurdod lleol yn trefnu ei fod ar gael effeithio ar y rhain. Er enghraifft:

- helpu cleientiaid i gwblhau'r gwaith papur a ffurflenni cymhleth ar gyfer gwneud cais gan ddefnyddio staff arbenigol sy'n cynnal ymweliadau â chartrefi
- helpu cleientiaid i gyflogi adeiladwr a goruchwylio gwaith trwy wasanaethau Asiantaethau Grant technegol gan staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod
- cyfeirio neu wneud trefniadau i ffurflenni cais gael eu llenwi, ac i waith gael ei drefnu a'i oruchwylio gan yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol
- darparu gwybodaeth am asiantau preifat sy'n gallu helpu i drefnu ceisiadau, adeiladwyr a goruchwylio gwaith
- darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaeth DFG ac addasiadau, y prosesu ac â phwy y dylid cysylltu
- gosod targedau mewnol i sicrhau y byddai cyswllt dilynol â'r ceisydd pe na bai ffurflenni cais yn cyrraedd erbyn amser penodedig

C1.4 Mae gwybodaeth wedi'i darparu gan bob awdurdod lleol ar gamau allweddol yr amser aros am DFG. Dangosir yr amser aros cyfartalog am DFG ledled Cymru yn ystod 2003/4 yn y tabl canlynol. **Mae'n amlwg bod yr amserlenni hyn yn rhy hir.**

| Cam yn y broses | Amser cyfartalog mewn wythnosau |
|---|---|
| Ymholiad cyntaf hyd at asesiad OT/argymhellion OT | 27 |
| Arolwg tai, gwahoddiad i wneud cais a chymeradwyaeth grant ar ôl i'r cais gael ei wneud | 26 |
| Amser a gymerir gan y cleient i gyflwyno cais | 12 |
| Gwaith adeiladu, hyd at ei gwblhau | 20 |
| **CYFANSWM AMSER CYFARTALOG** | **85 Wythnos** |

***Graff 3 Amserau aros ar gyfer DFG 2003/2004***




**Achosion oedi**

**Amserau aros am asesiad (Therapi Galwedigaethol)**

C1.5 Cyfartaleddau yw'r amserau uchod ac maent yn adlewyrchu'r mwyafrif o DFGs a gwblhawyd yn 2003/2004. Cafwyd bod gan bob awdurdod lleol system ar gyfer cynnal ymweliadau ac asesiadau OT cyflymach ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel. Hefyd, mae gan tua hanner yr awdurdodau systemau i alluogi achosion blaenoriaeth uchaf i gael eu cyflymu trwy'r broses gwneud cais am DFG ar ôl i'r asesiad OT gael ei wneud. Er hynny, nid oes ymagwedd unffurf at ddiffinio pa achosion sy'n flaenoriaeth uchel ar gyfer asesiad OT neu geisiadau am grant. Mae'r awdurodau wedi datblygu protocolau a diffiniadau lleol ynghylch hyn. Yr amser targed ar gyfer cyflawni asesiadau blaenoriaeth uchel fel rheol oedd rhwng un diwrnod a 2 wythnos, er mai 3 wythnos oedd targed un awdurdod a 12 wythnos oedd targed awdurdod arall.

C1.6 Er mai 27 wythnos oedd yr amser aros am OT ar gyfartaledd, ac er bod pob awdurdod yn cynnal asesiadau blaenoriaeth uchel yn gyflymach na hyn, roedd amrywiadau eang hefyd o ran yr amser cyfartalog. Roedd yr awdurdodau cyflymaf yn cymryd 5 wythnos yn unig ar gyfartaledd am asesiad OT, tra roedd yr un mwyaf araf yn aros 105 wythnos (2 flynedd). Tanlinellodd yr adolygiad fod rhyw chwarter o'r awdurdodau wedi mynd i'r afael ag amserau aros OT yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf, gyda chynnydd sylweddol yn cael ei wneud. Byddai llwyddiant yn cael ei sicrhau fel rheol trwy gyfuniadau o:

- Cymhellion recriwtio a chadw, yn arbennig ynghylch sicrhau cyflog cyfartal gydag OTs yn cael eu cyflogi gan Ymddiriedolaethau Iechyd yn yr un ardal, a strwythur gyrfa cliriach
- Hyfforddiant mewnol i staff anghymwysedig – o safbwynt eu rhyddhau am y diwrnod am gyrsiau cymwysterau OT a hyfforddi staff heb gymwysterau OT i gynnal asesiadau am addasiadau llai cymhleth
- Defnydd helaethach o staff heb gymwysterau o ran asesu anghenion, ac olrhain cynnydd achosion
- Gwell cydweithio ag OTs Iechyd, a datblygu protocolau glir ar gyfer caniatáu i OTs Iechyd wneud argymhellion am addasiadau
- Defnyddio OTs asiantaethau a phreifat
- Gwell gweithdrefnau gweinyddol i alluogi'r dagfa i gael ei "rheoli fel prosiect"
- Ymagwedd well a mwy thrylwyr at reoli perfformiad
- Defnydd cyfyngedig o hunan-asesu i ganiatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn gyflymach am fân addasiadau cost is
- Canolbwynt ac amserlen glir ar gyfer lleihau amserau aros, yn fwyaf effeithiol lle'r oedd hyn yn cael ei yrru gan uwch reolwyr ac Aelodau
- Sefydlu "mannau pwrpasol", neu dimau unigol yn cynnwys staff Tai a Therapyddion Galwedigaethol neu leoli OT/OTs yn y timau addasu tai, gan arwain at weithredu mwy effeithlon.

**Amserau aros tai**

C1.7 Yr amser a gymerwyd ar gyfer Tai oedd 26 wythnos ar gyfartaledd. Unwaith eto, cafwyd amrywiadau eang yn hyn o beth. Cymerodd yr awdurdod cyflymaf 4 wythnos yn unig ar gyfer y rhannau Tai o'r broses, tra cymerodd yr un mwyaf araf 74 wythnos.

C1.8 O ddadansoddi'r wybodaeth awgrymir mai yn yr awdurdodau hynny a oedd wedi gwneud gostyngiadau sylweddol yn yr amser aros am asesiadau OT yr oedd yr amserau aros hiraf am dai. Mewn geiriau eraill, wrth i'r nifer o ymweliadau OT ac atgyfeiriadau at Dai ar gyfer DFG gynyddu yn yr awdurodau hyn, naill ai nid oedd unrhyw gynnydd yn lefelau staffio syrfëwyr tai i roi adnoddau i hyn neu roedd adnoddau cyfalaf annigonol, neu gyfuniad o'r ddau. Er bod yr awdurdodau yn nodi trefniadau gweithio da rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, mae hyn yn awgrymu nad oedd y cysylltiadau hyn yn gweithio yn dda ar lefel strategol cynllunio gwasanaethau ac adnoddau.

C1.9 Yn yr un modd, yn yr awdurdodau hynny sydd â'r amser OT hiraf y gwelwyd yr amserau aros byrraf am Dai. Yn yr awdurdodau hyn, nid oedd unrhyw bwysau ar ymweliadau syrfëwyr Tai gan fod y nifer o atgyfeiriadau o OTs yn isel.

C1.10 Y rhannau o'r broses y gellir eu priodoli i Dai a'r amser cyfartalog a gymerir ledled Cymru yw:

| Proses | Amser cyfartalog |
|---|---|
| Arolygu'r eiddo | 14 wythnos |
| Paratoi'r Cynllun ac anfon allan gwahoddiad i wneud cais | 3 wythnos |
| Cymeradwyo grant (gan gynnwys prawf modd) | 6 wythnos |

Mae hyn yn dangos mai'r ffactor mwyaf o ran oedi o Dai yw'r amser a gymerir i arolygu'r eiddo. Gellid priodoli hyn i nifer o ffactorau gan gynnwys:

- capasiti a nifer y syrfëwyr a gyflogir am y swyddogaeth hon
- cynhyrchedd a rheoli perfformiad
- a yw timau arolygu yn arbenigo mewn addasiadau neu'n rhan o dîm cyffredinol – mae adrannau arbenigol yn tueddu i fod yn fwy cynhyrchiol oherwydd canolbwynt gwell ar berfformiad ac arbenigedd unigolion

**Amser cleientiaid**

C1.11 Yr amser yr oedd cleientiaid yn ei gymryd ar gyfartaledd i ddychwelyd gwaith papur angenrheidiol i wneud cais dilys oedd 15 wythnos. Yr amser cyflymaf ar gyfartaledd oedd 1 wythnos, a'r amser hiraf ar gyfartaledd oedd 27 wythnos. Mae'r amser hwn yn cynnwys llenwi ffurflenni cais a thystysgrifau perchnogaeth, profi perchnogaeth yr eiddo a chael dyfyniadau gan adeiladwyr, fel rheol o leiaf 2, i fod ynghlwm wrth y cais. Mae'r amrywiad yn yr amser a gymerir gan gleientiaid yn dangos bod cyfle i ddylanwadu ar gyflymder dychwelyd gwaith papur. Gallai hyn fod trwy ddarparu cymorth ymarferol wrth lenwi ffurflenni naill ai yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu drwy'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol, cyflymu prosesau prawf perchnogaeth drwy gysylltiadau TG â'r Gofrestrfa Dir, neu ddarparu gwasanaethau Asiantaethau Grant cynhwysfawr, naill ai trwy'r asiantaeth Gofal a Thrwsio leol yn fewnol gan yr awdurdod lleol neu gan restri cymeradwy o benseiri/asiantwyr.

**Amser adeiladwr**

C1.12 Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i orffen gwaith adeiladu oedd 21 wythnos. Unwaith eto, roedd amrediad eang o amserau cyfartalog. Yn yr awdurdod cyflymaf, yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd ar gyfer y broses adeiladu oedd 6 wythnos, tra yn yr awdurdod mwyaf araf, yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd oedd 42 wythnos.

C1.13 Cododd ychydig o awdurdodau fater ystwythder presennol y diwydiant adeiladu, gan arwain at brinder lleol o gontractwyr. Crybwyllwyd hyn yn arbennig mewn awdurdodau gwledig. Roedd y mathau o ymateb i'r broblem hon, lle'r eid i'r afael â hi o gwbl, yn cynnwys diweddaru rhestri o gyfraddau am waith grant i adlewyrchu prisiau'r farchnad, ac ystyried hyrwyddo gwaith grant gydag adeiladwyr a sefydlu rhestri cymeradwy neu achrededig o adeiladwyr ar gyfer y math hwn o waith.

**Mân DFGs/DFGs cost is**

C1.14 Mae'r amser cyfartalog a gymerir i ddarparu DFGs yn cynnwys addasiadau cost isel, eithaf syml a chyffredin (ee lifftiau grisiau trywydd syth, cawodydd mynediad lefel) yn ogystal ag addasiadau cymhleth sydd â chost uwch megis estyniadau, lifftiau trwy loriau neu addasiadau mewnol mawr sy'n costio hyd at £30,000. Mae'r adolygiad wedi dangos bod rhyw 28% o DFGs yn costio llai na £3000, a bod 58% o DFGs yn costio llai na £5000. Fel y nodwyd yn Adran 4 rhannau A a B (Deddfwriaeth ac Ariannu), mae'n deg holi a oes angen i'r DFGs cost is hyn ddilyn yr un llwybr â DFGs eraill mwy cymhleth, ac a fyddai llwybr llai biwrocrataidd o safbwynt asesiadau OT a'r broses o wneud cais am grant yn fwy dymunol. Mae Rhan H yn darparu rhagor o fanylion am ddarparu gwasanaethau mân addasiadau.

**Proffil gwasanaethau DFG a rheoli perfformiad**

C1.15 Gofynnwyd i'r awdurdodau am broffil a blaenoriaeth gwasanaethau DFG ac addasiadau. Nid oedd gan unrhyw awdurdod ddangosyddion perfformiad lleol ar gyfer mesur yr amser a gymerir i ddarparu DFGs neu addasiadau, y rhoddwyd gwybod amdanynt ar lefel uwch reolwyr neu Aelod. Nid oedd unrhyw ganolbwynt ar y broses gyfan (ee gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai amser y cleient a'r adeiladwr), a hyd yn oed yn yr awdurdodau hynny a oedd wedi dechrau edrych ar faterion megis amser aros OT, ni ddilynwyd hyn trwodd at gamau diweddarach y broses.

C1.16 Un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod cyfweliadau â'r awdurdodau lleol oedd sut y gellid mynd i'r afael â mater y broses gyfan a phroffil DFG ac addasiadau. Cytunodd pob awdurdod lleol y byddai'n ddymunol cael dangosydd perfformiad statudol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ceir rhesymau cryf dros gyflwyno PI cenedlaethol yn y maes hwn:

(a) Mae'r rhaglen eisoes yn gwario symiau uchel o adnoddau cyfalaf (bron £50 miliwn yn flynyddol)
(b) Bydd amcanestyniadau am dwf demograffig mawr yn y nifer o bobl hŷn yn cynyddu'r galw ymhellach ym maint y rhaglen hon yn y blynyddoedd i ddod
(c) DFG yw'r unig grant tai gorfodol sydd ar ôl, ac unig wasanaeth tai y sector preifat lle ceir safon gyson rhwng yr holl awdurdodau lleol o safbwynt rhaglen gyfalaf benodol i'w chyflwyno

(d) Mae rhaglen DFG yn sicrhau canlyniadau o bwys o safbwynt helpu pobl i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, lleihau'r angen am ofal preswyl, lleihau'r nifer o bobl hŷn sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a helpu gyda'r agenda o gyflymu'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty

(e) Defnyddir Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol gan yr awdurdodau lleol fel gwiriadau iechyd yn erbyn amcanion perfformiad allweddol. Bydd cynnwys DFGs ac addasiadau fel Dangosydd Perfformiad (PI) cenedlaethol yn helpu i gynyddu proffil a blaenoriaeth y gwaith hwn ar lefel leol.

**OEDI - CASGLIADAU**

1) Er bod gan lawer o awdurdodau lleol systemau ar gyfer blaenoriaethu achosion am asesiad a chael addasiadau, ac er y trefnir trywydd carlam ar gyfer rhai achosion, mae'r amser aros am DFGs ar gyfartaledd yn annerbyniol o hir.
2) Yr un yw amserau aros ar gyfartaledd ni waeth beth yw graddfa neu gymhlethdod y DFG.
3) Ceir amrywidau eang yn yr arferion a'r systemau a ddefnyddir ledled Cymru. Ar gyfer pob rhan o'r broses, mae'r wybodaeth a gesglir yn ystod yr adolygiad hwn yn awgrymu:

   - bod y gallu i ddelio â materion amserau aros o fewn pwerau'r awdurdodau lleol, a
   - bod yr awdurdodau lleol gorau wedi datrys llawer o'r materion unigol sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaeth cyffredinol da, e.e. man pwrpasol neu dimau addasiadau unigol, mynd i'r afael â thagfeydd OT, cyflymu gwaith llai, trefnu trywydd carlam yn achos gwahanol rannau o'r broses o wneud cais am grant, helpu cleientiaid i ddychwelyd ffurflenni.

   Er hynny nid oes yr un o'r rhain wedi datrys pob mater. Byddai rhannu arferion da ar draws pob awdurdod yn arwain at welliannau i brosesau drwyddi draw.

4) Er bod DFGs yn orfodol ac er bod DFGs ac addasiadau yn cyfrannu yn sylweddol at amcanion polisi cenedlaethol a lleol, nid yw proffil y gwasanaeth yn uchel o ran dangosyddion perfformiad corfforaethol awdurdodau lleol.
5) Nid oes gan y Cynulliad unrhyw ddangosyddion perfformiad ar hyn o bryd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau DFG ac addasiadau.

**OEDI - ARGYMHELLION**

1. Dylai'r gwaith cymharol a meincnodi manwl a wnaed o dan yr adolygiad hwn gael ei baratoi fel adroddiad ar wahân a'i roi i'r awdurdodau lleol ac RSLs er mwyn hybu rhannu gwybodaeth berfformiad ac arferion gorau mewn gwasanaethau DFGs ac addasiadau (e.e. mae C1.6 uchod yn nodi arferion da mewn perthynas â lleihau amserau aros OT, a bydd rhoi manylion hyn i bob awdurdod lleol yn helpu i rannu hyn ledled Cymru)

2. Dylid trefnu cyfres o seminarau yn cyflwyno canlyniadau:
   - adolygiad DFG Cymru
   - adroddiad meincnodi ac arferion da CLILC Cam 2 WLGA (pan fydd wedi'i gwblhau)
   - "Delivering Adaptations, a Good Practice Guide" Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog;

   mewn partneriaeth â chyrff megis CIH Cymru, WFHA a Gofal a Thrwsio Cymru.

3. Fel yr argymhellir hefyd yn Adran 4 Rhannau A a B, dylid ymchwilio i ffordd fwy ystwyth o ddarparu DFGs cost is (y rhai sy'n costio llai na £3000, sy'n gyfrifol am 28% o'r holl DFGs). Dylai hyn anelu at fod yn llai biwrocrataidd o safbwynt prosesau ar gyfer asesu, cymhwyso a threfnu gwaith.

4. Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y maes cynyddol hwn o waith yn briodol, dylid cyflwyno dangosydd perfformiad (PI) statudol sy'n pennu targed ac yn mesur y broses o DFG ac addasiadau sydd wedi'u gwneud ym mhob deiliadaeth, o'r tro cyntaf y cysylltir â'r awdurdod lleol hyd at gwblhau'r gwaith.

**RHAN D Y PRAWF MODDION AM BLANT ANABL**

D1.1 Aeth yr adolygiad ati i archwilio'r prawf adnoddau (prawf modd) yn enwedig fel y mae'n ymwneud â phlant anabl. Ym mhob sefyllfa, heblaw ar gyfer plant dibynnol (fel rheol pob un o dan 18 oed) cynhelir y prawf moddion ar y person anabl sy'n gwneud cais am grant. Yn achos plant anabl, ar rieni'r plant y cynhelir y prawf modd.

D1.2 Ym mhob cyfweliad a phob holiadur a ddychwelwyd, boed oddi wrth swyddogion yr awdurdodau lleol, swyddogion RSL, cleientiaid neu grwpiau eiriolaeth, cytunwyd yn eang nad oedd y prawf moddion i blant yn gweithio yn dda.

D1.3 Mae'r Adolygiad o Ddeunydd Darllen yn Adran 3 yn amlinellu gwaith ac ymchwil amrywiol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwaith hwn yn casglu bod y prawf modd ar gyfer achosion plant yn peri problemau, ac yn nodi'r rhesymau paham.

D1.4 Cyflwynwyd papur gan glymblaid o elusennau i grŵp adolygu DFG i Swyddfa'r Dirprwy Prif Weinidog yn Lloegr (y mae'r Cynulliad yn arsylwi arno yn swyddogol). Mae cynnwys y papur yn gymwys i Gymru hefyd. Roedd y glymblaid yn cynnwys ASBAH, Barnados, Ymddiriedolaeth Anafiadau i'r Ymennydd Ymhlith Plant, Cymdeithas y Plant, y Cyngor Plant Anabl, Contact a Family, Cymdeithas Down's Syndrome, Mencap, Ymgyrch Nychdod Cyhyrol, NCH a Scope. Ceir rhai darnau o'r papur, yn mynegi barn y glymblaid, isod:

"The Disabled Facilities Grant (DFG) is currently failing many families with disabled children. Too many families are being put in impossible financial positions when trying to make vital adaptations to their homes, and their children are suffering as a result. We welcome the Government's review of the DFG process, and urge the review group to listen to the many parents with disabled children who have come to us with their experiences"

*"…. problems with the current DFG process:*

1. The DFG is not accurately assessing even the poorest family's ability to contribute towards expensive housing adaptations. The current process has left a family with an annual income of just £14,000 being told that they need to contribute £10,000 to pay for an adaptation.

2. The process is too drawn out and prone to delay, and families can be left waiting for years for vital work to be done. A growing child becomes harder and harder to carry and parents are at risk from injury to themselves or the child.

"For a disabled child, an accessible home can have many direct benefits which will also have direct savings for the state:

- an improved sense of self-confidence and independence;
- reduction of possible safety risks and avoidable expensive health complications;
- known associated benefits of good housing eg better educational achievement;
- being able to stay in the family home and not having to be placed in a residential home"

"For parents and siblings, a home that is accessible for the whole family:

- alleviates the need for continued lifting, and reduces possible long-term medical problems;
- may improve employment options due to the reduced need for full time care or by improving prospects of obtaining childcare;
- can relieve some of the stresses of constant supervision;
- relieves the prospect of being forced to consider putting their child into residential care.

By allowing people to live in good quality and suitable homes, the Government will make long term savings in health, care services, and other forms of state intervention, as well as improving the life chances of disabled children and their families."

"All families bringing up a disabled child face much tighter financial constraints than those caring for a non-disabled child:

- Bringing up a disabled child costs three times as much on average as a non-disabled child.
- Families face reductions in employment status, level of earnings, savings, and pensions.
- There is the additional cost of equipment, transport requirements, and medical support that will put extra financial pressures on the family, often without any assistance."

"Research has shown that among the families who had been assessed as needing to make a contribution to the costs of an adaptation, at least one third had been unable to meet these costs and the adaptation had not been carried out. Many of the other families take out substantial loans, undertake personal fundraising, or make compromises on the level or quality of work that they opt for. This is in addition to the many families who are put off from applying for a DFG altogether"

D1.5 Nododd dau adroddiad diweddar gan yr elusennau Contact a Family a Family Fund y beichiau ariannol ychwanegol a'r lefelau o ddyled a wynebir gan deuluoedd plant anabl. Mae'r adroddiad cyntaf ***"How Do They Manage?"*** yn amlinellu patrymau o incwm a gwariant ymhlith teuluoedd sydd â phlant ag anableddau difrifol neu blant sy'n ddifrifol sâl. Cynhaliwyd yr ymchwil hon rhwng Tachwedd 2003 a Chwefror 2004. Seilir y canfyddiadau ar ddadansoddiad o holiaduron a lenwyd gan 98 o deuluoedd o gronfa ddata Family Fund. Seilir yr ail adroddiad, ***"Debt and Disability"*** ar arolwg holiadur o 1007 o deuluoedd o gronfa ddata Family Fund a 836 o deuluoedd yn ymweld â gwefan Contact a Family ac yn llenwi'r arolwg ar-lein. Cynhaliwyd yr ymchwil hon rhwng Mai a Mehefin 2004.

Prif ddarganfyddiadau'r adroddiadau mewn perthynas â theuluoedd â phlant anabl yw:

- Mae incwm teulu yn £15,270 y flwyddyn ar gyfartaledd, 23.5% yn llai na chyfartaledd y DU sef £19,968 y flwyddyn
- Gwariant uwch na'r cyfartaledd o £21,980 y flwyddyn o'i gymharu â chyfartaledd y DU sef £19,970 y flwyddyn
- Mae'r bwlch rhwng incwm a gwariant felly yn £6,710 y flwyddyn. Dywedir bod hyn i'w briodoli i gostau ychwanegol i blant ag anableddau – bwyd, dillad, trafnidiaeth, cost tai, etc.
- Dywedodd 14% o deuluoedd fod ganddynt ôl-ddyledion morgais neu rent
- Defnyddir credyd i lenwi'r bwlch. Hwn oedd y maes lle cafwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng y teuluoedd a oedd yn destun ymchwil a theuluoedd y DU yn gyffredinol. Y gwariant gan deuluoedd y DU ar ad-daliadau benthyciadau yw £3.10 yr wythnos gyfartaledd o'i gymharu â £27.61 yr wythnos gan deuluoedd sy'n rhan o'r ymchwil hon.

Mae'r adroddiad yn argymell llawer o fesurau i helpu i fynd i'r afael â'r lefelau tlodi cymharol uwch a ddaw i ran teuluoedd sydd â phlant anabl. Ymhlith y rhain y mae'r argymhelliad i ddiddymu'r prawf modd i blant anabl:

> "The means test for DFG is assessed on the parents ability to borrow money. Many parents of disabled children cannot afford to borrow money. If they are employed, they may feel concerned that they will have to reduce their hours at any moment, or give up work, if their child becomes seriously ill. Some refuse a grant because they cannot afford to raise their contribution. Children's needs therefore go unmet"

D1.6 Mewn perthynas â'r ymchwil uniongyrchol a wnaed trwy'r adolygiad hwn, y problemau arbennig gyda'r prawf modd fel y'i nodwyd gan ddefnyddwyr, grwpiau eiriolwyr, awdurdodau lleol ac RSLs, trwy'r broses ymgynghori yw:

- Nid yw'n cymryd i ystyriaeth yn ddigonol cost wirioneddol talu morgeisi a rhenti. Mewn achosion lle y cynhelir y prawf modd ar deuluoedd iau sydd â phlant, sydd yn aml ar waelod yr ysgol eiddo ac sydd â chostau morgais sylweddol, gwelir bod hyn yn achosi problem arbennig
- Nid yw'n cynnig cymhelliant i rieni weithio
- Nid yw'n cymryd i ystyriaeth costau ychwanegol gofalu am blentyn anabl. Er enghraifft, roedd costau teithio a gysylltir ag ymweliadau aml â'r ysbyty, costau gosod carpedi newydd lle mae'r hen rai wedi treulio (oherwydd ymweliadau gan weithwyr iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol), a phrynu eitemau arbenigol yn gostau penodol a amlinellwyd gan riant plentyn anabl yn ystod ymweliad a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn
- Gallai'r prawf modd gael ei gynnal ar rieni'r plentyn un wythnos, a gallai fod cyfraniad sylweddol i'w dalu, tra yr wythnos ganlynol mae'r plentyn yn cyrraedd 18 oed ac mae'r plentyn wedyn yn cael prawf modd, ac ni fydd unrhyw gyfraniad i'w dalu
- Lle y mae angen cyfraniad, ceir tystiolaeth naill ai fod teuluoedd yn codi benthyciadau sydd â chyfradd llog uchel ac nad ydynt yn fforddiadwy yn y pen draw ac sy'n arwain at ddyled hirdymor, neu lle y mae cost addasu'r cartref ar gyfer y plentyn anabl yn arwain at aberth o ran yr hyn sydd ar gael i'w wario ar frodyr a chwiorydd nad ydynt yn anabl, ar wyliau i'r teulu neu hanfodion nad ydynt yn eitemau moethus megis gwaith trwsio a chynnal-a-chadw'r tŷ
- Ar y llaw arall weithiau nid yw'r addasiadau yn cael eu cyflawni, ac yn yr achos hwnnw mae'r rhieni yn gorfod cario'r plentyn o amgylch y cartref gan gynnwys i ystafell wely lan llofft a chyfleusterau ystafell ymolchi
- Dyfynnwyd rhai achosion lle nad yw'r addasiadau yn mynd yn eu blaenau oherwydd y prawf modd, sy'n golygu bod angen i'r plentyn cael gofal mewn cartref preswyl, sy'n costio rhwng £50,000 a £100,000 y flwyddyn. Mewn achosion o'r fath, ar seiliau economaidd yn unig ar gyfer cyllideb awdurdod lleol yn ei grynswth, byddai wedi bod yn fwy cost-effeithiol darparu cost lawn yr addasiadau
- Lle bo'r awdurdodau lleol yn ariannu addasiadau mawr i denantiaid cyngor o'u cyfrifon refeniw tai, nid oes prawf modd ar gyfer achosion plant. Mewn awdurdodau sy'n defnyddio DFG am addasiadau mawr i denantiaid, defnyddir y prawf modd. Mae ariannu addasiadau mewn tai Cyngor yn amrywio yn helaeth ledled Cymru, gan arwain at annhegwch o ardal i ardal mewn perthynas ag a ofynnir i deuluoedd gyfrannu at gostau neu beidio

- Mae'r ffordd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol mewn gwahanol awdurdodau lleol yn ymdrin â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Plant a'r Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl yn amrywio ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, gallai'r y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal prawf modd eilaidd, neu ddarparu benthyciadau, tra mewn eraill nid yw hyn yn wir. Yn yr un modd, mae gwahanol awdurdodau wedi cyflwyno gwahanol systemau ar gyfer delio â phrawf modd addasiadau plant o dan eu pwerau RRO. Er enghraifft, nid yw un awdurdod yn cynnal prawf modd, mae un yn darparu benthygiadau heb log, ac mae un wedi diwygio'r prawf modd yn lleol ac effaith hyn yw haneru'r cyfraniad. Felly mae darlun o anghysondeb ledled Cymru mewn perthynas â rhoi prawf modd i addasiadau plant yn dod i'r amlwg

D1.7 Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol a oeddent yn meddwl bod y prawf modd yn annheg ac atebodd 100% eu bod yn meddwl ei fod yn annheg. Roedd 7 o'r 22 yn credu y dylai'r prawf modd gael ei ddiddymu, roedd 10 o'r 22 yn credu y dylai cael ei ddiwygio ac roedd 5 o'r 22 yn gymysg eu barn. Roedd yr awdurdodau hynny y byddai'n well ganddynt weld y prawf modd yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu gwariant yn well yn pryderu y byddai teuluoedd cyfoethog sydd â phlant anabl yn dod i mewn i'r system. Nid oedd y rhai y byddai orau ganddynt weld y prawf yn cael ei ddiddymu yn teimlo y byddai pobl gyfoethog yn elwa, gan honni y byddai'r amser aros am yr asesiad OT a gweddill y broses yn rhwystr i hyn. Barn a glywid yn aml hefyd, yn enwedig gan grwpiau gwirfoddol a grwpiau eiriolaeth oedd bod perygl ynghlwm wrth ddiwygio'r prawf, sy'n brawf cymhleth iawn i'w weithredu. Y perygl oedd y byddai'r prawf yn cael effaith andwyol ar rai achosion unigol – gall y ffordd y mae'r prawf yn gweithredu amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

D1.8 Yn 2004, paratôdd y Cynulliad Cenedlaethol ei ***"Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y Cynulliad ar gyfer Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Mamolaeth yng Nghymru"*** a'i gyhoeddi at dibenion ymgynghori. Roedd yr NSF yn cynnwys saith nod craidd. Ymhlith y rhain mae sirchau bod gan blant *" gartref a chymuned diogel sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol*" ac nad yw plant *"o dan anfantais oherwydd tlodi*". Yn fwy penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc anabl, mae Pennod 5 o'r NSF Plant yn nodi *"mae.. plant anabl a'u teuluoedd yn wynebu llawer o rwystrau cymdeithasol a chorfforol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas. Nid nam corfforol plant anabl yn unig sy'n pennu eu hansawdd bywyd, ond hefyd agweddau negyddol ac amgylcheddau cyfyngedig, er enghraifft…tai…".* Mae hefyd yn nodi bod *"Rhieni plant anabl …..nid yn unig yn dioddef beichiau ariannol ychwanegol ond hefyd gost emosiynol."*

D1.9 Er mwyn sirchau bod gwasanaethau i blant anabl yn cael eu cyflwyno yn y ffyrdd a nodir yn y ddogfen NFS Plant – yn deg, heb unrhyw allgáu cymdeithasol a dim cyfle annheg, gan roi sylw i'r dystiolaeth yn y bennod hon, mae'n glir bod angen disodli'r system bresennol o brofion modd.

D1.10 O ran y cwestiwn a ddylid diddymu neu ddiwygio'r prawf modd, tueddai safbwyntiau grwpiau gwirfoddol ac eiriolaeth fod o blaid ei ddiddymu – am y rhesymau a roddir yn y paragraffau uchod, ond hefyd ar y sail mai mater o hawliau anabledd a hawliau plant oedd hwn, ac y dylai amgylchedd mewn cartref wedi'i addasu yn briodol fod yn fater o hawl.

**Cost DFGs plant**

D1.11 Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am y nifer o achosion DFG plant yn 2003/2004. Gofynnwyd iddynt ddarparu manylion am :

- Nifer o DFGs a gymeradwywyd
- Cost gyfartalog y DFGs a gymeradwywyd
- Cyfraniad prawf modd cyfartalog DFGs a gymeradwywyd
- Y nifer o DFGs na chymeradwywyd mohonynt oherwydd bod pobl yn ymeithio rhag y system o ganlyniad i gyfraniad anfforddiadwy
- Cyfraniad prawf modd cyfartalog am achosion na chymeradwywyd mohonynt

D1.12 Darparodd 21 awdurdod o 22 wybodaeth, er nad oedd pob un o'r rhain yn gallu darparu'r ystod lawn o wybodaeth y gofynnwyd amdani. Dengys y tabl canlynol ganlyniadau'r cwestiynau uchod. Lle nad yw'r awdurdodau wedi darparu gwybodaeth, mae'r canlyniadau wedi'u hallosod ar sail cyfartaleddau fel y gellir cael amcangyfrif ar draws 22 o awdurdodau. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn. Mae'r ffigurau yn amcangyfrif cytbwys o'r galw blynyddol am DFGs plant dibynnol a chostau hynny:

| | |
|---|---|
| Nifer y DFGs a gymeradwywyd | 162 |
| Gwerth cyfartalog y DFGs a gymeradwywyd | £17,872 |
| Cyfraniad prawf modd cyfartalog DFGs a gymeradwywyd | £1,319 |
| Nifer y DFGs na chymeradwywyd mohonynt oherwydd cyfraniad rhy uchel | 37 |
| Cyfraniad prawf modd cyfartalog achosion na chymeradwywyd mohonynt | £15,656 |

Gan ddefnyddio'r data hwn mae modd amcangyfrif cost flynyddol ddiddymu'r prawf modd ledled Cymru. Byddai hyn fel a ganlyn:

a) *Y nifer o achosion a gymeradwywyd wedi'u lluosi â'r cyfraniad cyfartalog*
   *162 x £1319 = £221,023*
b) *Y nifer o achosion na chymeradwywyd mohonynt wedi'u lluosi â chyfanswm cost gyfartalog y gwaith*
   *37x £19191= £ 710,067*

   ***Cyfanswm = £931,090***

D1.13 Ond yn ogystal â hynny, bydd galw cynyddol anhysbys yn deillio o ddiddymu'r prawf modd. Byddai hwn yn cynnwys y bobl sy'n ymuno â'r system, sydd wedi gostwng gynt o ganlyniad i gyfraniadau nad oeddent yn gallu eu fforddio yn eu tyb hwy, a phobl a oedd heb feddwl o bosibl am ymuno â'r system oherwydd y prawf modd. Bydd rhywfaint o hyn yn swm blynyddol cylchol, a bydd rhywfaint yn gynnydd tymor-byr a fyddai'n cyfartalu ar ôl y 2-3 blynedd cychwynnol. Y gost ychwanegol a amcangyfrifir, a fyddai i bob pwrpas yn cael ei ledaenu dros 2-3 blynedd yw tua £2 miliwn

D1.14 Mae dadansoddiad ystadgeol ehangach hefyd wedi'i gynnal ar sail y nifer o blant anabl yng Nghymru, cyfraddau tebygol gwneud cais am DFG ar sail data blaenorol, a mathau o addasiadau a chost addasiadau y mae'n debygol y bydd eu hangen. Amcangyfrifwyd o hyn

- bod cyfraniadau sy'n destun prawf modd o tua £150,000 y flwyddyn yn cael eu casglu o rieni plant anabl, lle mae'r grant yn mynd yn ei flaen. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o'r ymarfer uchod (D1.10- £221,000 y flwyddyn) ond mae serch hynny yn ffigur cymaradwy
- cynnydd yn y galw blynyddol o hyd at 200 o achosion y flwyddyn, yn ôl cost ychwanegol o £2 filiwn y flwyddyn. Mae hyn yn sylweddol fwy na'r amcangyfrif o'r ymarfer uchod (£710,000 y flwyddyn)

D1.15 Gwnaeth Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon benderfyniad i ddiddymu'r prawf modd i DGFs plant yn Rhagfyr 2003. Gweithredwyd hyn yn Chwefror 2004. Ymgynghorwyd â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn Nhachwedd 2004 ynghylch effeithiau diddymu'r prawf modd i blant ar y galw. Ar y pryd, eu profiad oedd:

- bod y nifer o gymeradwyaethau rhwng Ebrill a Hydref 2004, yr un peth â'r cyfnod cyfatebol Ebrill-Hydref 2003
- roedd rhwyfaint o dystiolaeth hanesyddol bod therapyddion galwedigaethol yn cyfeirio teuluoedd, a oedd gynt wedi cael prawf modd ac a oedd heb gael grant, yn ôl i'r system

Rhaid rhoi rhybudd yma er hynny fod addasiadau plant yn tueddu i fod yn waith mwy o faint a drutach, a gallai hyn gymryd hyd at 18 mis ar ôl y dyddiad diddymu i ddangos fel cymeradwyaethau neu wariant yn y system.

D1.16 Gan ddefnyddio cyfuniad o ddata penodol 2003/4 a gasglwyd gan yr awdurdodau a’r dadansoddiad ystadegol cyffredinol, cost flynyddol gylchol ychwanegol diddymu’r prawf modd yng Nghymru, yn ôl yr amgangyfrif, fyddai tua £1.5 miliwn y flwyddyn. Byddai’r cynnydd tymor-byr yn y galw yn arwain at wariant ychwanegol ‘unwaith yn unig’ o tua £2-3 miliwn tros 2-3 blynedd.

D1.17 Yn ogystal â mater penodol y prawf modd i blant anabl, mae darpariaethau profion modd DFG yn gyffredinol yn cael eu hadolygu gan grŵp llywio adolygu DFG ODPM yn Lloegr. Mae adolygwr DFG Cymru, a swyddogion y Cynulliad yn mynychu’r cyfarfod hwn, ac yn cysylltu â’r tîm ymchwil sy’n cynnal yr adolygiad yn Lloegr. Pan fydd yr adolygiad ehangach o brofion modd DFG yn golygu bod y profion wedi dod i ben, fe’i hystyrir mewn perthynas â Chymru a pharatoir adroddiad pellach.

**CASGLIADAU**

1. Nid yw’r prawf modd presennol yn gweithio ar gyfer achosion DFG i blant, am nifer o resymau, fel y’u tanlinellwyd gan ymchwilwyr, grwpiau elusennau ac eiriolwyr a chydnabyddir hyn gan ddarparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd.
2. Amcangyfrifir mai cost diddymu’r prawf modd yw £1-1.5m y flwyddyn (cost gylchol flynyddol) ynghyd â chost ychwanegol unwaith yn unig a amcangyfrifir yn £2-3m dros 2-3 blynedd cyntaf diddymu’r prawf modd.
3. Mae’r prawf modd yn gyffredinol, ac yn enwedig i bobl anabl iau, yn cael ei adolygu fel rhan o’r adolygiad o DFG gan ODPM yn Lloegr. Caiff canlyniad hyn ei ystyried gan yr adolygiad yng Nghymru yn ddiweddarach.

**ARGYMHELLION**

1. Dylid diddymu’r prawf modd ar gyfer DFG plant dibynnol
2. Dylai cyllid i fodloni’r gost ychwanegol gan ei dalu gan y Cynulliad trwy gynyddu dyraniadau cronfeydd cyfalaf cyffredinol heb eu neilltuo yr awdurdodau lleol i adlewyrchu cost wirioneddol diddymu’r prawf modd am achosion plant anabl
3. Dylai casgliadau’r adolygiad ehangach o brofion modd DFG sy’n cael ei wneud gan ODPM yn Lloegr gael eu hystyried yng Nghymru pan fydd yr adolygiad ar ben.

## RHAN E ADDASIADAU TENANTIAID CYNGOR

E1.1 Mae tenantiaid cyngor yn gymwys i gael DFG gorfodol ar yr un telerau â pherchen-feddianwyr, tenantiaid RSL a thenantiaid preifat. Yn ymarferol, ariennir addasiadau tenantiaid cyngor mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn perthynas â thenantiaid Cyngor ceisiodd yr adolygiad nodi:

- Sut yr oedd addasiadau yn cael eu hariannu
- Safonau gwasanaeth o'u cymharu â deiliadaethau eraill
- Pa mor effeithiol oedd yr awdurdodau lleol wrth ddyrannu eiddo a oedd eisoes wedi'i addasu, i denantiaid (neu berchnogion) y mae arnynt angen eiddo a addaswyd, pan fyddai eiddo a addaswyd yn briodol ar gael

E1.2 Ymchwiliwyd i gwestiynau llwybrau ariannu, prosesau ar gyfer tenantiaid ac arferion dyrannu eiddo a addaswyd trwy'r holiaduron, ymweliadau a chyfweliadau â phob un o'r 22 awdurdod. Gofynnwyd y cwestiwn ynghylch 'ailgylchu' eiddo a addaswyd i'r rhai sydd mewn angen yn ehangach i asiantaethau gwirfoddol ac eiriolaeth ac RSLs, yn ogystal ag i'r awdurdodau lleol.

**Llwybrau ariannu a phrosesau i denantiaid Cyngor**

E1.3 Cafwyd bod amrywiaeth eang o arferion a llwybrau ariannu yn bodoli ar gyfer tenantiaid Cyngor. Ar gyfer addasiadau "mawr" (sy'n costio £5,000 neu ragor), roedd 6 awdurdod yn cyfeirio eu tenantiaid trwy'r system DFG, roedd 7 awdurdod yn defnyddio'r cyfrif refeniw yn unig (HRA), ac roedd 9 awdurdod yn defnyddio'r ddwy ffynhonnell o arian.

E1.4 Yn achos yr awdurdodau hynny a oedd yn defnyddio DFG fel y llwybr ar gyfer addasiadau mawr, roedd gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd y rhain yn cael eu hariannu. O'r 15 awdurdod a oedd yn defnyddio DFG, defnyddiai 9 Arian Cyfalaf Cyffredinol, tra defnyddiai 6 eu cyfrifon refeniw tai i ariannu DFGs. Dywedodd rhai awdurdodau lleol y gallai'r dull o ariannu addasiadau tenantiaid newid o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar argaeledd cymharol adnoddau yn y gronfa gyffredinol a'r cyfrif refeniw tai. Roedd hyn yn ychwanegu at y dryswch o ran sut yr oedd gwasanaethau yn cael eu cyflawni i denantiaid.

E1.5 Yn ogystal, roedd gwahaniaethau o ran sut yr oedd yr awdurdodau lleol yn mynd ati i dalu cyfraniadau sy'n destun prawf modd lle'r oeddent yn prosesu DFGs tenantiaid cyngor. O'r 14 awdurdod a oedd yn prosesu DFGs tenantiaid, defnyddiai 2 y cyfrif refeniw tai i dalu'r cyfraniad, tra roedd 12 yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaid dalu cyfraniadau eu hunain.

E1.6 Roedd gwahaniaethau gweithredol o ran sut y gweinyddir addasiadau ar gyfer tenantiaid cyngor. Roedd gan rai awdurdodau dimau tai unigol a oedd yn ymdrin ag addasiadau ym mhob deiliadaeth wahanol. Yn yr ardaloedd hyn, roedd yn debygol y byddai cysondeb o ran

cyhoeddusrwydd a gwybodaeth, a lefel y gwasanaeth a gafwyd ac amserau aros. Lle'r oedd gan yr awdurdodau dimau tai ar wahân ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau gwahanol, roedd yn fwy tebygol y byddai lefelau gwahanol o wasanaeth ac amserau aros rhwng y gwahanol ddeiliadaethau tai.

E1.7 Disgrifir ariannu DFGs ac addasiadau tenantiaid Cyngor yn Adran 4 Rhan B uchod, gan gynnwys y lefel o adnoddau o wahanol ffynonellau ariannu, a'r rheolau ar ddefnyddio'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr ar gyfer DFG i denantiaid cyngor.

**Cofrestru Tai a Addaswyd a chyplysu cleientiaid sydd mewn angen ag eiddo sydd a addaswyd yn briodol**

F1.8 Disgrifir darparu cofrestri eiddo a addaswyd yn Rhan G isod.

**Mân addasiadau**

F1.9 Disgrifir darparu mân addasiadau ym mhob deiliadaeth yn Rhan H isod.

**Trosglwyddo stoc tai cyngor**

F1.10 Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae pob awdurdod lleol yn datblygu cynllun busnes yn nodi'r costau ar gyfer cyrraedd y safon hon, a sut y bodlonir y safon honno. Un o'r dewisiadau sydd ar gael yw datblygu cyrff hyd braich i drosglwyddo'r stoc dai iddynt. Byddai'r penderfyniad ar hyn yn cael ei wneud trwy gynnal pleidlais ymhlith tenantiaid. Os bydd trosglwyddo i gorff hyd braich yn digwydd, mae'n rhyddhau gallu'r corff hwnnw i fenthyca yn breifat i helpu i dalu am waith angenrheidiol.

F1.11 Mae gan y mater hwn effaith sylweddol bosibl ar gyllidebau DFG yn y dyfodol, os rhagdybir y bydd cyllidebau DFG yr awdurdodau lleol yn talu am DFGs ac addasiadau tenantiaid pan fydd y stoc wedi'i throsglwyddo.

F1.12 Felly, yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, gofynnwyd i'r awdurdodau lleol a oeddent wedi ystyried mater ariannu addasiadau yn eu cynlluniau busnes, neu gynnwys cymalau ar addasiadau yn eu cytundebau trosglwyddo. Cafwyd yr adborth canlynol:

- roedd 3 awdurdod yn tybio y byddai DFG a ariennir yn gyffredinol yn parhau i dalu am addasiadau cost fawr i denantiaid, gyda'r awdurdod trosglwyddo yn ariannu addasiadau mân gost, yn unol â'r symiau hanesyddol sy'n cael eu gwario o'r cyfrif refeniw tai ar fân addasiadau.
- dywedodd 1 awdurdod na fyddai unrhyw costau o gwbl yn cael eu ffactoreiddio i mewn, gan wneud y rhagdybiaeth y byddai cyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol a DFG yr awdurdodau lleol yn cwmpasu cost gyfan addasiadau i stoc sydd wedi'i throsglwyddo

- dywedodd 1 awdurdod fod cost lawn DFG ac addasiadau yn cael ei hadeiladu i mewn i'w cynllun busnes
- roedd 2 awdurdod yn teimlo na fyddai hwn yn dod yn fater o bwys gan fod trosglwyddo yn annhebygol
- roedd gan 1 awdurdod bryderon mawr y byddai trosglwyddo stoc yn cynyddu'r baich ar gyllidebau DFG a ariennir yn gyffredinol yn sylweddol
- ni fynegodd 11 awdurdod unrhyw farn o gwbl, neu roeddent yn ansicr am ddarparu addasiadau o fewn cynlluniau busnes

F1.13 Yn gyffredinol, nid oedd ymateb yr awdurdodau lleol i sut i drin costau addasiadau o fewn cynlluniau busnes neu gytundebau trosglwyddo yn glir, ac nid oedd gan y mater broffil digon uchel.

**CASGLIADAU**

1. Mae ystod eang o arferion ymhlith yr awdurdodau lleol ynghylch sut y mae addasiadau cost fawr a mân yn cael eu cyflawni i'w tenantiaid. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod lefel y gwasanaethau y mae tenantiaid yn eu cael mewn gwahanol ardaloedd yn amrywio yn helaeth. Mae'n golygu hefyd fod y gwasanaethau a geir a safonau y gwasanaethau hynny yn amrywio rhwng gwahanol ddeiliadaethau tai yn yr un ardal.
2. Ceir rhai enghreifftiau o arferion da wrth gyflwyno gwasanaethau addasiadau mewn llawer o ardaloedd, a allai gael eu rhannu gan ddefnyddio llwybrau lledaenu priodol.
3. Mae'r ffordd y dylai addasiadau mawr a mân i denantiaid gael eu hariannu os bydd yr awdurdodau lleol yn trosglwyddo eu stoc yn aneglur, ac mae gan yr awdurdodau lleol wahanol safbwyntiau a dulliau gweithredu yn hyn o beth.
4. Efallai y caiff trosglwyddo stoc effaith sylweddol bosibl ar cyllidebau DFG yn y dyfodol.

**ARGYMHELLION**

1. Dylid sefydlu fframwaith sy'n gofyn am fwy o unffurfedd ar gyfer cyflawni addasiadau tenantiaid cyngor. Dylai hyn gynnwys:

   - Diffiniad clir o'r hyn a ystyrir yn fân addasiadau (y rhai sy'n costio llai na £1000), a llwybr anfiwrocrataidd cyffredin ar gyfer cyflawni'r rhain, y tu allan i'r system DFG

   - Gofyniad bod addasiadau mawr tenantiaid cyngor yn cael eu cyflwyno yn ôl yr un amserlenni â DFG (neu gorau oll) drwy gynnwys y rhain yn y fframwaith NAWPI.

2. Y dylid rhannu arferion da wrth gyflawni gwasanaethau addasiadau i denantiaid trwy'r llwybrau lledaenu a ddisgrifir yn yr argymhellion i Ran C.
3. Bod arweiniad polisi clir a chanllawiau yn cael eu rhoi i'r awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgorffori mewn cynlluniau busnes a chytundebau trosglwyddo, holl gostau gwaith addasu mawr a bach er mwyn sicrhau bod eu stoc yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

## RHAN F ADDASIADAU AR GYFER TENANTIAID LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG

F1.1 Ymchwiliodd yr adolygiad i'r ffordd y mae DFG ac addasiadau yn cael eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer tenantiaid RSL, a barn RSLs, awdurdodau lleol a grwpiau defnyddwyr am broblemau gyda'r trefniadau presennol a sut y gellid gwella ar hyn.

F1.2 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae DFGs ar gael i denantiaid RSL yn union yr un ffordd â pherchen-feddianwyr, tenantiaid preifat a thenantiaid cyngor. Yn ymarferol, mae'r arian am hyn yn dod o gyllidebau adnewyddu'r sector preifat/DFG yr awdurdodau lleol. Er hynny, mae arian y Grant Tai Cyngor (SHG) a ddelir gan y Cynulliad ar gael i RSLs ei ddefnyddio am addasiadau i denantiaid yn eu heiddo eu hunain. Yr enw ar yr arian hwn yw Grant Addasiadau Ffisegol (PAG), ac yn gyffredinol fe'i gelwir yn "Cynllun 1A". Hefyd, mae RSLs yn gallu defnyddio eu hadnoddau eu hunain ac yn gwneud hynny mewn llawer o achosion (ond nid y cyfan) i ariannu mân addasiadau cost is.

F1.3 Casglwyd gwybodaeth gan RSLs gan ddefnyddio holiaduron ac ymweliadau a chyflweliadau. Anfonwyd holiaduron at y 28 RSL mwyaf yng Nghymru. Dylchwelwyd 21, cyfradd ddychwelyd o 75%. Ymwelwyd â 6 RSL a thrafodwyd cyflwyno addasiadau a sylwadau am DFG. Crynhoir y wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau a'r holiaduron fel a ganlyn:

**Ariannu addasiadau RSL**

F1.4 Yn 2003/4, swm yr arian a dynnwyd i lawr o PAG oedd rhyw £850,000, tra cwblhawyd DFGs a amcangyfrifwyd yn £1.8m. Mae hyn yn rhoi cost flynyddol gyfartalog o ryw £2.65m am addasiadau i denantiaid RSL.

**Ymagweddau ariannu at addasiadau/DFG RSL**

F1.5 Roedd yr ymagweddau o ran ariannu ac arfer yn amrywio yn helaeth. Mae'n glir bod bodolaeth PAG a DFG yn arwain at anghysondeb yn yr ymagwedd rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Er enghraifft, nid oedd rhai awdurdodau lleol yn prosesu DFGs tenantiaid RSL, ond yn cyfeirio RSLs yn eu hardal trwy lwybr PAG. Mae RSLs yn defnyddio PAG yn unig a dim yn cael mynediad i'r llwybr DFG. Nid yw rhai RSLs wedi clywed am PAG ac yn cyfeirio pob ymholiad trwy DFG. Mae rhai yn defnyddio cymysgedd o'r ddau.

- Nid oedd 10% o RSLs erioed wedi defnyddio arian PAG, ac mewn gwirionedd nid oeddent yn gwybod am ei fodolaeth.
- Nid oedd unrhyw RSL yn ariannu pob addasiad o'u hadnoddau eu hunain heb ddefnyddio PAG neu DFG
- 29% o RSLs yn unig a oedd yn cyfeirio tenantiaid am DFG
- Roedd 57% o RSLs yn defnyddio cymysgedd o DFG a PAG

- Roedd 71% yn defnyddio eu hadnoddau eu hunain am rai addasiadau mân gost. Nid oedd 29% yn defnyddio eu cronfeydd eu hunain am unrhyw fân addasiadau

Arweiniodd y gwahanol a arferion a llwybrau ariannu hyn at anghysondeb i denantiaid RSL o ran prawf modd (mae DFG yn destun prawf modd, ond nid PAG) a safonau gwasanaeth.

F1.6 Credir yn gyffredinol bod angen un llwybr a phroses ariannu ar gyfer tenantiaid RSL. Teimlai 76% o RSLs a ymatebodd fod Grant Tai Cymdeithasol (PAG) yn llwybr boddhaol ac roedd yn well ganddynt hwn na DFG. Ni ddywedodd unrhyw RSLs fod yn well ganddynt DFG fel y llwybr ariannu. Ni fynegodd 24% beth oedd orau ganddynt. Roedd cefnogaeth i PAG fel yr unig lwybr ariannu yn uchel hefyd ymhlith yr awdurdodau lleol, gydag 82% o awdurdodau lleol yn nodi mai hyn oedd orau ganddynt.

F1.7 Roedd dealltwriaeth RSL o'r broses PAG yn gymysg. Dangosodd 53% ddealltwriaeth dda neu eithaf da o'r broses pan ofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt o fewn yr holiadur. Dangosodd 34% ddealltwriaeth dameidiog neu wael. Nid ymatebodd 14% i'r cwestiwn hwn. Er bod rhai RSLs yn gwybod am PAG ac yn ei ddefnyddio, roedd yn glir nad oeddent yn ymwybodol ar y cyd o'r rheolau am PAG o safbwynt;

- isafswm/uchafswm costau
- meini prawf cymhwyster i'r tenant a'r gwaith a ganiateir (ceir dryswch ynghylch a oes angen isafswm hyd tenantiaeth cyn i'r RSL ddod yn gymwys i wneud cais)
- yr hyn sy'n ofynnol o ran gwaith papur, cymorth OT, dyfyniadau adeiladwyr.

F1.8 Roedd yr RSLs hynny a oedd yn defnyddio PAG yn credu bod y prosesau yn gyffredinol yn gyflymach nag ar gyfer DFG. Dywedodd bron 20% eu bod wedi sefydlu trefniadau â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn lleol ar gyfer adroddiadau OT preifat i gyd-fynd â cheisiadau am PAG, gyda gwiriadau ansawdd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn lleihau atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyflymu'r broses addasiadau ar gyfer eu tenantiaid. Roedd 14% pellach yn ystyried gweithredu fel hyn.

F1.9 Gwnaed awgrym penodol gan 3 RSLs i gyflymu'r broses o gymeradwyo PAG. Awgrymwyd proses o wneud cais yn ôl-weithredol, ar yr amod y cedwir cydbwysedd yn erbyn meini prawf cynlluniau, er mwyn galluogi gwaith i gael ei wneud yn gyflymach, yn enwedig lle'r oedd sicrhau dyfyniadau adeiladwr yn broblem. Awgrymodd 2 RSL restr o gyfraddau ar gyfer PAG, a fyddai'n helpu gyda chysondeb prisio gwaith ac y fyddai'n helpu i hwyluso ceisiadu ôl-weithredol gan y byddai'r gost yn cael ei phenderfynu ymlaen llaw, cyhyd â bod y cleient a'r gwaith yn gymwys.

### Arferion mewnol RSL

F1.10 Gofynnwyd i RSLs am eu gweithdrefnau mewnol a'u harferion mewn perthynas ag addasiadau i'w tenantiaid. Daeth yr ymatebion canlynol i law:

- Roedd 8 o 21 (38%) yn darparu gybodaeth, cyhoeddusrwydd neu ddeunydd darllen ynghylch addasiadau i denantiaid
- Roedd 10 o 21 (48%) yn ymweld â chleientiaid a ofynnodd am addasiadau er mwyn trafod eu dewisiadau
- Roedd gan 7 o 21(33%) wasanaeth mân addasiadau/gwasanaeth crefftwr
- Roedd 13 o 21 (62%) yn cyfeirio'r holl achosion am DFG
- Roedd 18 o 21 (86%) yn ystyried ailgartrefu fel dewis

F1.11 O ran y problemau â'r system DFG yn gyffredinol, yr un oedd safbwyntiau RSL â defnyddwyr, grwpiau o ddefnyddwyr ac yn wir yr awdurdodau lleol:

- Teimlai 62% fod amserau asesiadau OT yn benodol yn rhy hir
- Teimlai 33% na ddylai fod angen asesiad OT o reidrwydd ar gyfer addasiadau cost is
- credai llawer fod y broses gyfan yn rhy hir
- Roedd dryswch ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am gynnal-a-chadw'r cyfarpar a ddarperir trwy DFG (gan mai'r tenant sy'n berchen ar yr addasiad o dan y gyfraith, pan ddyfernir DFG)
- Credai 20% fod cyfathrebu o du'r awdurdodau lleol ar achosion unigol yn wael a theimlent yn ddi-rym lle defnyddid y llwybr DFG

### Cofrestri Eiddo a Addaswyd

F1.12 Ymdrinnir â darparu cofrestri eiddo a addaswyd yn Rhan H o'r adolygiad hwn.

**CASGLIADAU**

1. Amcangyfrifir mai £2.5 - £3m yw gwerth addasiadau mawr (PAG a DFG) a wneir yn flynyddol.
2. Mae bodolaeth dau lwybr ariannu am addasiadau mawr yn arwain at anghysondeb a dryswch ynghylch sut y darperir addasiadau mawr i denantiaid RSL. Mae angen cael un llwybr ariannu.
3. Mae arferion ymhlith RSLs wrth ariannu mân addasiadau yn amrywio, gan arwain at wasanaethau anghyson i denantiaid. Mae rhyw 75% yn ariannu rhai addasiadau mân gost. Nid yw'r gweddill. Mae'r trothwyon ar gyfer yr hyn a fernir yn fân addasiadau hefyd yn amrywio.
4. Nid yw'r cynllun PAG yn cael ei adnabod yn eang na'i gymhwyso gan RSLs ac awdurdodau lleol.
5. Lle defnyddir PAG, gellir cael gafael arno yn gyflymach os bydd RSLs yn darparu adroddiadau OT preifat. Mantais hyn hefyd yw lleihau atgyfeiriadau at wasanaethau OT y gwasanaethau cymdeithasol sydd o dan bwysau.
6. Mewn rhai achosion, mae'r system PAG ei hun yn rhy araf, a gellid ei chyflymu drwy brosesau wedi'u hystwytho megis ôl-geisiadau, a gweithredu rhestr ganolog o gyfraddau.
7. Fel gyda deiliadaethau eraill, nid yw'r wybodaeth a'r cyhoeddusrwydd ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael yn foddhaol..

**ARGYMHELLION**

1. Dylai holl addasiadau cost fawr RSL gael eu cynnal gan ddefnyddio arian y Grant Tai Cymdeithasol (PAG).
2. Dylai mân addasiadau sy'n costio llai na £1000 fod yn gyfrifoldeb yr RSL, ac nid ydynt yn gymwys am PAG neu DFG.
3. Dylai'r cynllun PAG gael ei ailwampio a'i egluro o safbwynt cymhwyster, isafswm ac uchafswm costau, gwaith cymwys, a'r gwaith papur y mae angen ei gyflwyno. Cyn belled â phosibl dylai PAG gyfateb i'r ddarpariaeth o dan y system DFG.
4. Dylai'r cynllun PAG gael ei gyhoeddi ymhlith pob RSL.
5. Er mwyn cyflymu gwaith addasu, dylid caniatáu ôl-geisiadau am PAG, ar yr amod y cedwir cydbwysedd i sichrau bod y ceisiadau hynny yn cydymffurfio yn llawn â gofynion PAG.
6. Dylid rhoi ystyriaeth i weithredu rhestr ganolog o gyfraddau ar gyfer gwaith PAG.
7. Dylai gwybodaeth am lwybrau sydd ar gael i addasiadau am denantiaid RSL gael ei chyhoeddi, fel rhan o'r wybodaeth gyffredinol/deunydd cyhoeddusrwydd a gynigir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

## RHAN G COFRESTRI EIDDO A ADDASWYD A DYRANNU TAI CYMDEITHASOL A ADDASWYD

G1.1 Mae gan ddarparwyr tai cymdeithasol (RSLs ac awdurdodau lleol) gyfle i ddefnyddio eiddo a addaswyd yn briodol yn eu stoc eu hunain er mwyn diwallu anghenion a nodwyd yn achos personau anabl sy'n gwneud cais am eu tai, ac i bersonau y mae angen addasu eu heiddo presennol. Mae'n glir ei bod yn ddoeth cael systemau effeithiol sydd fel lleiafswm:

- Yn gallu nodi eiddo a addaswyd pan fydd ar gael i'w osod
- Sy'n gallu nodi pa addasiadau sydd wedi'u gwneud o fewn yr eiddo hwn (cofrestr/cronfa ddata eiddo a addaswyd)
- Sy'n sicrhau bod digon o amser ac ystyriaeth yn cael eu rhoi i sut i ailosod yr eiddo hwn, yn hytrach na dileu addasiadau yn gyflym mewn ymdrech i osod yr eiddo yn gyflym er mwyn osgoi targedau trosiant gwag
- Sy'n ymchwilio i'r dewis o ailgartrefu gyda chleientiaid fel ateb i'w hangen a nodwyd, yn arbennig ar gyfer yr achosion hynny lle mae addasu'r eiddo presennol yn ddrud e.e. yn dod yn agos at uchafswm y grant
- Sydd â pholisïau dyrannu sy'n galluogi cyflymu ailgartrefu personau anabl sydd mewn angen i eiddo addas pan fydd ar gael
- Sydd â rhyngwyneb clir rhwng OTs y Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddogion Tai, Timau Dyrannu a Thimau DFG/Addasiadau
- Byddai'n ddymunol bod y system yn ymgorffori'r stoc dai, a swyddogion RSLs yn ogystal â'r awdurdodau lleol

G1.2 Un o nodau'r adolygiad hwn oedd darganfod i ba raddau yr oedd y prosesau uchod yn digwydd (neu beidio), ymchwilio i sut y gellid gwneud gwelliannau a nodi a lledaenu arferion gorau.

G1.3 Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol a oedd ganddynt gofrestr eiddo a addaswyd a systemau sy'n cyplysu personau mewn angen ag eiddo a addaswyd yn briodol:

- Honnodd 8 o'r 22 awdurdod (36%) fod ganddynt gofrestr eiddo a addaswyd. Nid oedd pob un o'r awdurdodau hyn yn defnyddio'r gofrestr fel teclyn ar gyfer cyplysu eiddo addas â phersonau yr oedd arnynt eu hangen
- Ymddangosai fod gan 8 o'r 22 awdurdod (38%) ffordd systematig o gyplysu personau y mae arnynt angen tai a addaswyd â thai a addaswyd yn briodol pan fyddent ar gael. Nid yr un 8 oedd â chofrestr oedd y rhain o reidrwydd. Mewn rhai achosion cafwyd proses gyplysu, ond dim cofrestr ffurfiol.
- Dywedodd 5 o'r 22 awdurdod (23%) eu bod wrthi yn datblygu cofrestri a phrosesau cyplysu
- Disgrifiodd rhai awdurdodau rai cysylltiadau gweithio da rhwng staff gwasanaethau cymdeithasol a thai a oedd yn sicrhau o leiaf ar sail ad hoc fod eiddo a addaswyd yn briodol yn cael eu cyplysu â chleientiaid y mae arnynt eu hangen. Y gwahaniaeth rhwng y rhain

a system wirioneddol effeithiol yw bod y systemau gorau yn gallu nodi yn gyson eiddo a addaswyd, mynd ati i hybu a chyflwyno ailgartrefu fel dewis, a sicrhau bod yr holl staff yn ymwneud â'r prosesau ac yn eu deall

G1.4 Dim ond 2 awdurdod a oedd wedi datblygu systemau effeithiol a chadarn i bob golwg a oedd yn cyfuno cofrestr o eiddo â phrosesau cyplysu effeithiol. Y farn oedd bod 2 awdurdod pellach wedi symud ymlaen yn weddol dda o ran datblygu system gadarn. Roedd rhai o'r systemau a'r cynlluniau hyn wedi datblygu o arian "Arloesi mewn tai Cymdeithasol" ac roedd rhai hefyd yn cynnwys RSLs. Mae'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus wedi arwain at ailgartrefu niferoedd sylweddol o bobl, a fyddai fel arall wedi gorfod cael DFG neu addasiadau mawr wedi'u hariannu gan y cyfrif refeniw tai. Mewn un cynllun, roedd 80 o bersonau wedi'u hailgartrefu mewn 2 flynedd, ac mewn un arall roedd 50 wedi cael eu hailgartrefu mewn 3 blynedd, gydag arbedion cost sylweddol.

G1.5 Dywedodd 14 o 21 o RSLs fod ganddynt gofrestr ffurfiol o eiddo a addaswyd. Fel gyda'r awdurdodau lleol, nid oedd meddu ar gofrestr bob amser yn golygu bob amser bod systemau ar gyfer cyplysu tenantiaid mewn angen ag eiddo addas yn dilyn. Disgrifiodd 14 o 21 RSLs systemau ar gyfer cyplysu tenantiaid y mae arnynt angen addasiadau ag eiddo a addaswyd.

**CASGLIADAU**

1. Gall cofrestri effeithiol o eiddo a addaswyd ar gyfer tai cymdeithasol a chynlluniau cyplysu arwain at ailgartrefu niferoedd sylweddol o bobl yn foddhaol, ac at arbedion cost sylweddol o ran cyllidebau DFG ac Addasiadau Tai.
2. Datblygwyd rhai cynlluniau sy'n cofnodi ac yn nodi yn effeithiol eiddo sydd wedi'i addasu ac wedyn yn eu hailddefnyddio pan fyddant ar gael ar gyfer personau y mae arnynt angen addasiadau. Er hynny, o ran y nifer o awdurdodau lleol ac RSLs, mae datblygu a defnyddio'r cynlluniau hynny yn isel.
3. Er nad ymgymerir ag ef yn systematig, ceir arfer eithaf eang, trwy gysylltiadau ad hoc a lleol, i geisio gosod eiddo a addaswyd i bersonau y mae arnynt angen addasiadau.
4. Ceir tystiolaeth mewn rhai meysydd na roddir llawer o ystyriaeth i gyplysu eiddo a addaswyd â phersonau y mae arnynt eu hangen.

**ARGYMHELLION**

1. Dylid atgoffa'r awdurdodau lleol pa mor ddymunol yw cael cofrestri tai a addaswyd a chynllunio cyplysu, eu budd o ran gwneud y defnydd mwyaf cost-effeithiol o stoc a addaswyd, a dylai fod yn ofynnol iddynt nodi eu cynlluniau am gynlluniau o'r fath o fewn ei strategaeth dai leol a strategaeth cymorth adnewyddu'r sector preifat.
2. Dylai'r cynlluniau a'r systemau gorau gael eu cymeradwyo i'w dyblygu ledled Cymru. Gellid hwyluso hyn drwy rannu gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r adolygiad hwn a/neu gyfres o seminarau arferion gorau ar gyfer awdurdodau lleol ac RSLs, wedi'i hwyluso gan y Cynulliad a chyrff megis WFHA a CIH Cymru

## RHAN H MÂN ADDASIADAU

H1.1 Yn ogystal â DFGs ac addasiadau cost fawr i denantiaid Cynghorau/RSL, ceisiodd yr adolygiad gasglu gwybodaeth am sut yr oedd "mân addasiadau" cost is yn cael eu cyflawni gan yr awdurdodau lleol ac RSLs i bobl anabl ym mhob deiliadaeth tai. Mae pa mor effeithiol y mae mân addasiadau yn cael eu cyflawni yn effeithio yn uniongyrchol ar DFG a gwasanaethau addasiadau mawr, yn arbennig mewn perthynas â sut y defnyddir adnoddau OT prin yn y ffordd orau.

H1.2 Nid yw cyfran helaeth o'r atgyfeiriadau a wneir ar gyfer asesiadau gan therapyddion galwedigaethol yn rhai ar gyfer addasiadau mawr, ond am eitemau gweddol fach megis canllawiau gafael, canllawiau cylch, canllawiau galfanedig, tapiau lifer, a mân esgynfeydd. Mae llawer o'r rhain ar gyfer pobl hŷn er mwyn sicrhau gwell diogelwch yn y cartref, lliniaru poen ac er hwylustod defnyddio eu cartref neu i hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty neu o ofal cymdeithasol. Mae mân addasiadau o'r fath felly yn helpu i fodloni amcanion polisi sylweddol megis cynhwysiant cymdeithasol, rhyddhau cleifion yn effeithiol or ysbyty, diogelwch yn y cartref i bobl hŷn a gofal cymunedol. **DS at ddibenion y bennod hon, mae mân addasiadau yn cyfeirio at addasiadau cost isel, sydd fel rheol yn costio llai na £1000, a gyflawnir yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chan Adrannau Tai ac RSLs ar gyfer eu tenantiaid, yn hytrach na thrwy DFG. Mae hyn yn wahanol i benodau blaenorol yr adroddiad hwn lle trafodwyd y ffordd orau o gyflwyno DFGs sy'n costio llai na £3000.**

H1.3 Nid oes diffiniad cyfreithiol o beth yw mân addasiad. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r term yn disgrifio'r addasiadau hynny a fyddai'n cael eu hystyried fel rheol fel rhai nad ydynt yn costio digon i'w cynnal trwy DFG**. O dan ddeddfwriaeth Lloegr ar oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, mae canllawiau ar ffurf cylchlythyr yn nodi mai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol piau'r cyfrifoldeb dros ariannu addasiadau sy'n costio llai na £1000, a'i fod o ganlyniad i hynny y tu allan i system DFG.**

H1.4 Ymhlith awdurdodau lleol Cymru, roedd y diffiniad o beth yw mân addasiad yn amrywio yn sylweddol. Roedd hwn yn amrywio o "llai na £350" i "llai na £2500". Yn nodweddiadol, diffiniwyd mân addasiadau fel rhai sy'n costio llai na £750.

H1.5 Yn achos tenantiaid cyngor, roedd ystod eang o arferion o ran pwy a oedd yn ariannu mân addasiadau ac i ba raddau.

- Mewn 3 awdurdod, roedd y cyfrif refeniw tai yn talu am yr holl fân addasiadau
- Mewn 8 awdurdod, y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yn talu am yr holl fân addasiadau
- Mewn 9 awdurdod, roedd cymysgedd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfrif Refeniw Tai yn talu am fân addasiadau

- Roedd lefelau ariannu oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol am raglenni mân addasiadau yn amrywio o £5000 i £250,000. Roedd rhaglen mân addasiadau nodweddiadol o dan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn costio tua £50,000 y flwyddyn.

H1.6 Roedd ychydig o awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau a oedd yn targedu yn benodol gwella “diogelwch yn y cartref” i denantiaid cyngor hŷn, a hwyluso rhyddhau cleifion o’r ysbyty. Mae 2 awdurdod wedi datblygu cynllun yn benodol i denantiaid sy’n adlewyrchu’r Rhaglen Addasiadau Brys sydd ar gael i berchnogion tai hŷn trwy Ofal a Thrwsio.

H1.7 Roedd dulliau RSL o ymdrin â mân addasiadau hefyd yn amrywio yn sylweddol. Dywedodd 71% o RSLs a ymatebodd eu bod yn defnyddio eu hadnoddau eu hunain am rai mân addasiadau, tra nododd 29% nad oeddent yn defnyddio eu cronfeydd eu hunain o gwbl at y diben hwn.

H1.8 Ar gyfer perchen-feddianwyr roedd ystod ehangach o ddarpariaeth ar gyfer mân addasiadau.

- Mae gan bob awdurdod lleol raglen RRAP a gyflwynir trwy’r Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol, mewn partneriaeth â Thai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd (gweler Rhan I am fanylion y rhaglen RRAP)
- Roedd 18 awdurdod lleol yn darparu mân addasiadau yn uniongyrchol trwy arian y gwasanaethau cymdeithasol (er bod gan un o’r rhain raglen fach iawn o £5000 am y flwyddyn)
- Roedd 7 awdurdod lleol yn darparu mân addasiadau cyflymach trwy ei bolisïau Cymorth Tai a wnaed o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. O’r rhain, roedd 2 awdurdod lleol y darparu cymorth mân addasiadau yn unig trwy ei ddarpariaethau RRO h.y. nid oedd unrhyw arian ar gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol

H1.9 Roedd arferion o ran asesiadau y mae eu hangen am fân addasiadau yn amrywio yn helaeth ym mhob deiliadaeth. Mewn llawer o achosion, gallai Cynorthwywyr OT a staff eraill y Gwasanaethau Cymdeithasol megis ymwelwyr Iechyd bennu mân addasiadau. Mewn ychydig ardaloedd, defnyddid hunan-asesu ac roedd staff technegol/arolygu yn archebu gwaith yn uniongyrchol. Mewn rhai ardaloedd, roedd llai o hyblygrwydd ac roedd angen asesiadau OT llawn. Yn glir, lle mae addasiadau llai drud a llai cymhleth yn gallu cael eu cynnal gan staff cymwysedig heb fod yn OT, bydd hyn yn rhyddhau amser OT i ymdrin â’r lefelau uchel o alw a thagfeydd ar gyfer asesiadau a danlinellwyd yn Adran 3 o’r adroddiad hwn.

**CASGLIADAU**

1. Mae gwasanaethau mân addasiadau yn cael eu diffinio, eu hariannu a'u cyflwyno yn anghyson ar draws deiliadaethau tai a rhwng gwahanol rannau o Gymru.
2. Ceir enghreifftiau o arferion da wrth gyflwyno gwasanaethau addasu mewn llawer o ardaloedd, gan gynnwys pob deiliadaeth, a allai gael eu rhannu gan ddefnyddio llwybrau lledaenu priodol.

**ARGYMHELLION**

1. Dylai mân-addasiadau gael eu diffinio yn glir. Awgrymir y dylai'r diffiniad ymwneud â'r gost, ac y dylid ystyried pob addasiad sy'n costio llai na £1000 fel mân addasiad.
2. Dylid hybu cyflwyno mân addasiadau (llai na £1000) trwy fecanweithiau llai biwrocrataidd na DFG.
3. Dylai ariannu mân-addasiadau sy'n costio £1000 neu lai fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat, RSLs ar gyfer tenantiaid RSL, ac Adrannau Tai ar gyfer tenantiaid Tai Cyngor. Dylid ymchwilio i'r mecanwaith ar gyfer cyflawni hyn gan gynnwys:
   - Ymchwilio i weld a ellid defnyddio pwerau presennol y Cynulliad/is-ddeddfwriaeth
   - Eu cyflwyno o fewn deddfwriaeth Gofal Cymdeithasol i Gymru
   - Lobïo ar gyfer eu cyflwyno yn neddfwriaeth newydd y DU
4. Dylid hybu a hyrwyddo defnyddio staff cymwysedig nad ydynt yn OT ar gyfer mân-addasiadau.

## RHAN I Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP)

I1.1 Ariennir y cynllun RRAP y Cynulliad, ac fe'i gweinyddir gan Gofal a Thrwsio Cymru ac yn cael ei chyflawni gan y rhwydwaith cenedlaethol o Asiantaethau Gofal a Thrwsio, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau iechyd lleol. Dechreuodd y cynllun peilot 3 blynedd ym Mehefin 2002. Rhwng Mehefin 2002 a Mawrth 2004, cafodd RRAP gyllideb o £1.5m. Dyrannwyd £1m pellach ar gyfer 2004/5.

I1.2 Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty (gan leihau oedi wrth drosglwyddo gofal) trwy alluogi gwaith cyflym, hanfodol ar fân addasiadau a thrwsio. Nod eilaidd yw gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, tai a gofal cymdeithasol i ymgymryd â gwaith trwsio a mân addasiadau tebyg, er mwyn atal cleifion rhag cael eu derbyn neu eu hailddérbyn i'r ysbyty. Prif nodweddion y rhaglen yw:

- Mae perchnogion tai/tenantiaid preifat hŷn a/neu anabl yn gymwys
- Uchafswm cost RRAP a ganiateir yw £350 i bob tasg
- Uchafswm nifer y diwrnodau targed o'r atgyfeiriad hyd at gwblhau'r gwaith yw 15 diwrnod
- Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Rhaid i atgyfeiriadau gael eu gwneud gan asiantaethau partner, ac at y diben a nodir o dan y cynllun
- Gwneir y gwaith yn y mwyafrif o achosion gan wasanaethau crefftwr mewnol yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio leol

I1.3 Yn ystod cyfweliadau â'r awdurdodau lleol, cafwyd trafodaethau ynghylch y ffordd y mae'r rhaglen RRAP yn gweithredu a'i heffeithiolrwydd. Crynhoir safbwyntiau'r awdurdodau lleol isod:

- Credai 100% o'r awdurdodau lleol fod y cynllun yn effeithiol ac yn gweithio yn dda
- Dywedodd 14 o'r 21 awdurdod fod arian yn dod i ben yn eu hardal cyn diwedd y flwyddyn
- Dywedodd 13 o'r 21 awdurdod lleol fod lefel yr atgyfeiriadau o Iechyd yn uchel neu'n uchel iawn. Weithiau roedd hyd at 100% o atgyfeiriadau yn dod o Iechyd.
- Roedd 11 o'r 21 awdurdod (52%) yn atodi cyllidebau RRAP yn lleol, neu wedi datblygu cynlluniau tebyg gan ddefnyddio mecanweithiau cyfeirio "partneriaeth" tebyg.
- Dim ond 1 awdurdod nododd unrhyw arian atodol o ddarparwyr y gwasanaeth Iechyd lleol er gwaethaf ei lwyddiant a'i boblogrwydd ymhlith gweithwyr proffesiynol iechyd
- Nododd 4 o'r 21 awdurdod (20%) eu bod yn teimlo bod angen rhaglen debyg ar gyfer tenantiaid Cyngor. Roedd 2 o'r awdurdodau hyn wedi dechrau cynlluniau tebyg o'u hadnoddau eu hunain ar gyfer tenantiaid Cyngor.

I1.4 Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Cymru yn dangos llwyddiant RRAP yn ystod y 18 mis cyntaf:

- Cost gyfalaf o £1.5m
- Cafodd 10,416 o bobl gymorth
- cynorthwywyd 3,277 o bobl i adael yr ysbyty yn gynnar
- Cost gyfartalog y dasg £134
- Amser cyfartalog i gwblhau gwaith 7.5 diwrnod
- Mae wedi cynyddu deialog a phartneriaeth ar lawr gwlad rhwng gweithwyr proffesiynol Tai, Gofal Cymdeithasolosl ac Iechyd
- Amcangyfrifir bod £7.8m yn cael ei arbed yn erbyn y gyllideb Iechyd. Seilir hyn ar gost wythnosol gyfartalog ysbyty gwely sef £378.15, cost gyfartalog wythnosol gofal preswyl o £374, a rhagdybiaeth bod y 10,416 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dychwelyd adref (o ofal mewn ysbyty neu ofal preswyl) 2 wythnos yn gynharach nag y byddent wedi gwneud fel arall heb RRAP.
- Mae'r cynllun yn cyflawni strategaethau ataliol y Cynulliad ar gyfer gwneud cartrefi pobl hŷn yn ddiogel, galluogi pobl hŷn i barhau i fyw yn annibynnol gartref a darparu cartrefi diogel i ofalwyr.
- Mae RRAP yn cyfrannu at agenda adroddiad Wanless o safbwynt galluogi mwy o fyw yn annibynnol.

I1.5 Mae graddfa'r gwaith a wneir o dan RRAP yn fach o'i gymharu â'r math o addasiadau a gwerth addasiadau a wneir trwy DFG. Er hynny mae'n glir bod RRAP wedi dod yn rhan bwysig o systemau cyffredinol awdurdod lleol am gyflwyno gwasanaethau addasu, ac mae'n cydategu yn glir, ac mewn rhai achosion yn lliniaru'r baich ar y system DFG ar ben isaf y raddfa.

**Y RHAGLEN ADDASIADAU BRYS - CASGLIADAU**

1. Mae RRAP wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gyflawni rhaglen gyflym ac effeithiol o fân addasiadau a gwaith trwsio bach sydd wedi gwneud gwahaniaeth o bwys wrth ganiatáu i bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty a gofal, ac wrth atal derbyniadau ac aildderbyniadau i'r ysbyty.
2. Mae'r awdurdodau a darparwyr gwasanaethau iechyd yn rhoi gwerth mawr ar RRAP, ac mae wedi hwyluso gwaith partneriaeth agosach rhwng darparwyr gwasanaethau yn y gwahanol sectorau hyn.
3. Mae gormod o bobl yn gwneud cais am y cynllun, ac mae tystiolaeth glir bod yr arian a ddyrennir yn syrthio'n brin o'r hyn a allai gael ei wario.
4. Mae mwy na 50% o Wasanaethau Tai a Chymdeithasol yr awdurdodau lleol wedi atodi cyllidebau RRAP, neu mewn rhai achosion wedi datblygu cynlluniau ochr yn ochr â'r rhain gan ddefnyddio'r mecanweithiau a'r rhwydweithiau cyfeirio a sefydlwyd trwy RRAP.
5. Nif yw adnoddau i atodi RRAP gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd lleol, gydag un eithriad yn unig, wedi cael eu darparu, er gwaethaf ei lwyddiant a'i boblogrwydd gyda gweithwyr proffesiynol Iechyd.
6. Mae achos o blaid ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn cynllun tebyg i RRAP i denantiaid cynghorau ac RSL, er mwyn i'r manteision a nodir uchod gael eu cyflwyno ni waeth beth yw'r ddeiliadaeth.

**Y RHAGLEN ADDASIADAU BRYS – ARGYMHELLIION**

1. Bod cadarnhad bod y rhaglen RRAP yn parhau y tu hwnt i'r cynnig peilot 3 blynedd cychwynnol.
2. Bod yr arian a ddyrennir i'r rhaglen yn cael ei gynyddu er mwyn adlewyrchu'r galw cynyddol am RRAP, o fewn ffiniau diffiniedig nodau a chymhwyster y rhaglen.
3. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffynhonnell arian am y rhaglen yn y dyfodol, fel bod hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae'r rhaglen yn ei gyflwyno o safbwynt amcanion iechyd a gofal cymdeithasol.
4. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i rhaglen debyg i RRAP sy'n cynnwys deiliadaethau tai cymdeithasol, gan roi sylw dyledus i gyflwyno trwy'r rhwydweithiau a'r partneriaethau sydd eisoes wedi'u datblygu.

## ATODIAD 1

## HOLIADUR AR GYFER AWDURDODAU LLEOL

**Adolygiad Cenedlaethol o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) ac Addasiadau Tai**

# Holiadur ynghylch DFG ac Addasiadau, Awdurdodau Lleol

**Mae'r holiadur hwn yn rhan o adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau ledled Cymru ar gyfer addasu tai a rhoi grantiau i ddarparu cyfleusterau i'r anabl ym mhob deiliadaeth tai. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i benderfynu ar argymhellion ar gyfer newid y trefniadau presennol er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth addasu tai a ddarperir i berchnogion a thenantiaid.**

**MAE'R HOLL DDATA Y GOFYNNIR AMDANO YN YMWNEUD Â BLWYDDYN ARIANNOL 2003-2004**

| | |
|---|---|
| Enw'r Awdurdod Lleol | |
| Enw Cyswllt | |
| Swydd | |
| Rhif ffôn | |
| Cyfeiriad e-bost | |

**1.0 ADNODDAU**

*Nod y rhan hon o'r holiadur yw nodi*

- *faint o gyllid cyfalaf sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer DFG ac addasiadau tai, a'r patrymau gwariant yn y blynyddoedd diwethaf*
- *ffynonellau cyllid*
- *costau cyfartalog a nifer yr addasiadau*

1.1 Nodwch yn y tabl canlynol eich **gwariant gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn**, ar gyfer pob un o'r blynyddoedd a nodir, o 2001/2 tan 2003/4

| **Blwyddyn** | DFG (gan gynnwys tai cyngor) | Addasiadau i dai cyngor (o'r cyfrif refeniw tai) | Chymorth Trwsio Cartrefi (addasiadau yn unig) | **Mân**-addasiadau a ariannwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol | Addasiadau a ariannwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (yn sgil Deddf CSDPA 1970) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2000/2001 | | | | | |
| 2001/2002 | | | | | |
| 2002/2003 | | | | | |
| 2003/2004 | | | | | |

1.2 Mae'r tabl canlynol yn ymdrin â gwahanol amrediadau cost y DFG ac addasiadau. Nodwch yn y blychau **nifer** y DFG/addasiadau **a gwblhawyd** yn 2003/4

| Cost | DFG (gan gynnwys DFG ar gyfer tenantiaid tai cyngor) | Addasiadau i dai gyngor (a ariannwyd gan y cyfrif refeniw tai) | Holl addasiadau eraill na chawsant eu hariannu gan DFG na'r cyfrif refeniw tai |
|---|---|---|---|
| £0-£3000 | | | |
| £3001-£5000 | | | |
| £5001-£7,500 | | | |
| £7,501-£10,000 | | | |
Ydy ☐ Nac ydy ☐

4.2 A ydych chi'n credu y dylai'r prawf modd gael ei ddiddymu neu ei ddiwygio? Nodwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y DFG i blant dibynnol.

------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------

4.3 A ydych yn credu bod y prawf modd yn deg ar y cyfan, neu a oes unrhyw grwpiau y mae'r prawf modd presennol yn effeithio'n andwyol arnynt?

------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------

4.4 Ydych chi'n gwybod am unrhyw awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio Gorchmyn Diwygio Rheoleiddio Cymorth Tai (Cymru a Lloegr) 2002 i weithredu unrhyw bolisïau lleol eraill mewn perthynas â'r prawf modd ar gyfer DFG i blant dibynnol?

Ydym ☐ Nac ydym ☐

Os ateboch 'ydym', disgrifiwch unrhyw arferion da rydych wedi dod ar eu traws

------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------
------------------------------------------------------------------------------------------------

## 5.0 DEILIADAETH TAI

5.1 Yn eich profiad chi, a yw'r awdurdodau lleol yn defnyddio DFG ar gyfer addasiadau mawr i dai cyngor, neu a ydynt ariannu'r rhain trwy'r cyfrif refeniw tai?

*Ticiwch y blwch priodol*

| | |
|---|---|
| DFG | ☐ |
| Cyfrif Refeniw Tai | ☐ |
| Y ddau | ☐ |

Gallwch nodi mwy o wybodaeth isod:

5.2 Yn eich barn chi, a yw'r gwasanaethau addasu tai yn cael eu darparu'n deg i bobl mewn deiliadaethau tai gwahanol a pha newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld yn y trefniadau presennol?

## 6.0 CYFFREDINOL

Nodwch isod unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y DFG ac addasiadau tai.

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

A fyddech cystal â dychwelyd yr holiadur hwn erbyn **30 Awst 2005** at:


**Mr Chris Jones**
**Lywodraeth Cynulliad Cymru**
**Y Gyfarwyddiaeth Dai**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

E-bost: chris.jones@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 02920 823558

**ATODIAD 4**

**HOLIADURON MUDIADAU GWIRFODDOL A DDYCHWELWYD**

1. Cyswllt Teulu Cymru
2. Anabledd Cymru
3. Age Concern Cymru
4. Cymdeithas Clefyd Motor Niwron
5. Gofal a Thrwsio Cymru
6. Shelter Cymru
7. RNIB Cymru

**2 YMWELIADAU/CYFWELIADAU MUDIADAU GWIRFODDOL**

1. Cyswllt Teulu Cymru
2. Cymdeithas Clefyd Motor Niwron
3. Gofal a Thrwsio Cymru
4. RNIB Cymru

*** DS Dychwelwyd holiadur, a chynhaliwyd cyfarfod hefyd â chynrychiolwyr y Coleg Therapi Galwedigaethol o Gymru**

**ATODIAD 5**

## ATODLENNI CYFWELIADAU YR AWDURDODAU LLEOL AC RSLs

**Cylch Gorchwyl byr:**

- Synergedd deddfwriaeth
- Trefniadau ariannu
- Amserau aros/oedi
- Prawf modd DFG ar gyfer plant dibynnol
- Addasiadau ar gyfer tenantiaid cyngor, Safon Answdd Tai Cymru a goblygiadau trosglwyddo stoc
- Addasiadau ar gyfer tenantiaid RSL
- Effeithlonrwydd o ran defnyddio stoc dai a addaswyd e.e. cofrestri, cyplysu, polisïau dyrannu
- Rhaglen Addasiadau Brys a mân addasiadau

**Crynodeb o'r dulliau adolygu**

1. Holiaduron post- 22 o Awdurdodau Lleol Cymru, 28 o RSLs
2. Ymweliadau a chyfweliadau â 22 o Awdurdodau Lleol Cymru a dewis RSLs (Tua 6-8)
3. Cyfweliadau â phartneriaid allweddol- CLILC, WFHA, CIH Cymru, CIEH Cymru, Age Concern Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Shelter Cymru, Anabledd Cymru, Cyswllt Teulu Cymru
4. Cyfweliadau â detholiad o dderbynwyr DFG, yn arbennig teuluoedd
5. Arsylwyr ar grŵp llywio ODPM ar gyfer adolygiad DFG Lloegr
6. Ymweliadau/trafodaethau ag awdurdodau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Gweithrediaethau Gogledd Iwerddon a'r Alban
7. Ymgynghori mewnol yn y Cynulliad ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol, yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, rheoli RSL a chydweithwyr perthnasol eraill
8. Cyflwyniadau mewn seminarau a chynadleddau e.e. Grŵp Swyddogion Grant Gogledd Cymru, Cynhadledd COTSSIH, Cynhadledd Gofal a Thrwsio Cymru, seminarau Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru

**DEDDFWRIAETH**

- Beth yw'ch barn chi am pa mor dda y mae deddfwriaeth yn gweithio?
- Beth yw'r anfanteision ac achosion o orgyffwrdd?
- Unrhyw bwyntiau eraill?

**ARIANNU**

- Beth yw'ch barn am drefniadau ariannu cenedlaethol?
- A oes gennych unrhyw bryderon yn lleol am arian DFG/addasiadau?
- Beth yw'ch ymagwedd at ariannu addasiadau (*tenantiaid cyngor/RSL)* - (ee a ydych yn defnyddio DFG, a ydych yn defnyddio prawf modd yn achos tenantiaid, beth am PAG)?

- Beth fu effaith cyflwyno’r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar gyllidebau DFG ac addasiadau? (awdurdodau lleol)
- Beth yw barn eich awdurdod nad yw MRA yn gallu ariannu DFGs tenantiaid cyngor (awdurdodau lleol)
- A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch ariannu?

**OEDI**
- Ble mae eich problemau mwyaf o ran oedi yn lleol?
- Sut yr ydych yn delio ag unrhyw faterion oedi/amserau aros?
- A oes gennych P.I.s lleol ar gyfer DFG/addasiadau?
- A ydych yn meddwl y byddai P.I. enedlaethol ar gyfer DFG/amser aros addasiadau o gymorth?
- Pa mor dda y mae RRAP yn gweithio yn eich ardal chi ac a ydych yn meddwl y byddai rhaglen RRAP fwy yn helpu i ddelio â’r galw yn y pen costau isaf?
- A ydych yn defnyddio OTs preifat i gynnal asesiadau ar gyfer eich tenantiaid? (RSLs yn unig)

**PRAWF MODD DFG AR GYFER PLANT DIBYNNOL**
- Beth yw’ch barn am y trefniadau presennol lle y mae rhieni yn destun prawf modd ar gyfer addasiadau plant?
- A yw hwn yn rhywbeth yr ydych wedi edrych arno yn ddiweddar yn sgil cyflwyno hyblygrwydd o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio?
- Beth yw’r galw am addasiadau i blant yn eich ardal chi a faint o addasiadau nad ydynt yn mynd yn eu blaenau oherwydd y prawf modd i reini?

**TENANTIAID AWDURDODAU LLEOL**
- Beth yw ymagwedd eich corff/llwybr cyflwyno ar gyfer eich tenantiaid eich hunain?
- Pa arian yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer eich tenantiaid eich hunain?
- Sut yr ydych yn delio ag addasiadau bach, cost isel?
- A yw addasiadau yn cael eu cynnwys fel rhan o’ch cynlluniau busnes ar gyfer cyrraedd y WHQS?
- Beth fydd eich ymagwedd at addasiadau os byddwch yn trosglwyddo’ch tai?

**EFFEITHLONRWYDD DEFNYDDIO STOC DAI A ADDASWYD ee COFRESTRI, CYPLYSU, POLISÏAU DYRANNU**
- A ydych yn ailgartrefu yn hytrach nag addasu mewn rhai sefyllfaoedd?
- Beth am y sector preifat - a ydych yn helpu perchnogion i symud yn hytrach nag addasu lle bo’n rhy ddrud neu ddim yn ymarferol addasu?
- A oes gennych gofrestr o dai a addaswyd ac os oes, sut yr ydych yn rheoli’r defnydd gorau ohono?

- Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod tenantiaethau newydd, neu drosglwyddiadau yn golygu bod y tenant yn gofyn am addasiadau mawr yn yr eiddo y maent yn symud iddo?

**ADDASIADAU AR GYFER TENANTIAID RSL (CWESTIYNAU I AWDURDODAU LLEOL)**

- Beth yw'ch ymagwedd at addasiadau i denantiaid RSL?
- A yw'ch RSLs lleol yn ariannu addasiadau eu hunain, neu trwy PAG?
- Beth yw'ch sylwadau yn gyffredinol am sut y dylai addasiadau gael eu darparu a'u hariannu mewn eiddo RSL?

**RRAP A MÂN ADDASIADAU**

- Sut y mae'r rhaglen hon yn gweithio yn eich barn chi?
- A yw'r arian yn ddigonol – a ddefnyddir unrhyw arian atodol lleol?
- A yw'r trefniadau partneriaeth yn gweithio yn dda?
- A ydych yn trefnu trywydd carlam yn achos addasiadau cost isel i'ch tenantiaid trwy eu darparu yn uniongyrchol heb gynnwys yr awdurdod lleol? (RSLs yn unig)

**CYFFREDINOL**

- A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â DFGs ac addasiadau?

## ATODIAD 6

## ADOLYGIAD O DDEUNYDD DARLLEN

### a) Adaptations, finding ways to say yes, Frances Heywood, 1994

Nod yr astudiaeth hon oedd nodi enghreifftiau o arferion da wrth gyflwyno addasiadau ledled Cymru a Lloegr. Crynhoir y prif ganfyddiadau, a nodwyd gan adroddiad “Findings” JRF isod:

- Amrywiaeth eang o ddarpariaeth o grantiau cyfleusterau i’r anabl ledled Cymru a Lloegr. Yn y cyfnod 1990-92, rhoes rhai awdurdodau tai 100 gwaith yn fwy o grantiau i bob mil o anheddau na’i gilydd. Yn yr un modd, er na roes rhai adrannau gwasanaethau cymdeithasol unrhyw gymorth i’r rhai nad oeddent yn gallu fforddio ‘cyfraniadau’ a aseswyd o dan brawf modd, roedd gan eraill gyllidebau ‘atodol’ sylweddol.
- Roedd teuluoedd plant anabl dibynnol o dan anfantais arbennig: yn aml roedd arnynt angen addasiadau helaethach ond roeddent yn fwy tebygol o fod mewn gwaith. Roedd eu cyfraniad wedi’i asesu at gost addasiadau felly yn debygol o fod yn uchel (ond roedd ymrwymiadau morgais yn effeithio ar eu gallu i fforddio’r cyfraniad. Roedd perchnogion tai hŷn ar y llaw arall yn debygol o fod â morgais isel neu ddim morgais o gwbl).
- Y problemau gweithdrefnol mwyaf cyffredin a ddisgrifiwyd gan gleientiaid anabl a gyfwelwyd oedd diffyg gwybodaeth, oedi hir am asesiad, oedi wrth weithredu a diffyg rheolaeth ynghylch yr hyn sy’n cael ei wneud yn eu cartrefi.
- Roedd defnyddwyr yn dymuno cael mynediad i eiriolaeth annibynnol neu gymorth pan fydd addasiadau yn cael eu cynllunio.
- Pwysleisiodd defnyddwyr nad oedd addasiadau yn lleihau’r angen am ofal priodol yn y cartref.
- Roedd rhai awdurdodau wedi llwyddo i ailstrwythuro eu gwasanaeth therapi galwedigaethol, gan glirio tagfeydd mawr o bobl a oedd yn aros am asesiad a chan sefydlu amserau aros bach iawn yn y dyfodol.
- Defnyddiai rhai awdurdodau grantiau mân waith fel ffordd gyflym a hyblyg o ddarparu addasiadau. Er hynny, nid oedd grantiau mân waith ar gael ym mhob ardal, gan adael rhai bobl o dan anfantais sylweddol, yn dibynnu ar ble’r oeddent yn byw.
- Mewn rhai ardaloedd roedd Staying Put, Gofal a Thrwsio ac ‘asiantaethau gwella tai’ nad ydynt yn gwneud elw yn darparu cymorth eiriolaeth a rôl gydgysylltu wrth gyflawni addasiadau. Roeddent hefyd yn rhyddhau therapyddion galwedigaethol i ganolbwyntio ar asesiadau.

**b) Funding Adaptations, the Need to Co-operate, Frances Heywood with Gavin Smart, 1996**

Mae'r ymchwil hon yn amlinellu cymhlethdodau ffynonellau ariannu am addasiadau tai, a'r rhesymau dros hyn. Yn gryno, mae'r ymchwil yn nodi bod hyn yn deillio i ddechrau o Ddeddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990, a osododd y fframwaith ar gyfer Gofal yn y Gymuned ar y pryd. Pwysleisiodd cylchlythyrau ar y cyd a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Adrannau o'r Llywodraeth bwysigrwydd tai wrth wneud i ofal cymunedol weithio, ond ni threfnwyd bod unrhyw ddarpariaeth ariannol ddigonol ar gael. Bu Gofal Cymunedol yn llwyddiannus wrth helpu llawer o bobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, ond ni ragwelwyd maint yr angen am addasiadau i hwyluso hyn. O ganlyniad, mae arian wedi dod o nifer o ffynonellau:

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)
- Cyllidebau refeniw a chyfalaf Tai Cyngor
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl (CSDPA) 1970 yn gosod dyletswydd benodol ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod anghenion addasiadau yn cael eu diwallu. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ddarparu DFG gorfodol. I bob pwrpas, mae hwn yn "isgontractio" dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol o dan CSDPA 1970 i'r awdurdod tai.

Canfyddiadau allweddol erail yr ymchwil yw:

- Rhwng 1990 a 1996, cafwyd cynnydd o 15% y flwyddyn mewn ceisiadau am addasiadau tai
- Yn sgil cyflwyno DFG gorfodol ym 1990 cafwyd twf sylweddol ar wariant ar DFGs yng Nghymru – cynnydd o 53% rhwng 1989 a 1994. Yn ystod yr un cyfnod, ni chynyddodd gwariant yn Lloegr yn sylweddol. Casglodd yr ymchwilwyr fod trefniadau yng Nghymru yn darparu cyplysiad gwell rhwng anghenion ac adnoddau nag yn Lloegr.
- Yng Nghymru, roedd addasiadau am denantiaid presennol yn cael eu cyflawni trwy'r system DFG.
- Roedd yr arhosiad cyfartalog o 20 wythnos am asesiad gan therapydd galwedigaethol ledled Cymru a Lloegr yn fater o bwys mewn llawer o leoedd mewn perthynas ag oedi.
- Roedd rhieni plant anabl (dibynnol) yn cael anhawster yn aml i dalu eu cyfraniadau sy'n destun prawf modd tuag at gostau addasiadau, oherwydd ymrwymiadau morgais ("unavoidable out-goings"). Dim ond 18% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol oedd yn defnyddio arian Adran 17 o Ddeddf Plant 1989 i helpu i dalu am addasiadau plant. Casglodd yr ymchwilwyr fod addasiadau plant yn gofyn am gynllunio hirdymor ac y byddant yn costio deirgwaith yn fwy ar gyfartaledd nag addasiadau i oedolion.

## c) Disabled Facilities Grants, is the system working? A survey by Age Concern and RADAR, 1999

Ym 1998, cynhyrchodd Age Concern a RADAR restr gyfeirio 10 pwynt i annog personau/grwpiau anabl lleol i asesu pa mor dda yr oedd eu hawdurdod lleol o safbwynt arferion da a gweithdrefnau effeithlon o ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Daeth ymatebion a oedd yn cwmpasu 89 o awdurdodau lleol i law. Crynhoir y canfyddiadau isod:

- Mewn 66% o ardaloedd roedd yn eithaf hawdd dod o hyd i wybodaeth am DFG, er mai dim ond 1 ym mhob 4 o'r ardaloedd hyn a oedd yn darparu llyfryn gwybodaeth. Mewn bron 30% o ardaloedd, y farn oedd ei bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth am DFG ac roedd diffyg ymwybyddiaeth hefyd yn yr ardaloedd hyn ymhlith staff llywodraeth leol. Yn gyffredinol, nid oedd lawer o dystiolaeth mewn llawer o ardaloedd am ymdrechion i hybu DFGs yn egnïol.
- Mewn 89% o ardaloedd, roedd prosesau addasiadau tenantiaid cyngor yn debyg i'r rhai ar gyfer ymgeiswyr DFG. Er hynny, mewn 11% o ardaloedd, roedd tenantiaid cyngor yn destun rheolau gwahanol a gwrthodwyd addasiadau iddynt mewn rhai sefyllfaoedd.
- Mewn dros 35% o ardaloedd, nid oedd unrhyw amserau targed ar gyfer prosesu DFGs, nid hyd yn oed yr amserlen gyfreithiol o chwe mis. Lle'r oedd targedau, roedd amserau targed yn amrywio yn enfawr a dechreuodd gwahanol ardaloedd fesur o wahanol bwyntiau yn y broses. Mae meincnodi felly yn anodd iawn. Byddai dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn hwyluso cymhariaeth ystyrlon.
- Dangosodd ymatebion defnyddwyr fod amser aros ar gyfer asesiad gan therapydd galwedigaethol yn faes lle cafwyd anfodlonrwydd sylweddol. Dim ond ychydig dros hanner o'r ardaloedd a oedd yn gallu rhoi amser aros ar gyfartaledd, ac roedd hyn yn aml yn annerbyniol o hir. Mewn rhai ardaloedd roedd yr amser aros hyd at ddwy flynedd.
- Mewn 65% o ardaloedd, nid oedd unrhyw system flaenoriaethu.
- Nid oedd 45% o awdurdodau yn gweithredu timau ar y cyd nac yn cydweithio yn agos.
- Mewn dros hanner o'r ardaloedd, roedd enw gweithiwr allweddol yn cael ei roi i ymgeiswyr, ond mewn 45% o ardaloedd, ni roddir i ymgeiswyr enw gweithiwr allweddol na chyswllt.
- Nid oedd dros 50% o awdurdodau lleol yn ymgynghori o gwbl â phobl hŷn neu anabl ynghylch gwasanaethau addasiadau. O'r rhai a oedd yn gwneud, ar ffurf arolygon boddhad cwsmeriaid yr oedd oedd hyn yn bennaf.
- Yn y mwyafrif o ardaloedd, nid oedd unrhyw gymorth ariannol gyda'r rhai a oedd yn dymuno symud i lety mwy addas.
- Nid oedd 56% o awdurdodau yn cadw cofrestr o eiddo a addaswyd. O'r rhai sy'n cadw cofrestri, dim ond addasiadau i dai cymdeithasol y mae bron hanner yn eu cofnodi.

**d) Changing Rooms, a survey of the adaptations service in six Welsh authorities and the outcomes for service users with physical disabilities, Elizabeth Higham, 1999**

Nod datganedig yr astudiaeth hon oedd rhoi syniad o'r sefyllfa mewn sampl o awdurdodau lleol yng Nghymru, nodi enghreifftiau o arferion da a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Astudiwyd chwe awdurdod lleol yng Nghymru a chyfwelwyd eu swyddogion. Cynhaliwyd holiadur post a chyfweliadau â defnyddwyr gwasanaeth hefyd. Crynhoir y darganfyddiadau isod:

- Dylai pwysigrwydd darparu addasiadau gael ei gydnabod yn ehangach a dod yn agwedd fwy canolog ar Ofal yn y Gymuned
- Mae angen cydweithio dilys yn yr awdurdodau lleol er mwyn goresgyn cymhlethdod deddfwriaeth a thrwy hynny ffynonellau ariannu sy'n cwmpasu addasiadau tai
- Oedi wrth ddarparu addasiad yw'r broblem a grybwyllwyd amlaf gan ddefnyddwyr. Mae rhai pobl yn gorfod aros yn hir ac yn ystod y cyfnod hwnnw maent yn gorfod ymdopi â phoen ac anghysur cynyddol ac mae eu hamgylchiadau yn cyfyngu yn ddybryd ar eu gweithgareddau beunyddiol
- Mewn rhai awdurdodau, mae defnyddwyr yn dal i orfod aros hyd at 2 flynedd am addasiad. Y tri phrif achos yw amser asesiadau therapyddion galwedigaethol, diffyg cydweithio effeithlon rhwng adrannau awdurdodau lleol ac oedi yn yr amser i gyflawni'r gwaith gan Adrannau Tai Cyngor ar gyfer eu tenantiaid
- Achosion eraill o oedi a grybwyllwyd oedd profi adnoddau ar gyfer DFG, a'r broses adeiladu gan gynnwys caniatâd cynllunio, sicrhau amcangyfrifon adeiladwyr, etc. Mae'r rhain weithiau, ond nid bob amser, y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol

Crynhoir argymhellion yr ymchwilwyr isod:

- System gyfeirio bwrpasol effeithlon ar gyfer cael mynediad i'r gwasanaeth
- Gwelliannau sylweddol i argaeledd ac ansawdd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am wasanaethau
- Gwell cydweithio a chydweithredu rhwng tai a gwasanaethau cymdeithasol
- Un cyswllt (gweithiwr allweddol) i gleientiaid
- Gwell gweithdrefnau cwblhau ar ôl gwaith i sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio'r addasiadau a ddarparwyd yn effeithiol
- Gwell gweithdrefnau ar gyfer cwyno
- Dylai'r awdurdodau lleol gadw cofrestri o eiddo a addaswyd a chytuno ar bolisïau priodol yn lleol i alluogi personau anabl sydd mewn angen i gael eu cyplysu ag eiddo sydd ar gael
- Angen am ddangosyddion perfformaid neu safonau siarter i wella perfformiad lleol ar addasiadau
- Gwella'r sylw a roddir i wasanaethau addasiadau o fewn cynlluniau gofal cymdeithasol

e) **Money well spent: The effectiveness and value of housing adaptations, Frances Heywood, 2001**

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon ledled Cymru a Lloegr yn ystod 1999-2000. Ystyriodd effeithiolrwydd tymor-hir a defnyddio addasiadau tai yng nghartrefi pobl anabl. Nodwyd y prif ganlyniadau yn adroddiad "Findings" Joseph Rowntree Foundation, Awst 2001, ac fe'u crynhoir isod:

- Roedd mân addasiadau, megis canllawiau gafael a chanllawiau cyffredin, yn dod ag ystod o ganlyniadau cadarnhaol parhaol
- Roedd addasiadau mawr, megis gwaith trosi mewn ystafelloedd ymolchi, lifftiau grisiau, lifftiau trwyddo, ac estyniadau yn gweddnewid bywydau pobl er gwell
- Awgrymodd y dystiolaeth o dderbynwyr Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac addasiadau o ffynonellau ariannu eraill fod gwasanaethau addasiadau a gyflwynir yn llwyddiannus yn cyflawni amcanion polisi allweddol megis cyflymu ryddhau cleifion o'r ysbyty a helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty, hybu cynhwysiant cymdeithasol a lleihau straen ar ofalwyr
- Weithiau cafwyd addasiadau aflwyddianus a gwastraff oherwydd amrywiaeth o resymau, yn bennaf oherwydd:
  - ymgynghori annigonol â defnyddwyr yn arwain at fanylebau gwael ac at ddarparu addasiadau nad oedd defnyddwyr yn y pen draw yn dymuno eu cael
  - gweithwyr proffesiynol yn gweithio yn ôl rheolau a pholisïau llym
  - oedi yn arwain at asesiadau sydd wedi dyddio, damweiniau a gorfod rhoi cleientiaid yn yr ysbyty tra oeddent yn aros, ac arferion dibyniaeth yn ennill eu plwyf, a oedd wedyn yn anodd eu newid
- Casglodd yr ymchwil fod gwario ar addasiadau i bob golwg yn ddefnydd effeithiol iawn o arian y cyhoedd, a bod modd cyfiawnhau buddsoddi adnoddau iechyd er mwyn cynyddu arian ar gyfer addasiadau

f) **Older people and Participation within Disabled Facilities Grant Processes, British Journal of Occupational Therapy, Darren Awang, 2002**

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â pha mor dda yr oedd gwasanaethau DFG yn cael eu cyhoeddi, pa mor hawdd oedd hi i gael mynediad at y system, a'u profiad o lefel y cyfranogiad ac ymglymiad pan fyddent yn y system. Roedd yr astudiaeth yn gyfyngedig o ran mai dim ond dau awdurdod lleol ac un Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru a astudiwyd. Y prif ganfyddiadau oedd:

- Roedd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth gyffredinol am DFGs yn wael ac roedd anfodlonrwydd i gyhoeddi gwasanaethau a oedd heb adnoddau digonol ac yr oedd gormod o bobl eisiau eu cael. O ganlyniad, mae yna berygl nad yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf am

addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael

- I'r rhai a gafodd fynediad at y system, roedd tuedd i faint y wybodaeth a chymhlethdod y wybodaeth olygu bod defnyddwyr yn ymeithrio rhag y system
- Gwelwyd rhywfaint o ddewis i ddefnyddwyr, mewn perthynas â dylunio addasiadau, a'r dewis i ofyn i "technical officer" drefnu'r gwaith
- Yn gyffredinol, roedd lefelau cyfranogiad yn isel, gyda'r pwyslais ar reoli darparwyr y gwasanaeth yn hytrach na rheoli defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd arolygon post yn cael eu defnyddio ond nid oedd y rhain mewn gwirionedd yn arwain at ymglymiad gwirioneddol ar ran y defnyddiwr na chyfle i rhoi adborth am y system
- Roedd un awdurdod wedi sefydlu grŵp defnyddwyr yn ddiweddar, ac roedd y syniad amdano yn cael ei dderbyn yn dda gan ddefnyddwyr ond roedd yn dal yn ddyddiau cynnar o ran y datblygu

**g) Housing for Disabled People, Equal Adaptations, Nigel Appleton with Ruth Wilson, 2003**

Diben yr astudiaeth hon, a gynhaliwyd ar ran Gofal a Thrwsio Cymru, oedd "establish the characteristics of the adaptation service delivered to tenants of local authority housing in Wales". Ymatebodd 10 awdurdod o Gymru i'r arolwg.

- Nododd 70% o awdurdodau a ymatebodd nad oedd ganddynt drefniadau gwahanol ar gyfer cael ceisiadau am addasiadau oddi wrth denantiaid awdurdodau lleol
- Dim ond 30% o awdurdodau oedd yn defnyddio DFG am denantiaid cyngor
- Ni nododd unrhyw awdurdod lleol fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ariannu addasiadau i'w tenantiaid
- Roedd amrywiadau sylweddol o ran cydraddoldeb cyflawni gwasanaethau yn gysylltiedig â lleoliad daearyddol hy mae ardal yr awdurdod lleol y mae rhywun yn byw ynddi yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth, gan gynnwys amser aros
- Y profiad o LSVT yn Lloegr yw bod cyrff newydd yn gyndyn i gynnal yr un lefel o wariant a ddarperid gynt gan yr awdurdod lleol, ac o ganlyniad rhoddir cyllidebau DFG lleol o dan bwysau ychwanegol
- Mae diffyg gweithdrefnau, gwaith papur a'r prawf modd a gysylltir â DFG yn darparu llwybr llai cymhleth ar gyfer darparu addasiadau i denantiaid cyngor
- Mae defnyddio asesiad gan therapydd galwedigaethol ar gyfer pob un ond yr addasiadau lleiaf yn eang. Mae arferion da mewn mannau eraill yn awgrymu bod cyfle am hunan-asesu ac awdurdodiad gan weithwyr proffesiynol eraill i gael gafael ar addasiadau o dan amgylchiadau addas
- Ym mhob arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau addasiadau, y cais cryfaf am welliant yw o ran amserlenni. Mae'r astudiaeth hon yn

datgelu amrywiadau eang o ran arferion ac amserlenni sy'n ymestyn i mewn i flynyddoedd. Mae angen canllawiau clir ar amserlenni priodol

**h) The Impossible Took a Little Longer, Brendon Mckeever, Family Information Group, 2004**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu gwaith yr ymgyrch "Homes Fit for Children" i ddiddymu'r prawf modd i DFGs plant anabl, gan ganolbwyntio yn arbennig ar yr ymgyrch yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n rhoi cronoleg fanwl o'r ymgyrch, a arweiniodd at ddiddymu'r prawf modd yng Ngogledd Iwerddon yn Chwefror 2004. Mae'r gwaith yn cynnwys amlinelliad o'r problemau a ganfyddir gyda'r system profion modd, yn enwedig y lwfansau ariannol isel am gostau tai a chostau magu plentyn anabl ddim yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn briodol. Mae hefyd yn casglu, ni waeth beth yw diffygion y prawf modd: *"It is the right of every child to have a safe, accessible home. Means testing parents of disabled children is a barrier to that right".*

**i) Building in Evidence: Reviewing Housing and Occupational Therapy, Darren Awang 2004**

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon rhwng Gorffennaf 2002 a Mehefin 2003. Nod y gwaith oedd nodi a chloriannu ansawdd deunydd darllen a gyhoeddwyd a deunydd darllen anfasnachol yn ymwneud â thai a therapi galwedigaethol. Mewn gwirionedd, gwnaeth gwaith Awang grynhoi a gwerthuso'r ymchwil a oedd ar gael, boed wedi'i chyhoeddi, a heb ei chyhoeddi, ym maes tai a therapi galwedigaethol. Mae 23 o eitemau yn cael eu gwerthuso, ***a rhai ohonynt wedi'u trafod uchod yn yr adolygiad o ddeunydd darllen***. Mae detholiad o waith arall yr ymdrinnir ag ef, fel y'i nodir yn "Building in Evidence etc…" fel a ganlyn:

**Adams, 1996:** Ymchwiliodd y prosiect ymchwil hwn, sy'n rhan o radd Feistr, i broblemau amrywiol o fewn ffin Sirol yn Lloegr. Rhai o'r problemau allweddol a nodwyd oedd cyhoeddusrwydd gwael ar gyfer DFG a chymhlethdod gwybodaeth am grantiau, a'r anhawster posibl y byddai trosglwyddo stoc tai cyngor i statws Cymdeithas Tai yn ei achosi o ran cynnydd yn y galw am DFG.

**Adran yr Amgylchedd, 1996:** Cwblhawyd yr adolygiad mawr cyntaf o'r system DFG yn Lloegr gan Pieda ar ran y DoE ym 1996. Yn adroddiad Awang dywedir bod y fethodoleg yn wan o ran ymgynghori â defnyddwyr ac yn siomedig o ran nodi sut y gellid rhoi cyhoeddusrwydd gwell i DFGs. Dyma rai canfyddiadau allweddol isod:

- Dywedwyd bod y system DFG wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at bobl yr oedd arnynt angen addasiadau tai.
- Roedd cyfraddau ymeithrio o'r system yn uchel sef 35%. Y prif resymau am hyn oedd:
  - angen gwaith nad oedd yn gymwys am DFG
  - gwaith tenantiaid cyngor yn cael ei gyflawni trwy lwybrau ariannu amgen
  - cyfraniad yn uwch na chost y gwaith (felly dim grant) (34%)

- bu farw’r ceisydd (13%)
- y ceisydd ddim yn gallu fforddio cyfraniad (8%)
- gwrthod cyflawni prawf modd (4%)
- rhesymau nad ydynt yn ymwneud â system DFG (41%)

- Ymddangosai fod DFGs yn cael eu targedu yn dda, gyda 60% yn mynd i berchnogion tai a 70% yn mynd i bobl dros 70 oed.
- Problemau oedi oherwydd prinder staff (gyda rhannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai o’r broses).
- Problemau yn codi o gymhlethdod y broses, yn enwedig lle’r oedd Cynghorau Dosbarth a Sir yn chwarae rhan.

**Nocon and Pleace, 1998:** Roedd y gwaith hwn yn ymdrech gydweithedol mudiad anbledd a darparwyr gwasanaethau statudol. Roedd felly yn sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau anabl yn cael eu hystyried ac y rhoddwyd gwybod amdanynt mor llawn â phosibl. Un o ddarganfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws/trafod oedd bod profiadau yn gymysg mewn perthynas â’r broses addasiadau (er bod yr awdur yn gosod pwyslais ar yr anawsterau a gafwyd). Roedd profiadau negyddol yn cynnwys gorfodi syniadau proffesiynol ynghylch yr hyn y gallai fod ei angen, methiant â gorfodi syniadau proffesiynol am yr hyn a allai fod yn ofynnol, methu â dylunio cyfleusterau cynhwysol, peidio â chwarae rhan yn y broses benderfynu (“professionals know best”), rhwystredigaeth ynghylch mân reolau biwrocrataidd, ac annhegwch deiliadaeth o fewn gwasanaethau sydd heb adnoddau digonol.

**O’Brien, 2003:** Crybwyllodd yr adroddiad byr hwn deuluoedd â phlant anabl a oedd wedi tynnu allan o’r system DFG am resymau ariannol neu heb fod yn ariannol. Roedd yr astudiaeth yn ymdrin â phobl yn tynnu allan yn ystod y flwyddyn 220/2003, mewn 5 allan o 11 o Ymddiriedolaethau Gogledd Iwerddon a oedd yn darparu gwasanaethau therapyddion galwedigaethol cymunedol. Dull yr astudiaeth oedd arolwg pen bwrdd, er mwyn osgoi’r pryder y byddai disgwyliadau teuluoedd yn cael eu codi o ran cael cymorth grant ôl-weithredol. Roedd cyfyngiadau’r astudiaeth yn cael eu gwneud yn glir yn y gwaith. Yn ystod y cyfnod o dan sylw, tynnodd 44 o deuluoedd, gyda phlant anabl 2-18 oed, o’r system. Y rhesymau a roddwyd oedd nad oeddent yn gallu fforddio’r cyfraniad (30%), eu bod yn anghymwys am grant (25%), diffyg cytundeb ynghylch natur yr addasiadau y mae eu hangen (11%), a’r gweddill am resymau eraill llai clir. Nodwyd bod rhai teuluoedd sy’n cael grant rhannol wedi tynnu yn ôl, yn ogystal â’r rhai nad ydynt yn cael grant o gwbl. Tynnodd cyfanswm o 55% yn ôl am resymau yn gysylltiedig ag arian, a 45% am resymau heb fod yn ariannol. Un o’r prif feysydd a nodwyd yn ymchwil bellach oedd y canlyniadau yn yr achosion hynny nad oeddent yn cael mynediad i DFG.

**Oldman and Beresford, 1998:** Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar farn a phrofiadau rhieni a phlant anabl. Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys arolwg post – dychwelodd 234 o deuluoedd ffurflenni (138 o grwpiau incwm isel, a 96 o grŵp incwm canol). Cynhaliwyd cyfweliadau a oedd yn para rhwng awr a dwy hefyd â rhieni, a chyfwelwyd saith o blant 8 oed gan ddefnyddio dulliau creadigol. Ymhlith y pwyntiau a wnaed gan y rhieni a’r plant oedd:

- Roedd asesu yn llawn straen ac yn cymryd yn rhy hir. Roedd angen rhybuddio pobl am yr amser a gymerir
- Roedd y mwyafrif o agweddau at Therapyddion Galwedigaethol yn feirniadol e.e. nid oedd rhai teuluoedd yn hoffi awgrymiadau OT ynghylch addasiadau yr oedd eu hangen, yn arbennig lifftiau trwy loriau, lifftiau grisiau a theclynnau codi a glymir wrth y nenfwd gan fod addasiadau o'r fath yn gwaethygu problemau lle
- Roedd barn negyddol am asesu ariannol, yn enwedig lle nad oedd unrhyw gyllid ar gael
- Nid oedd cyfyngiadau ar ariannu, addasiadau yn gynhwysfawr a'r canfyddiad oedd eu bod wedi'u cwblhau yn dameidiog a hynny am bris isel.

Gwnaed dau brif argymhelliad.

- Yn gyntaf, adolygaid polisi brys i sicrhau y gellid diwallu anghenion plant mewn perthynas â thai yn briodol. Roedd cymhellion cryf i'r awdurdodau iechyd helpu i ariannu addasiadau neu helpu pobl i symud tŷ gan nad oedd y symiau o dan sylw yn orfodol, o'u cymharu â phroblemau iechyd posibl ymhlith rhieni, cyfleoedd gwell mewn bywyd i blant a llai o alw ar wasanaethau gofal.
- Yn ail, roedd yn glir bod rhieni eisiau cael agweddau proffesiynol at newid, gyda chymorth polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer plant. Roedd angen i weithwyr proffesiynol megis gweithwyr cymdeithasol a phediatryddion fod yn fwy ymwybodol o faterion tai plant anabl. Roedd angen i staff tai wella sensitifrwydd i anghenion penodol plant anabl.

**Winfield and Goodman, 2001**. Astudiaeth fanwl oedd hon a wnaed gan Ganolfan Feincnodi Syniad yn ymwneud ag addasiadau tai yng Nghymru, mewn ymateb i'r agenda "Gwerth Gorau". Casglwyd gwybodaeth oddi wrth 19 o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Roedd y grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r gwaith hwn. Roedd hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 19 awdurdod, ynghyd ag Anabledd Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, a chynrychiolwyr Cynulliad Cymru. Llenwyd cyfres o holiaduron sylweddol gan y 19 awdurdod lleol. Casglwyd data ansoddol a meintiol cymysg a chafwyd adroddiad arno. Cynhyrchwyd cyfres o ganllawiau arferion da hefyd, yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Sgrinio am feini prawf cymhwyster a blaenoriaethu ar gyfer asesiadau
- Asesiad o anghenion addasu
- Amser a gymerwyd
- Sicrhau canlyniad o safon
- Sichrau proses gyfathrebu effeithiol

Nododd y prif argymhellion yr angen am ymchwil bellach i'r boblogaeth sy'n heneiddio gan ei bod yn ymwneud ag anghenion o ran addasiadau ac offer ac o ganlyniad adnoddau i ddarparwyr gwasanaethau. Roedd angen mwy o waith ar ddatblygu model ar gyfer proses sy'n benodol o ran amser, yn nodi cyfnodau allweddol y broses addasu y dylid mesur perfformiad yn ei herbyn, ac yn cynnwys pob rhan o'r broses, gan gynnwys prosesau Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

j) **In Sight of Home, Meeting the Needs of People with Sight Problems, Linda Rees, 2004**

Cynhaliwyd y gwaith gan RNIB Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Mae'r gwaith wedi arwain at gynhyrchu Arweiniad Arferion Da a anelir at staff Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau DFG ac addasiadau ac sy'n gallu dylanwadu ar gyflwyno gwasanaethau addasu i bobl sydd â nam ar eu golwg. Ategir y canllawiau gan hyfforddiant cynhwysfawr yn achos y staff hyn yn 2005.

Mae'r Canllawiau wedi'u llywio gan adolygiad cynhwysfawr o ddeunydd darllen, holiadur i bob un o 22 awdurdod lleol Cymru, a chyngor ac awgrymiadau gan bobl broffesiynol a phobl sydd â nam ar eu golwg. Un o ddarganfyddiadau pwysicaf y gwaith hwn oedd ei bod yn anodd cael data gwerthfawr ynghylch DFG ac addasiadau i bobl sydd â nam ar eu clyw. Atgyfnerthodd hyn farn RNIB Cymru fod pobl sydd â nam ar eu golwg fel petai ar eu colled o ran cael eu hadnabod fel pobl sydd ag angen addasiadau.

Yn ei hanfod mae'r gwaith yn rhoi cyngor manwl ar sut y dylai darpariaethau'r ddeddfwriaeth a'r gwasanaethau presennol ar gyfer darparu DFGs ac addasiadau fod yr un mor gymwys i bobl sydd â nam ar eu golwg, a'r problemau penodol a wynebir gan bobl sydd wedi colli eu golwg a sut i oresgyn y rhain.